Mewnfudo a chynhwysiant yn Ne Cymru

Terry Threadgold, Sadie Clifford, Abdi Arwo, Vanessa Powell, Zahera Harb, Xinyi Jiang a John Jewell

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn archwilio effaith ymfudiad newydd ar gymunedau sefydlog yn Ne Cymru, yn enwedig ar faterion cymuned, integreiddio a chydlyniant.

Mae'n dogfennu bywydau pob dydd ymfudwyr a chymunedau sy'n derbyn. Mae'n archwilio safbwyntiau a phrofiadau pobl o ystod o ardaloedd daearyddol sy'n amrywiol o ran cefndir ethnig, a gwahanol fathau o ymfudwyr.

Mae'r astudiaeth yn archwilio:

- yr ymatebion i ymfudiad newydd gan y cymunedau sefydlog sy'n derbyn ac ardaloedd daearyddol yn Ne Cymru, yn hanesyddol a thros y deng mlynedd ddiwethaf;

- dealltwriaethau pobl o dermau polisi allweddol (e.e. cymuned, integreiddio, cynhwysiant, cydlyniant cymunedol) ar nifer o lefelau: ymhlith gweinyddwyr, arweinwyr cymunedol ac ar lawr gwlad;

- y ffordd y mae ymfudwyr newydd a chymunedau sefydlog yn profi prif 'ddangosyddion integreiddio' neu gynhwysiant yn eu bywydau pob dydd: dysgu Saesneg, cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysg, tai, cyflogaeth, gofal iechyd, plismona a diogelwch cymunedol;

- beth all hybu, a beth all atal, cydlyniant cymunedol.

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill, megis print mawr, Braille a recordiad sain. Cysylltwch â:
Communications, Joseph Rowntree Foundation,
The Homestead, 40 Water End, York YO30 6WP.
Ffôn: 01904 615905. e-bost: info@jrf.org.uk

Mewnfudo a chynhwysiant yn Ne Cymru

Terry Threadgold, Sadie Clifford, Abdi Arwo, Vanessa Powell, Zahera Harb, Xinyi Jiang a John Jewell

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

Mae **Sefydliad Joseph Rowntree** wedi rhoi cymorth i'r prosiect hwn fel rhan o'i raglen o brosiectau ymchwil a datblygu arloesol, y mae'n gobeithio y byddant o werth i wneuthurwyr polisïau, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Serch hynny, mae'r ffeithiau a gyflwynir a'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn eiddo i'r awduron ac nid ydynt o anghenraid yn eiddo i'r Sefydliad.

Sefydliad Joseph Rowntree/Joseph Rowntree Foundation, The Homestead, 40 Water End, York YO30 6WP Gwefan: www.jrf.org.uk

Roedd awduron yr adroddiad hwn i gyd yn cael eu cyflogi gan Ysgol Caerdydd ar gyfer Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol trwy gydol oes y prosiect

© Prifysgol Caerdydd, 2008

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2008 gan Sefydliad Joseph Rowntree

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol trwy lungopïo neu drwy ddull electronig. Fel arall, ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, nac addasu unrhyw ran ohono, na chadw unrhyw ran ohono mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ran ohono trwy unrhyw ddull, boed yn electronig neu'n fecanyddol, na thrwy lungopïo, na thrwy unrhyw ddull arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Sefydliad Joseph Rowntree.

ISBN: 978 1 8535 645 6 (pdf yn Saesneg)
ISBN: 978 1 85935 646 3 (pdf yn Gymraeg)

Mae cofnod catalog CIP ar gyfer yr adroddiad hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig.

Paratowyd gan:
York Publishing Services Ltd
64 Hallfield Road
Layerthorpe
York YO31 7ZQ
Ffôn: 01904 430033; Ffacs: 01904 430868; Gwefan:www.yps-publishing.co.uk

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn, neu unrhyw gyhoeddiad arall gan JRF, o wefan JRF (www.jrf.org.uk/bookshop).

Cynnwys

Crynodeb gweithredol vii

1 Cyflwyniad 1
Yr hyn a wyddom o waith ymchwil 1
Ymchwil i gynhwysiant yng Nghymru 1
Ethnigrwydd, dosbarth ac anfantais yng Nghymru 2
Ethnigrwydd, hiliaeth a thlodi 3
Uwch-amrywiaeth 3
Cydlyniant cymdeithasol a datblygu polisi yng Nghymru 4
Y cyd-destun polisi: datganoli 6
Nodau'r ymchwil 6
Y gwaith maes 7
Y cymunedau 8
Y cyfweliadau 9
Trefn yr adroddiad 10

2 Archwilio cydlyniant cymunedol 11
Dealltwriaethau gwneuthurwyr polisïau 11
Dealltwriaethau ar lawr gwlad 14
Gwahanol safbwyntiau am gymuned 16
Ailfeddwl am gydlyniant cymunedol 20
Bywydau cyfochrog: pan fo unigedd yn broblem 21
Pobl ifanc fel her i gydlyniant 24
Cydlyniant ac arwahanrwydd cymunedol mewn ardaloedd dosbarth-canol yng Nghymru 28
Pwyntiau i grynhoi 30

3 Dosbarth cymdeithasol, mewnfudo a chynhwysiant 31
Tlodi, ymfudiad a dosbarth cymdeithasol 31
Ymfudwyr newydd, gwaith a dosbarth cymdeithasol 33
Symudoledd cymdeithasol a dosbarth cymdeithasol 34
Gwahaniaeth rhwng dosbarthiadau mewn amgylcheddau dosbarth-gweithiol 38
Addysg a chynhwysiant 39
Eithrio cymdeithasol, tlodi a dosbarth 40
Pwyntiau i grynhoi 43

4 Rhwystrau i gynhwysiant a chydlyniant cymunedol 45
Hiliaeth a gwahaniaethu 45
Hiliaeth a chymunedau sefydlog traddodiadol Caerdydd 47
Mynediad at waith a gwasanaethau 48
Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus 55
Gweithwyr cyngor, parch a hunaniaeth 58
Ofnau rhieni ynghylch hiliaeth a diwylliant Prydain 59
Mynediad at addysg uwch 60
Rôl y cyfryngau 61
Pwyntiau i grynhoi 67

5 Casgliadau a chyfarwyddiadau polisi 68
Polisi ar gydlyniant yng Nghymru 68
Iaith polisïau a chreu 'synnwyr cyffredin' 69
Cydlyniant: gwirioneddau lleol 70
Tlodi, dosbarth cymdeithasol a chydlyniant 71
Rhwystrau allanol i integreiddio 72
Hanes, integreiddio a chydlyniant 73
Gwersi i Gymru 74

Cyfeiriadau 76

Atodiad 1: Termau a diffiniadau 87

Atodiad 2: Y cymunedau 91

Crynodeb gweithredol

Mae polisi ar ymfudiad wedi datblygu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers 2001, ac mae'n dal i ddatblygu mewn ymateb i bryderon ynghylch cydlyniant cymunedol neu gymdeithasol. Fodd bynnag, er bod datblygiadau o ran defnyddio'r termau hyn wedi bod yn seiliedig ar ymgynghori helaeth ac arolygon o boblogaethau lleol, prin fod ystyron cydlyniant cymunedol wedi cael eu herio a'u harchwilio trwy ymchwil drylwyr gyda chymunedau lleol. Aeth yr ymchwil hon ati felly i archwilio'r gwahaniaethau posib rhwng gwirioneddau bywyd pob dydd yn Ne Cymru a'r gwirioneddau a awgrymir gan bolisi diweddar. Bu i'r ymchwil archwilio ystod o ardaloedd daearyddol sy'n amrywiol o safbwynt cefndir ethnig y bobl a gwahanol fathau o ymfudiad, gan gynnwys safbwyntiau a phrofiadau cymunedau sefydlog ac ymfudwyr newydd.

Canfu ein hymchwil fel a ganlyn:

- Nid oedd tystiolaeth bod tensiynau cymunedol yn ganlyniad anorfod i fewnfudiad newydd.

- Nid oedd grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy 'gwahanedig' o gwbl na'r cymunedau dosbarth-canol a dosbarth-gweithiol sy'n eu derbyn, ac nid oeddent ychwaith yn llai integredig o gwbl na chymunedau dosbarth-gweithiol gwyn ar ystadau cyngor.

- Er bod ymfudiad (gwyn yn enwedig, ond nid gwyn yn unig) i gymunedau dosbarth-canol yn bennaf yn anweladwy, nid felly ymfudiad (yn enwedig pan ei fod yn cynnwys gwahaniaeth gweladwy neu wahaniaeth o ran iaith) i gymunedau dosbarth-gweithiol amddifadus. Mae gallu ymfudwyr newydd i weithio'n cael ei ystyried yn ffafriol gan boblogaethau sefydlog ac mae o gymorth yn y broses integreiddio, ond nid yw'r profiad o'r gweithle'n gadarnhaol nac yn gydlynol bob amser.

- Roedd gwahaniaethau mawr iawn rhwng y dosbarthiadau'n bodoli yn a rhwng y cymunedau a'r ardaloedd y bu i ni ymchwilio iddynt ac roeddent yn effeithio ar y profiadau o integreiddio a chydlyniant cymunedol ym mywyd pob dydd.

- Gyda'r holl wasanaethau a drafodwyd gyda'r bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil, dywedodd aelodau o grwpiau lleiafrifol eu bod wedi profi gwahaniaethu, anwybodaeth ddiwylliannol dramgwyddus neu hiliaeth. Gallai'r math o hiliaeth a gwahaniaethu a ddisgrifiwyd fod yn rhannol yn gysylltiedig â dosbarth ac yn rhannol yn gysylltiedig â thlodi.

- Roedd yr amodau amddifadus a'r tlodi yr oedd ymfudwyr newydd yn eu cael eu hunain ynddynt yn cyfyngu ar eu symudoledd cymdeithasol ac roeddent i'w gweld yn cael trafferth integreiddio mewn amgylcheddau yr oeddent hwy'n eu cael yn fygythiad i'w gwerthoedd diwylliannol a'u ffyrdd o fyw. Roedd cymunedau dosbarth-gweithiol sefydlog mewn ardaloedd sy'n debyg o ran lefelau amddifadedd yn cael yr un drafferth wrth integreiddio a hefyd yn ystyried gwahaniaeth yn fygythiad i'w gwerthoedd cymunedol a'u ffordd o fyw.

- Gall ymddangosiad y broses integreiddio a chydlyniant mewn cymunedau sydd i'w gweld yn llwyddiannus guddio grwpiau sydd wedi'u hynysu, y camfanteisir arnynt neu sy'n agored i niwed. Mae tensiynau o wahanol fathau rhwng y cenedlaethau'n bodoli ym mhob un o'r grwpiau a'r ardaloedd daearyddol a astudiwyd gennym. Gall hyn ddeillio o fathau newydd o deulu a chymuned sy'n arwain at ynysu'r henoed, neu o wahanol fynediad at, a gwahanol lefelau o, integreiddio.

- Roedd grwpiau mudol yn enwedig o'r farn bod eu gallu i integreiddio a dod yn rhan o gymuned gydlynol yn cael ei niweidio'n gyson gan stereoteipiau a hyrwyddir gan y cyfryngau.

Daethom i'r casgliadau canlynol:

- Mae angen gwirioneddol i osgoi'r tueddiad synnwyr-cyffredin, a thueddiad sydd bellach yn sefydliadol, i gysylltu cydraddoldeb hiliol, cydlyniant cymunedol a materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol ac eithafiaeth â'i gilydd, ac angen cysylltiedig i archwilio materion sy'n ymwneud â chydlyniant mewn ardaloedd, grwpiau a chymunedau sefydlog a newydd.

- Mae'n rhaid hyfforddi gwleidyddion a'r rheiny ar lefel cynghorau lleol ac mewn cyd-destunau eraill o ran darparu gwasanaethau i ddeall cyfarwyddiadau polisi newydd a chyflawni'n unol â hwy er mwyn cael dealltwriaeth well ymysg y cyhoedd a'r math o barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr y mae'r Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2007) yn cyfeirio atynt. Mae nifer o enghreifftiau o arfer da y gellid eu defnyddio fel modelau, yn enwedig yng nghyd-destun ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) ac addysg mewn ysgolion.

- Mae diffyg mawr yn dal i fodoli o ran ymchwil i ddosbarthiadau cymdeithasol fel ffactor sy'n effeithio ar brosesau integreiddio a chydlyniant, ac mae angen i'r pwnc yma fod yn fwy canolog wrth ddatblygu a gweithredu polisi yn y maes hwn.

1 Cyflwyniad

Mae naratifau polisi ynglŷn ag ymfudiad a chydlyniant cymdeithasol, a rhai ynglŷn ag ymfudiad gan fathau arbennig o bobl (pobl dlawd neu bobl nad ydynt yn wyn) fel 'bygythiad' i gydlyniant cymdeithasol, bellach wedi hen ennill eu plwyf fel cred synnwyr-cyffredin (er 2001) mewn trafodaethau ym myd polisïau ac ym myd y cyfryngau yn y DU o leiaf. Ar yr un pryd, mae'r 'amlddiwylliannaeth' sydd wedi trefnu polisïau am y pedwar degawd diwethaf yn cael ei amau'n gynyddol. Yr hyn sy'n ganolog i'r dadleuon hyn yw syniadau cyfredol am 'gymuned' – 'cymuned letyol' neu 'gymuned sy'n derbyn', neu 'gymuned ethnig leiafrifol' – ac agweddau tuag at 'integreiddio' a 'chydlyniant'. Mae'r termau hyn ar y cyfan yn rhai nad ydynt wedi cael eu cwestiynu ac sy'n homogeneiddio.

Aeth yr ymchwil hon ati i archwilio'r gwahaniaethau rhwng gwirioneddau bywyd pob dydd yn Ne Cymru a'r gwirioneddau hynny a ddychmygir gan bolisïau, trwy archwilio ystod o wahanol fathau o ymfudiad i ystod o safleoedd daearyddol sy'n amrywiol o safbwynt cefndiroedd ethnig y bobl ac ystod o 'gymunedau' ethnig gwahanol, gan gynnwys grwpiau dosbarth-canol a dosbarth-gweithiol (a oedd yn bennaf yn wyn). Roeddem am weld, o'r gwaelod i fyny, sut y gallai gwahanol fersiynau o ymfudiad a chydlyniant cymdeithasol edrych.

Yr hyn a wyddom o waith ymchwil

Mae sawl corff o ymchwil bresennol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn, ac mae'n faes ymchwil sy'n ennyn mwy a mwy o ddiddordeb. Mae'r adran hon yn crynhoi gwaith ymchwil allweddol sy'n berthnasol i'n gwaith, gan ganolbwyntio ar lenyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, a chan grybwyll yn fras lenyddiaeth a bennodd gynllun yr ymchwil. Mae trosolygon mwy manwl i'w cael yn y tri adolygiad a gomisiynwyd ar ddechrau rhaglen Mewnfudo a Chynhwysiant Sefydliad Joseph Rowntree (Berkeley *et al.*, 2006; Robinson a Reeve, 2006; Zetter *et al.*, 2006).

Ymchwil i gynhwysiant yng Nghymru

Yng Nghymru mae'r gwaith academaidd sydd i'w gael ar brofiad ymgartrefu ymfudwyr newydd wedi tueddu i fod yn hanesyddol (e.e. Evans, 2003a tt. 14–35) neu, yn fwy diweddar, yn gysylltiedig â dyfodiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid ers y

1980au (Speers, 2001; Robinson, 2003a tt. 160-78, 2003b, tt. 179-201; Lewis, 2005) ac yma mae'r ffocws yn tueddu i fod yn fwy ar sylw yn y cyfryngau i'r materion hyn, ar hiliaeth a pholisïau gwasgaru ac ar agweddau a daliadau cysylltiedig gan y cyhoedd nag ar gynhwysiant neu gydlyniant cymdeithasol.

Mae'r sylfaen tystiolaeth o ran tystiolaeth academaidd empirig ar gyfer deall profiad pobl ethnig leiafrifol yng Nghymru felly'n dal i fod yn gymharol fach (Scourfield a Davies, 2005). Fodd bynnag, mae cyfraniadau diweddar yn cynnwys Threadgold a Clifford (2005) ar brofiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru ar gyfer Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Cymru 2006; Scourfield *et al*. (2002) ar Gymoedd De Cymru; Evans a Wood (1999) ar y profiad o aflonyddu a darparu gwasanaethau ymhlith poblogaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn Nhrelái; a Williams (1997) ar grwpiau ethnig lleiafrifol yn Nhorfaen ac ar blant Cymru (Scourfield a Davies, 2005, t. 86). Cyhoeddodd Hewett *et al*. (2005) adroddiad arwyddocaol ar gyfer Achub y Plant ar blant oedd yn ceisio lloches yng Nghymru ac mae nifer o draethodau ymchwil sydd heb eu cyhoeddi mewn llyfrgelloedd prifysgolion sy'n gwneud cyfraniadau defnyddiol, er enghraifft Ahmed (1998) a Jiang (2006), sy'n ymdrin â'r Somalïaid a mewnfudiad nas dogfennwyd i Dde Cymru gan bobl Tsieineaidd yn y drefn honno.

Ethnigrwydd, dosbarth ac anfantais yng Nghymru

Un o'r heriau mwyaf a oedd yn wynebu gweinyddiaeth ddatganoledig Llywodraeth Cynulliad Cymru pan ddaeth i rym ym 1999 oedd y 'crynodiad anhydrin o anawsterau lleoledig' (Osmond a Mugaseth, 2007, t. 1) yng Nghymoedd De Cymru a arferai fod yn ddiwydiannol ac yng nghyd-destunau ôl-ddiwydiannol Bae Caerdydd a'r ardaloedd amgylchynol. Hefyd, yr ardaloedd yng Nghaerdydd sydd â'r crynodiadau mwyaf o fewnfudwyr yn byw ynddynt yw'r ardaloedd gwaethaf o amddifadedd yng Nghymru, a fesurir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae gan yr ardaloedd hyn hanes cymhleth o ddiwydiannu, dad-ddiwydiannu ac adfywio, ochr yn ochr â nifer o ymfudiadau. Mae cymunedau sefydlog ac ymfudwyr newydd yn rhannu profiadau o anghydraddoldebau mewn perthynas â dosbarth, y rhywiau a hil a etifeddwyd o'r hanes cyffredin hwn.

Mae'r profiad ethnig lleiafrifol yng Nghymru'n eithriadol o amrywiol ac nid yw'n 'cyd-daro ag anfantais a gwahaniaethu mewn ffyrdd cyson' (Williams, 2003a t. 154). (Williamson, 2004). Fodd bynnag, mae digon o dystiolaeth bod ymyleiddio a gwahaniaethu canfyddedig yn dal i atal pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru rhag chwarae rhan lawn yn y gymdeithas sifil (Robinson *et al*., 2003; Williams, 2003a, tt. 155, 2003b). Mae tystiolaeth debyg mewn perthynas ag effeithiau

amddifadedd lluosog, a diwylliannau diffyg gwaith, mewn cymunedau dosbarth-gweithiol sefydlog, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd (Williamson, 2004).

Ethnigrwydd, hiliaeth a thlodi

Mae hanes arwyddocaol o hiliaeth (Evans, 1980, 2003a, 2003b; Jordan, 1991, 2003, 2004; Williams, 1999) nad yw wastad yn cyd-fynd yn rhwydd â'r 'myth o Gymru werinol, gynnes, groesawgar' (Robinson, 2003a, 2003b; Robinson *et al*., 2003; Scourfield a Davies, 2005, t. 86). Mae'r Tsieineaid, er enghraifft, wedi cael eu hystyried o bryd i'w gilydd yn fygythiad i'r farchnad lafur a hwy oedd un o'r targedau yn nherfysgoedd hiliol De Cymru ym 1991 (Evans, 1980, 1988; Cayford, 1991; Holmes, 1988; Owen, 1992, 1993a, 1993b, 1994). Mae gan y Somalïaid hanes hyd yn oed yn hirach o ddioddef gwahaniaethu. Mae Scourfield a Davies (2005), yn eu hastudiaeth o ddisgrifiadau plant o Gymreictod fel rhywbeth sydd naill ai'n radical neu'n gynhwysol, yn cyfeirio at y ffaith bod y trafodaethau sydd ar gael ar bwnc Cymreictod yn bennaf yn rhai gan bobl wyn ac yn ddethol eu natur (gweler hefyd Williams, 1999), ac at y cysylltiad hanesyddol rhwng gwleidyddiaeth genedlaetholgar Gymreig a chymunedau Cymraeg, goblygiadau o safbwynt 'hil' sy'n deillio o 'fethiant iaith a hunaniaeth' pan fo pobl ethnig leiafrifol yn llai tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg, a chyndynrwydd plant lleiafrifol i arddel Cymreictod. Dônt i'r casgliad ein bod yn bell i ffwrdd o'r realiti o gael Cymru gwbl gynhwysol. Mae adroddiad yr un mor ddiweddar ar agweddau'r cyhoedd tuag at fewnfudo a cheisio lloches yng Nghymru'n cyflwyno canlyniadau sydd yr un mor amwys (Lewis, 2005, t. 35). Fodd bynnag, mae hanes rhyngweithio rhwng awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau a chymunedau sefydlog yng Nghymru'n aml yn awgrymu patrymau tebyg iawn o 'wahaniaethu' ac 'ymyleiddio' mewn cyd-destunau dosbarth-gweithiol i'r rheiny a brofir gan ymfudwyr newydd ac y tybir eu bod yn seiliedig ar hil (Osmond a Mugaseth, 2007, t. 6). Yn yr ymchwil hon, bu i fyfyrwyr yn Cathays yng Nghaerdydd, a oedd yn wyn, yn ddu ac yn Asiaidd, a hefyd yn dlawd a heb lawer o gyfalaf cymdeithasol nac economaidd, sôn am brofi triniaeth debyg iawn gan landlordiaid preifat, er enghraifft.

Uwch-amrywiaeth

Mae ein gwaith hefyd wedi cael ei lywio'n ganolog gan waith Vertovec ar 'uwch-amrywiaeth'. Mae e'n dadlau bod uwch-amrywiaeth yn nodwedd ar 'gyflwr cymdeithasol cyfoes Prydain' ac yn deillio o 'gydgyfeiriant ffactorau mewn perthynas â mewnfudo ers y 1990au' (Vertovec, 2006, t. 31). Mae'r rhain yn cynnwys: gwlad

wreiddiol; dull ymfudo; statws cyfreithiol; cyfalaf dynol yr ymfudwr; mynediad at waith; ardal; trawswladoldeb; ac ymatebion gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau a phreswylwyr lleol. Gallant hefyd gynnwys 'cysylltiadau lluosog' (nid ethnigrwydd yn unig) a pherthyn i 'wahanol fydoedd cymdeithasol a chymunedau ar yr un pryd' (Zetter *et al*., 2006, tt. 14, 19). Bydd y pethau hyn yn ddibynnol ar, er enghraifft, gategori mewnfudo ac/neu gysylltiadau trawswladol (Zetter *et al*., 2006, t. 15; Vertovec, 2006, t. 31). Mae Vertovec yn dadlau ymhellach bod polisi'n dal i ganolbwyntio gormod ar hunaniaethau ethnig penodedig ac ar feithrin cysylltiadau â grwpiau presennol o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, tra'i fod yn methu â chysylltu'r broses o integreiddio ymfudwyr newydd â 'chydlyniant cymunedol' na hyd yn oed ddiffinio'r hyn y mae 'cydlyniant cymunedol' yn ei olygu na sut y gellir ei gyflawni (2006, t. 30).

Cydlyniant cymdeithasol a datblygu polisi yng Nghymru

Mae'r tîm cydlyniant cymunedol yn y Cynulliad Cenedlaethol (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) yn gweithio ar bolisi cydlyniant i Gymru. Bydd eu gwaith yn adlewyrchu dylanwad yr adroddiad diweddar gan y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2007), sy'n gwahaniaethu mewn ffordd newydd a defnyddiol rhwng y broses o gydlyniant cymdeithasol a'r broses o integreiddio neu gynhwysiant:

> … cydlyniant yn bennaf yw'r broses y mae'n rhaid iddi ddigwydd ym mhob cymuned er mwyn sicrhau bod gwahanol grwpiau o bobl yn cyd-dynnu'n dda; tra bod integreiddio'n bennaf yn disgrifio proses sy'n sicrhau bod preswylwyr newydd a phreswylwyr presennol yn ymaddasu at ei gilydd. (Y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant, 2007, t. 38)

Yn y diffiniad hwn mae'r Comisiwn yn cydnabod bod a wnelo cydlyniant cymdeithasol nid yn unig â hil, ethnigrwydd a ffydd, neu ddiogelwch, ond ei fod yn cynnwys pob maes yn y gymdeithas, ac nad oes a wnelo integreiddio â chymhathu, ond ei fod yn cynnwys proses ddwyffordd. Ymddengys hefyd ei fod yn cydnabod bod bron pob lle a chymdogaeth erbyn hyn yn wynebu her yn sgîl newidiadau demograffig a chymdeithasol ac yn cael eu nodweddu gan wahanol batrymau o bobl yn symud i mewn ac allan ohonynt. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu ein bod yn colli'r ystyr hŷn sy'n ymwneud ag integreiddio economaidd, a oedd yn allweddol i nifer o ddiffiniadau cynharach o'r term hwn lle roedd 'dangosyddion integreiddio' yn cynnwys mynediad at amryw wasanaethau costus a oedd yn cael eu darparu: er enghraifft, dysgu Saesneg, cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysg, tai, cyflogaeth, diogelwch cymunedol a phlismona, a gofal iechyd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid (LlCC, 2006), ar y cyfan wedi dewis defnyddio'r term 'cynhwysiant' yn hytrach nag 'integreiddio', ac mae wedi gwrthod ystyried 'cynhwysiant cymdeithasol' fel problem y mae a wnelo ag ymfudwyr newydd yn unig (ffoaduriaid yn yr achos hwn), gan ddewis yn hytrach, fel y Comisiwn uchod, ystyried y broses hirdymor o integreiddio cymdeithasol ac economaidd fel proses ddwyffordd, ond gan fynd ymhellach trwy gydnabod ystod o wahanol fathau o gyfraniad a fyddai'n nodweddu cynhwysiant:

> Mae cynnwys ffoaduriaid yn broses ddwyffordd ddynamig, hirdymor, sy'n gosod gofynion ar unigolion sy'n ffoaduriaid a chymunedau ffoaduriaid fel ei gilydd ac ar y gymdeithas ehangach. Yr amcan wrth gynnwys ffoaduriaid yw sefydlu perthnasau cilyddol a chyfrifol rhwng ffoaduriaid a'u cymunedau, y gymdeithas sifil a'r Llywodraeth. Mae cynnwys ffoaduriaid yn digwydd pan fo ffoadur yn dod i fod yn aelod cwbl weithredol o'r gymdeithas, gan gyfranogi yn a chyfrannu at fywyd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, sifil a gwleidyddol y wlad. (LlCC, 2006, t. 4)

Ymddengys ei bod hefyd wedi osgoi'r dybiaeth y byddai unrhyw grŵp penodol yn cael ei ddisgrifio'n awtomatig fel y gymuned 'letyol':

> Gelwir y cymunedau y mae ffoaduriaid yn ymgartrefu ynddynt yn gymunedau sy'n derbyn. Gall y term hwn gyfeirio at ystod o wahanol gymunedau – y gymuned leol agosaf, cymuned fuddiant neu'r gymdeithas ehangach. Mae cynnwys ffoaduriaid yn broses ddwyffordd ac mae'n bwysig bod y gymuned sy'n derbyn, yn ogystal â chymunedau ffoaduriaid, yn chwarae rhan weithredol o safbwynt cyflawni hyn. (LlCC, 2006, t. 5)

Mae'n debygol y bydd polisi newydd ar gydlyniant cymunedol yng Nghymru'n mynd i'r afael â holl gymhlethdodau'r gymdeithas gyfoes yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd mewn cyfarwyddiadau polisi ers 2005, mae'n dal yn werth cofio am yr amryw gyd-destunau o ran polisïau ac ariannu y caiff y materion hyn eu trafod ynddynt yng Nghymru. Mae'r dylanwadau polisi'n gymhleth a gall yr ieithoedd y bydd pobl yn eu defnyddio er mwyn egluro'r rhain amrywio'n aruthrol gan ddibynnu â pha bolisi (Ewropeaidd, y DU, Cymru, cyngor lleol, newydd, hen) y mae pobl yn gyfarwydd neu ba un y maent yn ceisio'i weithredu, ac yn wir a ydynt wedi cael hyfforddiant ai peidio. Mae byd polisïau bythol newidiol y DU hefyd yn fater sydd o bwys.

Y cyd-destun polisi: datganoli

Wrth gwrs, caiff y broses o lunio a gweithredu polisïau yng Nghymru ei chymhlethu gan y nifer o gyd-destunau polisi y caiff penderfyniadau eu gwneud a'u gweithredu ynddynt. Mae strategaethau a mentrau yng Nghymru sy'n ymwneud â mewnfudo a cheisio lloches yn gweithredu yng nghyd-destun polisïau a deddfwriaeth ar lefel ryngwladol, ar lefel Ewropeaidd ac ar lefel y DU yn ogystal ag agenda strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru (www.wales.gov.uk/themesbettercountry/index.htm). Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau datganoledig i greu rheolau a rheoliadau, pennu safonau a chyhoeddi canllawiau mewn meysydd megis iechyd ac addysg o fewn fframwaith deddfwriaeth sylfaenol a luniwyd gan Senedd y DU ond nid oes ganddo unrhyw bwerau na chyfrifoldebau datganoledig mewn perthynas â mewnfudo a cheisio lloches. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau a chyfrifoldebau i roi cymorth i ymfudwyr sydd wedi cael caniatâd i aros yn y wlad mewn perthynas ag ystod lawn o wasanaethau gan gynnwys diwylliant, addysg a hyfforddiant, yr amgylchedd, iechyd a gwasanaethau iechyd, tai a'r Gymraeg (ond nid y gwasanaethau hyn yn unig).

Nodau'r ymchwil

Roedd yr ymchwil yr adroddir arni yma wedi'i bwriadu i fod yn ddisgrifiadol ac yn heriol. Prif nodau'r ymchwil oedd:

1. Archwilio ymatebion i ymfudiad newydd gan gymunedau sy'n derbyn ac ardaloedd daearyddol sefydlog yn Ne Cymru, yn hanesyddol a thros y deng mlynedd ddiwethaf.

2. Archwilio dealltwriaethau am dermau allweddol ym maes polisi (e.e. cymuned, integreiddio, cynhwysiant, cydlyniant cymunedol) ar nifer o lefelau: gweinyddol, arweinyddiaeth gymunedol ac ar lawr gwlad.

3. Archwilio'r ffordd y mae ymfudwyr newydd a chymunedau sefydlog yn profi dangosyddion pwysig integreiddio neu gynhwysiant yn eu bywyd pob dydd: dysgu Saesneg, cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysg, tai, cyflogaeth, gofal iechyd, plismona a diogelwch cymunedol.

4. Darparu dealltwriaethau, trwy astudiaethau achos seiliedig ar dystiolaeth, o ran sut y gall cydlyniant cymunedol ac integreiddio/cynhwysiant edrych, ac archwilio materion sy'n ategu, ac sy'n atal, cydlyniant cymunedol.

Fe gynllunion ni'r ymchwil er mwyn archwilio gwahanol lefelau o ymgysylltu â syniadau a thermau allweddol ym maes polisi, dealltwriaeth am y rhain a gweithgarwch mewn perthynas â hwy (gan dynnu ar waith Baumann, 1998). Felly fe ddewisom ni gyfweld â 'gweinyddwyr' sy'n llunio ac yn gweithredu polisïau, arweinwyr cymunedol y mae angen iddynt 'siarad yn iaith polisïau' er mwyn gwneud cais am arian a rhyngweithio â 'gweinyddwyr', ac aelodau o'r cymunedau eu hunain oherwydd yr hyn y gallent hwy ei ddweud wrthym am ddealltwriaethau pob dydd ar lawr gwlad. Yn ein cyfweliadau a'n grwpiau ffocws, gofynasom i bobl am eu dealltwriaethau am dermau allweddol ym maes polisïau a'u profiad o'r gwasanaethau a'r cyd-destunau hynny lle mae integreiddio/cynhwysiant mewn perygl. Aethom ati hefyd i ymchwilio'n fanwl i'r materion hyn mewn cyfarfodydd arsylwi ar gyfranogwyr.

Roedd yn bwysig gennym ofyn y cwestiwn: Beth mae *cydlyniant cymunedol*, fel dehongliad polisi a chydsyniad a ddefnyddir bob dydd ar sawl lefel, yn ei wneud? Pa eiriau eraill y daw i fod wedi'i gydleoli â hwy neu y daw i fod ynghlwm wrthynt *(e.e. cymuned, hil, integreiddio, eithrio cymdeithasol, amddifadedd lluosog, Mwslim, terfysgaeth)*, a pha effeithiau y mae hyn yn eu cael? Sut y mae dogfennau polisi ar gydlyniant cymunedol yn arwain at neu'n effeithio ar waith sydd wedi'i fwriadu i greu cydlyniant cymunedol? Sut y mae'r mathau hyn o waith yn effeithio ar grwpiau lleiafrifol a sefydlog? Pa fathau o drefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth neu raniadau y mae *cydlyniant cymunedol*, fel dehongliad polisi, yn eu hysgogi neu'n eu creu? Sut y mae *cydlyniant* yn edrych pan ddeuwn o hyd iddo? Pam? Pan nad yw'n digwydd, pam? Ac ym mha ffyrdd y mae'n ddibynnol ar neu'n gysylltiedig â thermau neu wirioneddau megis *integreiddio* neu *gynhwysiant*?

Rydym wedi defnyddio termau allweddol trwy'r adroddiad hwn (yn ogystal ag ymchwilio iddynt) a cheir manylion y diffiniadau a ffefrir gennym yn Atodiad 1.

Y gwaith maes

Fe ddechreuom ni ein 'gwaith maes' ym mis Ionawr 2005 gan ei gwblhau ym mis Mehefin 2006. Fe gyfunom ni waith arsylwi ar gyfranogwyr, ynghyd â chyfweliadau gydag arweinwyr cymunedol, â grwpiau ffocws gydag aelodau'r cymunedau i greu 'disgrifiadau trwchus' o bob safle. Gwnaed y rhain gan dîm o wyth ymchwilydd, a oedd yn gweithio i ddechrau trwy arweinwyr cymunedol. Roedd yr ymchwilwyr yn siarad tair iaith gymunedol. Bu i ni hefyd gynnwys menywod ychwanegol o gefndir ethnig lleiafrifol a rhai dynion yn yr ymchwil fel cyfranogwyr i gyfieithu datganiadau ar foeseg a holiaduron, i helpu i lywyddu grwpiau ffocws, gan ofyn cwestiynau a chyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen, ac yn ddiweddarach i helpu i gyfieithu a

thrawsgrifio trafodaethau'r grwpiau ffocws. Rhoddodd myfyrwyr PhD ym Mhrifysgol Caerdydd sydd o wahanol gefndiroedd ethnig a chenedlaethol gymorth hefyd i drawsgrifio cyfweliadau a thrafodaethau grwpiau ffocws.

Cafodd trawsgrifiadau eu gwirio o safbwynt cywirdeb gan yr ymchwilydd a gynhaliodd y cyfweliad neu a lywyddodd y grŵp ffocws. Roeddem ni i gyd yn rhan o'r rownd gyntaf o gyfweliadau gyda gweinyddwyr. Fe gyfarfuom yn rheolaidd trwy gydol cyfnod y prosiect i drafod dulliau damcaniaethol a materion ymarferol a oedd yn ymwneud â methodoleg a dadansoddi, ac i drafod a myfyrio ar y canlyniadau oedd yn dod i'r amlwg. Fe 'ddarllenom' ni ein 'data' o'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws fel 'trafodaethau' a gyflwynwyd yn gyd-destunol a thystiolaeth o natur batrymog gwirioneddau cymdeithasol sy'n rhan o fywydau pobl (Barbour a Kitzinger, 2001).

Wrth i ni weithio ar yr ymchwil hon, roeddem hefyd yn cynnal ymchwil ar ffurf grwpiau ffocws gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid ledled Cymru ar gyfer Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fe ofynasom ni i'r grwpiau ffocws a fyddent yn cytuno i gyfranogi yn y ddau brosiect ac fe drefnom eu bod yn llofnodi'r ddwy ffurflen foeseg. Weithiau yn yr adroddiad hwn, rydym felly wedi tynnu ar y data o'r ymchwil hon i gynhwysiant er mwyn ategu ein tystiolaeth o'r prosiect hwn (Threadgold a Clifford, 2005; Threadgold a Court, 2005).

Y cymunedau

Mae gan Gymru boblogaeth o ychydig llai na 3 miliwn (o'i gymharu â 58 miliwn yn yng Nghaerdydd, dinas y DU ar y cyfan) ac mae'n wlad dlotach na Lloegr a'r Alban. Mae oddeutu 20 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae cryn ddadlau ynghylch pwysigrwydd hyn i hunaniaeth Gymreig (Scourfield a Davies, 2005, t. 86), yn enwedig yng Nghaerdydd, dinas y mae pobl ym Merthyr Tudful yn ei disgrifio yn ein data fel un sydd â 'Chymry Seisnig' yn byw ynddi. Dengys Cyfrifiad 2001 fod 97.9 y cant o boblogaeth Cymru'n wyn, ond bod gan Gaerdydd boblogaeth leiafrifol nad yw'n wyn o 8.4 y cant a 7.52 y cant arall wedi'u geni y tu allan i'r DU (mae ffigyrau diweddarach gan Gyngor Caerdydd, yn seiliedig ar ddata o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yn amcangyfrif fod 30,500 o bobl, neu 10 y cant o boblogaeth Caerdydd, wedi'u geni y tu allan i'r DU, ac mae ffynonellau eraill, megis gwybodaeth am gofrestru gyda meddyg teulu, yn awgrymu bod y ffigwr yn uwch byth).

Cynhaliwyd ein hymchwil mewn wyth 'cymuned' neu ardal ddaearyddol yng Nghaerdydd ac ym Merthyr Tudful, yn 2005/06. Cafodd y cymunedau a'r ardaloedd eu dewis er mwyn rhoi inni rywfaint o ddealltwriaeth am ystod o brofiadau

gwahanol iawn o ymfudiad ac ymgartrefu, ac er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys safbwyntiau'r cymunedau sefydlog a phobl a oedd newydd gyrraedd. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- grŵp o 'weinyddwyr' a oedd yn gweithio ym myd polisïau, gweithredu polisïau, neu ym myd cyflenwi gwasanaethau ym meysydd allweddol integreiddio/ cynhwysiant;
- y gymuned Somalïaidd;
- y gymuned Tsieineaidd;
- y clwstwr o gymunedau sy'n siarad Arabeg (y bobl Yemenïaidd, Iracaidd a Swdaneaidd yn bennaf);
- ardal Cathays, sydd wedi'i lleoli o amgylch Prifysgol Caerdydd;
- ardal y Sblot, Tremorfa, Adamsdown a'r Rhath (STAR) yng Nghaerdydd;
- Llandaf (maestref ddosbarth-canol i'r gogledd-orllewin o'r ddinas);
- Merthyr Tudful (tref yn y Cymoedd i'r gogledd-orllewin o'r ddinas).

Mae mwy o fanylion am y cymunedau i'w cael yn Atodiad 2.

Y cyfweliadau

Fe gynhaliom ni gyfweliadau unigol a chyfweliadau gyda pharau, a grwpiau ffocws ledled yr wyth cymuned a safle y dewisom ni ymchwilio iddynt. Fe rwystrodd rhychwant a natur y prosiect ni rhag cofnodi rhyw ac ethnigrwydd yr holl gyfranogwyr, yn enwedig y rheiny yn y grwpiau ffocws, a chafodd nifer fechan o unigolion eu cyfweld mewn mwy nag un cymhwyster ac felly mae'n bosib eu bod yn ymddangos ddwywaith yn ein ffigyrau. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r cymhlethdod oedd yn gysylltiedig â chynnal cyfweliadau mewn cymunedau, grwpiau ethnig a chymunedau â therfynau daearyddol a chyfweld â phobl a chanddynt gysylltiad proffesiynol ag ymfudiad; mae'n bosib wrth gwrs i rywun gael ei gynrychioli ym mhob un o'r tri. Fodd bynnag, mae'r trosolwg yn Nhabl 1 a'r disgrifiadau byr yn Atodiad 2 yn darparu rhywfaint o fanylion am hyd a lled ein gwaith.

Tabl 1 Nifer y cyfweliadau ym mhob cymuned neu grŵp

Cymuned neu grŵp	Grwpiau ffocws	Cyfweliadau pâr	Cyfweliadau unigol
Gweinyddwyr/arweinwyr ffoaduriaid a BME a gweithwyr proffesiynol	3	6	21
Cyfryngau	0	0	4
Somalïaidd	14	3	12
Tsieineaidd	11	0	16
Grwpiau sy'n siarad Arabeg	10	1	30
Llandaf	2	1	4
Cathays	16	3	7
STAR	7	0	11
Merthyr Tudful	18	1	11

Mae mwy o wybodaeth am y cyfweliadau i'w chael yn Atodiad 2.

Trefn yr adroddiad

Yn wreiddiol fe ysgrifennodd pob aelod o'r tîm ymchwil y canfyddiadau yn yr ardaloedd yr oeddent wedi gweithio ynddynt. Wedyn cafodd yr adroddiadau unigol hyn eu hailwampio i greu adroddiad terfynol hir wedi'i drefnu yn ôl y cymunedau a'r ardaloedd daearyddol yr oeddem wedi gweithio ynddynt. Bydd yr adroddiadau manwl hyn ar gael fel ffeiliau pdf ar wefan Ysgol Caerdydd ar gyfer Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol unwaith y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi. Wedyn cafodd y drafft cyntaf hir ei ddarllen gan ymgynghorwyr ar ran Sefydliad Joseph Rowntree ac aelodau o'r cymunedau er mwyn iddynt roi adborth. Daeth pedair thema i'r fei o'r broses hon fel rhai oedd yn allweddol i'r canfyddiadau ar y cyfan.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i drefnu yn ôl tair o'r themâu: *ystyron cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio a fersiynau pob-dydd ohonynt; dosbarth cymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol; a'r ffactorau mewnol ac allanol sy'n cadw pobl yn eu cymunedau'u hunain*. Mae'r bedwaredd thema, sef *tensiynau a materion sy'n bodoli rhwng cenedlaethau* yn cael sylw'n fras yn yr adran ar gydlyniant. Mae'r casgliad yn amlygu goblygiadau'r ymchwil a'r canfyddiadau i bolisïau.

2 Archwilio cydlyniant cymunedol

Yn y bennod hon rydym yn archwilio'r gwahanol safbwyntiau am gydlyniant sydd gan wneuthurwyr polisïau, y rheiny sy'n gweithredu polisïau fel darparwyr gwasanaethau, ac aelodau o wahanol gymunedau 'ar lawr gwlad'. Mae diffiniadau o gydlyniant mewn polisïau wedi newid yn gyflym dros y deng mlynedd ddiwethaf fwy neu lai, hyd yn oed yn ystod cwrs yr ymchwil hon. Roedd ystyried i ba raddau y caiff syniadau mewn polisïau eu hadlewyrchu mewn realiti felly'n allweddol i'r astudiaeth hon ac rydym wedi archwilio rhai o'r gwahanol brofiadau o gymuned a chydlyniant sydd i'w cael yn Ne Cymru a rhai o'r gwirioneddau sy'n ymwneud â bywydau cyfochrog ac unigedd mewn grwpiau ethnig lleiafrifol a chymunedau sefydlog. Yr hyn a gawsom oedd cryn dipyn o heterogenedd, gyda safbwyntiau gwahanol iawn am, a phrofiadau gwahanol iawn o gymuned/cydlyniant ymhlith gwahanol grwpiau; ond cawsom hefyd safbwyntiau a phrofiadau cyffredin ar draws a rhwng y grwpiau a astudiwyd gennym. Mae'n eglur yn yr ymchwil hon fod dealltwriaethau 'synnwyr-cyffredin' neu ddealltwriaethau pob-dydd am gysyniadau polisi megis cydlyniant yn aml ymhell y tu ôl i'r polisi, ond mae'r syniadau gwahanol iawn am gydlyniant yr ydym ni wedi'u canfod yn cynnig dealltwriaeth am y ffordd y gellid trefnu polisi ac arfer yn y maes hwn.

Dealltwriaethau gwneuthurwyr polisïau

> Fel Llywodraeth mae gennym rôl o ran sicrhau bod yr amrywiaeth sy'n un o gryfderau gwirioneddol y wlad hon yn cael ei reoli'n llwyddiannus ac nad yw'n arwain at broblemau o ran y ffyrdd y mae pobl yn byw ac yn cyd-dynnu.
>
> Mae'r mwyafrif llethol o bobl yn y wlad hon yn byw'n llwyddiannus ochr yn ochr ond ni allwn fforddio cymryd hyn yn ganiataol. Mae'n rhaid i ni ddal i fod o gwmpas ein pethau a pharhau i gymryd y camau i fynd i'r afael yn uniongyrchol â materion fel ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r materion sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y boblogaeth a globaleiddio.
>
> (Blears, datganiad i'r wasg, 4 Chwefror 2008: www.communities.gov.uk/news/corporate/682056)

Mae'r dyfyniad hwn ymhlith y datganiadau diweddaraf gan Lywodraeth y DU ar yr hyn y mae cydlyniant yn ei olygu erbyn hyn, neu o leiaf i'r gwleidydd hwn. Nid yw'r ystyr yma'n cyd-fynd yn llwyr â'r un a ddefnyddir gan y Comisiwn ei hun (gweler y

Cyflwyniad) am ei fod unwaith eto'n gymathiadol (gweler Zetter *et al.*, 2006), ac yn ailadrodd fersiynau cynharach o'r hyn sydd wedi cael ei alw'n 'hiliaeth elitaidd' (Blommaert a Verschueren, 1998) am fod 'amrywiaeth' yn cael ei ystyried yn 'broblem' y dylid ei 'rheoli' yn hytrach nag yn adnodd i'w fwynhau. Mae cysylltu cydlyniant â chymuned hefyd yn goblygu cysylltiad cynharach â materion sy'n ymwneud â diogelwch a'r cymunedau 'peryglus' yn Adroddiad Cantle (2001) – sy'n byw bywydau cyfochrog ac yn peidio â chymysgu â chymunedau 'lletyol'. Pan ddechreuasom ni ar y prosiect hwn 'cydlyniant cymdeithasol' oedd yr ymadrodd cyfredol, a oedd ar y pryd yn cyfeirio at yr angen canfyddedig hwn i gymunedau ryngweithio â'i gilydd. Y term 'cynhwysiant', fel y'i diffiniwyd gennym uchod, oedd y gair a ffafrid yng Nghymru. Fel yr ydym wedi nodi uchod, mae cyflymder y newidiadau mewn polisïau, ynghyd â'r nifer o gyfundrefnau polisi a gaiff eu trin a'u trafod mewn cyd-destunau datganoledig fel Cymru, yn golygu mai prin y caiff ieithoedd polisïau eu derbyn yn llwyr na'u deall yn ymarferol. Dim ond y rheiny sy'n llunio polisïau, neu y mae arnynt angen gwneud cais am arian yn seiliedig ar dybiaethau mewn polisïau, sydd wir yn dod i wybod beth mae termau mewn polisïau ac agendâu polisi'n ei olygu, ac i fod i'w gyflawni, pan fo strategaethau'n cael eu troi'n weithredoedd. Ac er bod gweinidogion a chomisiynau'r Llywodraeth yn symud yn eu blaenau, mae dealltwriaethau am dermau mewn polisïau a'r modd y cânt eu defnyddio'n aml ymhell ar ei hôl hi (Ahmed *et al.*, 2006).

Roedd y term 'cydlyniant cymdeithasol' yn cael ei gydnabod gan y rhan fwyaf o'r 'gweinyddwyr' y cyfwelwyd â hwy er eu bod ar y cyfan yn ei ystyried yn ymadrodd y mae pobl yn dadlau yn ei gylch ac sy'n anodd i'w ddiffinio. Roedd rhai'n casglu ei fod yn golygu undod neu agosrwydd mewn cymdeithas; roedd eraill a oedd o bosib yn gweithio'n agosach at flaen y gad ym maes datblygu polisïau'n dadlau ei fod yn syniad a grëwyd gan lywodraethau ar sail tystiolaeth ddiffygiol yn hytrach nag yn ddisgrifiad o fywyd go iawn. Roedd gweinyddwyr hefyd yn amlwg yn deall y gwahaniaeth gwirioneddol iawn rhwng polisi a realiti. Nid yw iaith newydd polisïau yng Nghymru wedi cyrraedd y cymunedau ar lawr gwlad eto, ac nid yw'r berthynas ddwyffordd a ddychmygir rhwng cymdeithas sifil, y Llywodraeth a chymunedau a'u haelodau'n realiti eto.

> … Mi wn fod llawer o gymunedau wedi cael llwyddiant o ran nawdd ariannol ac maent yn wir wedi gwneud gwaith da. Ond mi fyddwn i'n dweud mai fy nheimlad greddfol i yw eu bod yn dal i deimlo bod pellter rhyngddynt a'r broses o bŵer – maent yn dal i deimlo'n ddifreintiedig.

Yng nghyd-destun datganoledig Cymru, mae'r term 'cynhwysiant' wedi cael ei gadw ar lefel polisïau (Threadgold a Court, 2005), ac ymddengys fod 'cydlyniant' yn cael ei ddeall o leiaf gan y rheiny sy'n ysgrifennu polisïau fel term sy'n cwmpasu materion y

deallir fel arfer eu bod yn gysylltiedig â'r term 'integreiddio' yn yr ystyr economaidd, yn ogystal â'r materion sy'n ymwneud â rhwydweithiau, cyfleoedd bywyd a pherthyn yn yr ystyr ysgafnach. Yn wir, mewn rhai cyd-destunau polisi yng Nghymru, mae hyd yn oed yn cwmpasu dealltwriaeth eglur am y gwahaniaeth rhwng y dosbarthiadau a'r angen i 'gynnwys' y bobl sydd 'wedi'u hymleiddio' yn ogystal â mewnfudwyr:

> Ond mae a wnelo cydlyniant â mwy na chytgord ac rwy'n credu bod yr agwedd arno sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn allweddol. Arferem siarad am ddosbarth a rhaniadau rhwng dosbarthiadau, gwrthdaro rhwng dosbarthiadau, ond mae'r termau hyn wedi mynd allan o ffasiwn. Ond maent, mewn nifer o ffyrdd, yn wirioneddol greiddiol i bwnc cydlyniant cymdeithasol. Mae cwestiwn gwirioneddol i'w gael, sef a allwch ei gyflawni'n realistig tra bod rhaniadau economaidd-gymdeithasol eang iawn yn bodoli rhwng grwpiau o bobl. Mae cydlyniant cymdeithasol fel y mae'r Cynulliad yn mynd i'r afael ag ef yn tueddu i olygu bod y grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio'n fwy yn y gymdeithas yn mynd i gael eu tynnu i mewn i'r gymdeithas mewn ffordd fwy cyflawn ac yn mynd i gael cyfle mwy teg, i'w roi'n syml. Felly, ydw, rwy'n credu bod gwahaniaeth ond dylai cynhwysiant cymdeithasol fod yn fodd i helpu i gyflawni cydlyniant cymdeithasol. Dyna fy marn bersonol i ar y mater.

Roedd y mwyafrif o'r bobl y cyfwelwyd â hwy, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn ymwybodol o'r term 'cydlyniant cymdeithasol' a'r rheiny a oedd yn ei herio, i'w gweld yn gweithio'n gyson tuag at y mathau o ddealltwriaethau trawsddiwylliannol, cyfarfyddiadau lleol ac ymgysylltiadau hirdymor y gallem fod am eu disgrifio fel enghreifftiau o'r ffordd y mae cydlyniant cymdeithasol neu gydlyniant cymunedol erbyn hyn yn edrych mewn gwirionedd pan ein bod yn dod wyneb yn wyneb â'r syniad. Mae'r rheiny sy'n gweithio yng nghyd-destun datganoledig Cymru i ddau, neu dri o feistri polisi ym myd llywodraeth yn aml yn ymddangos yn ymwybodol iawn o'r tlodi a'r angen sy'n uno cymunedau yn ogystal ag o'r hiliaeth sy'n dal i'w rhannu. Yn hyn o beth mae eu hagweddau'n adlewyrchu'r awydd am 'dryloywder a thegwch' yn ymateb diweddar Blears (datganiad i'r wasg, 4 Chwefror 2008). Maent hefyd yn hynod wrthwynebol i bolisïau sy'n achosi niwed ac yn ymwybodol o'r pethau na all polisïau eu cyflawni, yn ogystal â'r pethau y gallant eu cyflawni. Yng nghyd-destun llywodraeth yng Nghymru yn 2007/08 mae'r ffocws, fel a ddadleuir uchod, ar 'gydlyniant cymunedol' a phrin bod y term 'cydlyniant cymdeithasol' yn cael ei ddefnyddio bellach.

Dealltwriaethau ar lawr gwlad

Pan ofynasom ni yn y grwpiau ffocws ynglŷn ag ystyron y termau 'integreiddio' a 'chydlyniant cymdeithasol' cawsom eu bod yn cael eu cyfuno'n gyson ymhlith grwpiau gwyn yn ein data i olygu 'cymhathu': er enghraifft, bod â ffrindiau gwyn, siarad ac edrych fel 'ni', peidio â gwneud i ni deimlo'n anghyfforddus am eu bod yn wahanol, gwneud yr hyn yr ydym ni'n ei wneud, trin menywod fel yr ydym ni'n eu trin, peidio â gwisgo'r fêl am ei bod yn gwneud i ni deimlo'n anghyfforddus, neu gael eu haddysgu fel ni i ymgymryd â rolau proffesiynol a rolau arwain fel ni. Mae'r dyfyniadau canlynol, gan breswylwyr ym Merthyr Tudful a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws, yn enghreifftio'r mathau o safbwyntiau a fynegwyd:

Ymatebydd 1: Y broblem gyda nhw yw nad ydynt yn dymuno integreiddio – gallwch siarad gyda nhw ar y stryd a byddant yn eich anwybyddu'n llwyr, os dywedwch bore da nid ydynt yn dweud unrhyw beth – ac nid dyna'r ydym ni wedi arfer ag ef. Rydym yn ceisio'u derbyn – a dywedir wrthym fod rhaid i ni wneud hynny – ac nid ydynt am wybod – maen nhw'n uffernol o anwybodus!

Mae gen i lawer o ffrindiau sy'n ddynion dangos drysau. Maent byth a beunydd yn gorfod ymyrryd. Maent yn eu cael yn amharchus iawn o fenywod. Maent yn cyffwrdd ynddynt mewn ffordd anweddus ac ati. Maent bellach yn eu rhybuddio ar y ffordd i mewn. Un cyfle y maent yn ei roi iddynt. Does ganddynt ddim parch at fenywod ... nid bod gan y Cymry rhyw lawer ar ôl wyth peint!

Ymatebydd 2: Ie, dyw pethau ddim fel yr oeddent. Wnawn nhw ddim siarad gyda chi – dydyn nhw ddim hyd yn oed yn siarad ein hiaith! Sut ydym ni i fod i gyd-dynnu â nhw?

A chan grŵp yn Llandaf:

Peth arall sydd yn fy mhoeni yw ... eu gwragedd. Er eu bod yma ers cyhyd, dydyn nhw'n dal ddim yn integreiddio'r menywod, dydyn nhw ddim yn integreiddio o gwbl. Maent yn eu hanfon allan i siopa ac maent yn mynd â phlentyn gyda nhw a bydd y plentyn, sy'n 10, 12 mlwydd oed yn egluro beth sydd ei angen a beth bynnag.

Dywedodd cyfranogwr arall wrthym am ymateb ei merch i fenywod Mwslimaidd sy'n defnyddio'r pwll nofio lleol:

> ... dywedodd, 'Dydw i ddim yn gwybod a alla i fynd mwyach', mae wedi dod i fod mor annymunol am fod y menywod Mwslimaidd yno ar noson i fenywod – ac rwy'n golygu menywod – *[sydd]* wedi colli'u siâp, wyddoch chi, y menywod hŷn, efallai y byddant hwy'n mynd. Ond mae'r menywod hyn yn nofio mewn – wedi'u gorchuddio wyddoch chi – ac fe ddywedodd ei bod fel ceisio nofio trwy frethyn – a dyw hi ddim yn hoffi hynny. Dyw hi ddim yn hoffi'r syniad o – oherwydd pan fyddwch yn mynd i mewn i'r dŵr rydych yn diosg eich dillad ac yn gwisgo'ch gwisg nofio.

Mewn rhai cyfweliadau gyda phreswylwyr roedd integreiddio fel pe bai'n golygu un o ddau beth: dod i fod fel ni a/neu gymysgedd hybrid lle caiff gwahaniaeth gwirioneddol ei addasu, fel petai, trwy gymysgu, trwy gael ei gymhathu a'i wneud yn ddiogel:

> Pam fod yr Iddewon wedi cadw'u traddodiadau ond wedi integreiddio'n well na'r lleiafrifoedd eraill? Wn i ddim pam.

> Ond fe aethon nhw *[plant fy mab]* i ysgol gynradd Gymraeg, sydd i lawr ar bwys Stadiwm Heol Lecwydd. Ac mae'n anhygoel. Mae'n ysgol gynradd Gymraeg ond os sefwch chi tu allan, mae'n rhyfeddol. Mae'r cymysgedd ethnig yno'n anhygoel am eu bod yn dod o Grangetown, o'r Bae ac maent yn blant o bob lliw a llun. Ac mae'n hyfryd, yn dda i'w weld.

Ychydig iawn o bobl mewn cymunedau neu ardaloedd dosbarth-gweithiol neu ddosbarth-canol gwyn a soniodd am 'integreiddio' fel rhywbeth y mae a wnelo â chyflawni potensial yr unigolyn neu roi iddo neu iddi fynediad at gyfleoedd economaidd neu gymdeithasol cyfartal. Cawsom hefyd mai perthynas bell oedd rhwng dealltwriaethau synnwyr-cyffredin am dermau megis 'ceisiwr lloches', 'ffoadur', 'gweithiwr mudol', 'lletyol', 'cymuned', 'integreiddio', 'cynhwysiant' neu 'gydlyniant cymdeithasol' a dadleuon cyfredol ym maes polisïau. Yn wir, roedd nifer o grwpiau'n tueddu i ystyried bod yr holl newydd-ddyfodiaid yn 'geiswyr lloches anghyfreithlon'. Roedd yn ymddangos mai hwn oedd yr unig gategori o fewnfudwyr a oedd yn cael ei gydnabod ac nid oedd byth yn seiliedig ar unrhyw brofiad o bobl o'r fath ond yn deillio o bortreadau yn y cyfryngau.

Gwahanol safbwyntiau am gymuned

Daethom ar draws nifer o wahanol fathau o gymuned yn yr astudiaeth hon: rhai'n seiliedig ar ddaearyddiaeth, rhai ar fuddiannau neu brofiadau cyffredin ac eraill ar ethnigrwydd ac/neu grefydd. Roedd rhai'n drawswladol neu'n wasgaredig, a rhoddir enghreifftiau o'r rhain isod. Ychydig iawn o dystiolaeth a gawsom mewn gwirionedd o fathau traddodiadol o gymuned heblaw ym Merthyr ac yn Llandaf (gweler yr astudiaeth achos ar ddiwedd y bennod hon), ac mewn hanesion a adroddwyd wrthym gan bobl wyn yng Nghaerdydd am y ffordd yr arferai 'cymuned' fod – roeddent yn cofio partïon yn y stryd a phawb yn adnabod pawb arall, yn enwedig yn y Cymoedd ble cawsant eu magu. Mae'r mathau hyn o gymuned yn dal i fodoli ymhlith rhai grwpiau ethnig lleiafrifol (e.e. y Somalïaid a'r Yemenïaid yn Butetown) ond mewn nifer o rannau o Gaerdydd mae pobl yn byw ochr yn ochr heb unrhyw gyswllt agos â chymdogion.

Roedd yr holl ardaloedd a'r cymunedau y bu i ni ymchwilio iddynt fel pe bai ganddynt gysylltiadau trawswladol neu wasgaredig neu fel pe baent wedi'u cysylltu â rhannau eraill o'r DU trwy deulu a chysylltiadau eraill.

Cysylltiadau trawswladol

Cawsom dystiolaeth yn nifer o'r grwpiau o gysylltiadau trawswladol a oedd yn cael eu cynnal trwy'r rhyngrwyd neu deledu lloeren, a thrwy daliadau a oedd yn cael eu hanfon at deulu mewn gwledydd eraill. Mae'r cysylltiadau hyn yn creu neu'n cynnal cymunedau, a theuluoedd, ar draws cyfandiroedd ochr yn ochr â'u rhwydweithiau lleol.

Mae nifer o'r grwpiau ethnig yng Nghaerdydd yn defnyddio'r rhyngrwyd neu deledu lloeren i barhau i gyfranogi o'u diwylliant cartref. Nid yw ystadegau ar fynediad at y rhyngrwyd yng Nghymru'n cael eu dadgyfuno ar sail gwahaniaeth ethnig, ond maent wedi gwella er 2002 pan oedd mynediad ymhell islaw'r cyfartaledd ym Mhrydain, sef 57 y cant (ONS, 2006). Roedd y grwpiau Arabaidd a'r Somalïaid yn enwedig i'w gweld fel pe baent yn defnyddio cyfryngau trawswladol, yn enwedig teledu lloeren, gan gynnwys gorsafoedd holl-Arabaidd megis Al-Jazeera, a rhai gwladol megis Iqra'a (gorsaf Sawdïaidd), Future (Libanaidd) ac Al Iraqia (Iracaidd). Mae gan y grŵp Tsieineaidd sy'n siarad Mandarin fynediad at Phoenix, gorsaf anllywodraethol (er ei bod wedi'i lleoli yng Ngweriniaeth y Bobl). Caiff teledu trawswladol ei ystyried yn bwysig i fywydau nifer o ymatebwyr am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith ei fod yn galluogi'r bobl nad ydynt yn gallu siarad Saesneg o gwbl i gysylltu â'r 'byd y tu allan' y tu hwnt i'w pedair wal eu hunain: 'Gan nad ydym yn siarad Saesneg fe'i cawsom yn angenrheidiol cael sianeli lloeren Arabeg'.

Caiff cyfryngau lloeren eu hystyried yn fodd i drosglwyddo diwylliant, ffordd o sicrhau y gall plant ddysgu a gwerthfawrogi iaith a diwylliant y rhieni. Mae hyn yn egluro pwysigrwydd sianeli cenedlaethol o'u cymharu â'r rhai holl-Arabaidd; fel yr eglura'r Swdaniad hwn, mae'n hollbwysig iddo ef a'i deulu eu bod yn cynnal cyswllt mor ddilys â phosib:

> Rwyf braidd yn bryderus oherwydd yn Sudan mae ein Harabeg yn wahanol gyda'r dafodiaith Swdaneaidd felly yma nid oes rhaid i mi adael iddynt wylio sianeli Arabeg eraill heblaw am sianel Swdan neu fel arall byddent yn colli'u gallu i ddeall iaith Swdan oherwydd yr iaith Arabeg.

Mae'r dilysrwydd a'r cynefindra hwn hefyd yn bwysig i'r rhieni, ac mae teledu lloeren yn amlwg yn cyflawni rôl o ran cadarnhau hunaniaeth. Mewn amgylchedd diwylliannol a all fod yn anodd, yn elyniaethus ac yn gynhyrfus, mae'r cyfrwng hwn yn adnodd diwylliannol cysurol. Mae grŵp o ddynion a menywod Libiaidd yn dweud bod teledu lloeren yn ychwanegu 'awyrgylch teuluol ac Arabaidd', mae'n golygu 'nad ydynt yn llawn hiraeth' ac mae 'rhywsut, yn lleihau'r pellter' trwy roi i chi'r 'iaith a'r gerddoriaeth yr ydych yn eu colli'. Cafwyd dadl yn nifer o'r grwpiau ffocws ynghylch y cwestiwn a yw gwylio teledu cartref yn gwneud dysgu Saesneg yn anos (nid oedd cytundeb, ond roedd pobl a chanddynt ffyrdd eraill o ddysgu'r iaith, megis yn y gweithle neu'r ysgol, yn tueddu i fod o'r farn nad oedd problem). Fodd bynnag, efallai ei fod wedi rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt a syniad llawer mwy soffistigedig am y newyddion a gogwydd wleidyddol nag a geir mewn astudiaethau o wylwyr unddiwylliannol (e.e. Lewis, 2005; Durante, 2006). Yn arbennig, roeddent yn nodi gwahaniaethau rhwng y sylw ar deledu Prydain a theledu Arabaidd i ddigwyddiadau yn y Dwyrain Canol a'r DU. Roedd rhai wedi canfod, ers dyfodiad teledu lloeren, eu bod wedi defnyddio llai ar gyfryngau'r DU:

> Arferem wylio mwy o deledu, ffilmiau a rhaglenni dogfen, Prydeinig.

> Arferwn ddarllen papurau newydd Prydeinig yn feunyddiol, ond oherwydd teledu lloeren rwy'n eu darllen yn wythnosol bellach, ac yn dilyn y newyddion Arabaidd yn ogystal â'r rhyngrwyd.

Mae Yemenïaid yn dweud bod arnynt angen dau deledu er mwyn i'w plant allu gwylio teledu'r DU yn Saesneg.

Mae Somalïaid yn darllen papurau newydd Prydeinig ac yn gwylio teledu Prydeinig. Maent hefyd yn cael teledu Arabaidd trwy loeren ac mae gan nifer fynediad trwy'r rhyngrwyd at y gwefannau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion yn Somalia. Mae'r rheiny yn y gymuned sydd wedi derbyn hyfforddiant ym maes cyfrifiaduron yn cynnig cymorth TG yn wirfoddol. Mae cyfryngau Somalieg a

diddordeb yn y cyfryngau wrthi'n datblygu yn Somalia. Mae gan y BBC yng Nghymru wefan Somalieg erbyn hyn.

Mae defnyddio'r cyfryngau yn y modd hwn yn cyflwyno ystyron newydd i 'gydlyniant' ac 'integreiddio' gan roi'r ffocws yn gadarn ar fanteision ac anfanteision teyrngarwch dwbl ymfudwyr sydd wastad yn edrych yn y ddau gyfeiriad, tuag at yr hen wlad a'r un newydd.

Gwasgariad, anfon arian a gwleidyddiaeth fyd-eang/leol

Mae pwnc taliadau'n codi'r un materion. Mae cymuned wasgaredig Somalia yn y DU, Ewrop, Gogledd America a Gwladwriaethau'r Gwlff yn parhau i gadw cysylltiad â, a chefnogi gweriniaeth Somalia. Siaradodd Somalïaid a aned i deuluoedd Somalïaidd Cymreig hirsefydlog am y cyffro o ymweld â'u gwlad a rhannu diwylliant nad oeddent wedi'i adnabod erioed, ac o ddysgu Somalieg dan ddylanwad y mewnlifiad newydd o ffoaduriaid yn y 1980au hwyr a'r 1990au. Roedd Somalïaid ifanc y cyfwelwyd â hwy yng Nghaerdydd eisoes wedi ymweld â Somalia tra'r oeddent yn dal yn yr ysgol yng Nghaerdydd ac fe siaradodd nifer o rai eraill am anfon arian, am bryder ynghylch perthnasau a adawyd ar ôl yn Somalia ac am euogrwydd am fod yn hapus fan hyn tra'u bod hwy'n dioddef draw yn y wlad honno. Dywedodd un Somaliad a chanddo asiantaeth yn Butetown ar gyfer trosglwyddo arian dramor wrthym:

> Mae trosglwyddo arian yn cryfhau'r gymuned. Yn fy nhref i fy hun yn Somalia nid oes unrhyw swyddi, dim byd. Mae 90% o'r bobl yn ddi-waith, felly sut allant eu bwydo'u hunain? Felly'r hyn sy'n cadw'r wlad yw'r arian a anfonir o wledydd eraill.

Caiff hyn ei grybwyll fel mater sydd o bwys o safbwynt datblygu cymunedol a datblygiad unigolion mewn nifer o grwpiau ffocws:

> Mae'r rhan fwyaf o Somalïaid yn gweithio mewn swyddi di-grefft ... Rwy'n credu mai'r rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o Somalïaid yn dod yma'n oedolion ac yn gorfod anfon arian at eu teuluoedd. Ar yr un pryd mae'n rhaid iddynt sefydlu'u teuluoedd eu hunain ac maent yn dechrau cael plant sy'n ei gwneud yn anos byth iddynt roi'r gorau i weithio a gwneud rhywbeth arall. Ar y llaw arall nid oes gan eu plant unrhyw un i'w ddilyn gan fod eu tadau'n ddi-grefft.

Mae'n amlwg nad yw pwnc taliadau'n effeithio ar bawb nac ar bob grŵp cymunedol yn yr un ffordd. Mae dosbarth cymdeithasol, addysg a chefnogaeth teulu oll yn gwneud gwahaniaeth. Yr hyn sy'n amlwg yw bod plant sydd ar eu pennau'u hunain ac nad oes ganddynt gefnogaeth teulu, ac sy'n cael trafferth anfon arian yn ôl at eu teuluoedd ac yn poeni am y rheiny a adawyd ar ôl, yn cael mwy o anawsterau na'r rheiny a chanddynt gefnogaeth teulu, boed yn deulu proffesiynol neu'n deulu sy'n ceisio lloches. Mae'r mater hwn hefyd yn effeithio ar yr Yemenïaid sydd o gefndiroedd gwledig yn bennaf ac yn byw'n bennaf yn Butetown. Mae ymfudwyr newydd, sy'n Yemenïaid eu hunain, yn credu bod y gymuned Yemenïaidd sefydlog (sydd yma ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg) mewn rhyw fath o ystumdro amser diwylliannol, ac yn eithaf annhebyg i gymdeithas yn yr Yemen gyfoes. Mae'r brys i weithio mewn swyddi gwaith llaw â sgiliau isel er mwyn ennill arian i'w anfon adref, ac i brynu ceir a thai, i'w weld, yn yr achos hwn, fel pe bai'n mynd yn groes i ddysgu Saesneg ac felly'n groes i addysg bellach neu symudoledd cymdeithasol. Nid yw tangyflogaeth ymhlith graddedigion yn eu cymuned hwy'u hunain a'r gymuned Somalïaidd ond yn argyhoeddi pobl bod addysg yn wastraff amser. Mae tystiolaeth i'w chael o newid yn digwydd o un genhedlaeth i'r llall, gyda phlant Yemenïaidd a anwyd ym Mhrydain bellach yn gwrthod siarad Arabeg gartref.

Felly nid yw cymunedau trawswladol o anghenraid yn gwrthdaro â diffiniadau cyfredol o integreiddio fel ymaddasiad ar y ddwy ochr neu o gydlyniant fel 'cyd-dynnu'n dda', naill ai mewn cymunedau neu rhyngddynt.

Fel y nodwyd uchod mewn perthynas â defnyddio'r cyfryngau, mae'n amlwg bod tensiynau wastad yn bodoli i ymfudwyr o ran eu perthynas â'r hen wlad a'r wlad newydd y maent yn perthyn iddi. Mae'r rhain yn aml fel pe baent yn dod i fod wedi'u canoli ar densiynau rhwng cenedlaethau. Mae cyfranogwyr yn dadlau ei bod yn bwysig i'w plant rannu'u cariad at eu mamwlad, ond gall plant arddangos amrywiaeth o adweithiau i wlad wreiddiol eu rhieni. Trafodwyd hyn gan ymatebwyr Iracaidd a Swdaneaidd yn ogystal â rhai Somalïaidd a Tsieineaidd.

> Rydym yn hiraethu'n fawr am ein gwreiddiau ond plant yw ein problem, cawsant hwy eu geni a'u magu yma, maent yn caru'r wlad hon felly mae'n anodd gwneud iddynt deimlo'r un fath tuag at Irac.

Caiff yr anawsterau hyn eu profi'n wahanol hefyd, gan ddibynnu ar newidynnau megis oedran y plentyn, mynychder yr ymweliadau â gwlad wreiddiol y rhieni, a pha mor agos yw perthnasau yno. Roedd rhai o'r merched Iracaidd ifanc iawn yn dilyn eu rhieni trwy briodoli hunaniaeth gymysg iddynt eu hunain, er enghraifft y ferch 7 mlwydd oed a ddywedodd, 'Cefais fy ngeni yng Nghaerdydd ond rwy'n hanu o Irac'. Eto, dywedodd menyw 24 mlwydd oed a gyrhaeddodd yn y DU pan oedd yn 4 mlwydd oed wrth yr ymchwilwyr:

> Mae'n amhosib! Dydw i ddim hyd yn oed yn teimlo y gallaf dreulio fy ngwyliau yno. Hyd yn oed a minnau'n briod ag Iraciad ac yntau'n dymuno dychwelyd i Irac, af fi ddim, y tro diwethaf i mi fod yno oedd 16 mlynedd yn ôl.

Mae rhieni Swdaneaidd, sydd wedi bod yng Nghaerdydd am gyfnod cymharol fyr, yn lleisio pryder arbennig am eu diwylliant eu hunain a pha mor bosib fyddai i'w plant a aned ym Mhrydain ffitio i mewn unwaith eto pe baent yn dychwelyd. Yn ôl un fenyw, maent yn magu'u plant gan eu dysgu i garu a chofleidio diwylliant Swdan, ond ni fyddai dychwelyd yn rhwydd i'r plant:

> Byddant yn wynebu nifer o broblemau, gan fod y gymdeithas yma'n wahanol, mae'r holl system yn wahanol ... yn Swdan megis mewn gwladwriaethau Arabaidd eraill mae a wnelo'r cwbl â chysylltiadau. Cafodd y meddygon a ddychwelodd i Sudan i weithio eu gwrthod a'u poenydio gan eu cydweithwyr nes y penderfynon nhw ddod yn ôl yma.

Ailfeddwl am gydlyniant cymunedol

O ystyried dirywiad cymuned draddodiadol, roedd y mathau newydd hyn o gysylltiad i'w gweld yn normal i'r rhan fwyaf o grwpiau, heblaw o bosib y dosbarth gweithiol gwyn ym Merthyr Tudful. Roedd cysylltiadau'r Tsieineaid yn drawswladol iawn, ymhlith aelodau dosbarth-canol mwyaf symudol y grŵp o leiaf. Roedd gan bobl yn Llandaf gysylltiadau gwasgaredig. Roedd ardal Cathays yn cael ei nodweddu gan y mathau o lifiadau o bobl a gaiff eu creu gan agendâu rhyngwladoli corfforaethol megis rhai Cyngor Dinas Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd, er enghraifft. Roedd y grwpiau Arabaidd yn aml wedi colli'r cysylltiadau hyn oherwydd y cyd-destunau trawmatig a oedd yn bodoli pan adawsant eu mamwledydd mewn rhyfel neu fel ceiswyr lloches.

Mae gwahanol fathau o berthyn ac o ymgysylltu dinesig ac integreiddio economaidd ynghlwm wrth y gwahanol fathau hyn o gysylltiadau. Mae rhai'n cynnwys ac yn hwyluso llawer mwy o ymaddasu at y lle newydd a llawer mwy o 'gyd-dynnu'n dda' nag eraill. Ond os cymerir fod 'cyd-dynnu'n dda' (cydlyniant) yn golygu 'diffyg tensiynau agored' rhwng grwpiau neu gymunedau, fel y mae pan gaiff y gair ei gysylltu â 'diogelwch' a 'phlismona', ac os yw integreiddio'n golygu ymaddasu yn y lle newydd, yna ymddengys fod y rhain oll yn fathau o gydlyniant ac integreiddio.

Yr hyn sy'n amheus yw a yw hwn yn ddiffiniad digonol o gydlyniant neu, yn wir, o integreiddio. Mae'n ymddangos i ni bod yn rhaid i integreiddio, yn yr hen ystyron ym maes polisïau sy'n ymwneud ag integreiddio economaidd, neu 'gynhwysiant' yn yr ystyr Gymreig sy'n golygu cyfranogiad economaidd llawn yn y gymdeithas sifil, ddod yn gyntaf. Dim ond wedyn y bydd 'cydlyniant' (cyd-dynnu) sy'n seiliedig ar hawliau a chyfrifoldebau teg a chyfartal yn dilyn mewn gwirionedd. Ac nid yw 'ymaddasu ar y ddwy ochr' neu 'gyd-dynnu' o anghenraid yn cynnwys y naill na'r llall o'r mathau hyn o integreiddio/cynhwysiant economaidd. Hynny yw, mae ar bobl angen y 'sicrwydd' a ddaw yn sgîl sgiliau iaith da, addysg, cyflogaeth ac iechyd a thai da os yw'r 'sicrwydd' o gymunedau diogel a chydlyniant yn yr ystyr bod cymunedau'n cyd-dynnu'n dda yn mynd i ddigwydd mewn gwirionedd.

Felly, er enghraifft, roedd gweinyddwyr yng Nghaerdydd ar y cyfan yn ystyried bod y Tsieineaid yn 'gymuned' sydd wedi integreiddio'n dda, er gwaethaf y llu o wahaniaethau a thensiynau yn y grŵp, ac nid oeddent yn eu hystyried yn risg i gydlyniant cymunedol. Roedd hyn yn bennaf yn seiliedig ar y ffaith mai ychydig o broblemau yr oeddent yn eu hachosi, eu bod yn aml heb fod yn hawlio budd-daliadau lles, a'u bod i'w gweld yn hunangynhaliol. Hynny yw, nid oeddent yn creu unrhyw densiynau agored. Eto, dengys ein hymchwil nifer o grwpiau o bobl sy'n agored iawn i niwed ymhlith y grŵp ethnig hwn (e.e. yr henoed a'r Ffwjianïaid sydd heb eu dogfennu), heb gymorth cymunedol o'r math a ragdybiwyd mewn polisïau dros nifer o flynyddoedd, heb allu i ddefnyddio Saesneg er mwyn cael mynediad at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, a rhai ohonynt yn dioddef camfanteisio troseddol. Maent hefyd yn dioddef gwahaniaethu a hiliaeth. Yr hyn sydd gennym yma yw gwrthdaro gwirioneddol rhwng canfyddiadau a dealltwriaethau synnwyr-cyffredin am dermau mewn polisïau a gwirioneddau bywydau pob dydd yn y ddinas. Mewn perthynas â rhannau o'r grŵp Tsieineaidd felly byddem yn dadlau nad oes integreiddio na chydlyniant i'w gael. Nid yw diffyg tensiynau agored neu broblemau'n ddiffiniad digon da o'r naill na'r llall.

Bywydau cyfochrog: pan fo unigedd yn broblem

Mewn cymunedau fe ganfuom grwpiau neu unigolion a oedd yn unig ac o bosib yn agored i niwed, yn aml am resymau gwahanol iawn. Caiff dau grŵp penodol eu hamlygu yma: yr henoed a menywod. Dyma'r mathau o grwpiau ac arnynt angen cymorth i gyflawni integreiddio economaidd neu gymdeithasol neu'r ddau, ac sydd felly'n ymddangos i ni fel rhai sy'n gosod her i gydlyniant cymunedol ar sawl lefel.

Cymdogaethau, yr henoed, perthyn a gwahaniaeth

Roedd unigedd grwpiau oedrannus, a achosid gan wahanol ffactorau, yn gyffredin ar draws grwpiau ethnig gan gynnwys preswylwyr hirdymor gwyn. Bu i un preswyliwr yn Llandaf gadarnhau, fel y gwnaeth y grŵp ffocws, fod 'cymunedau' o gymdogion yn rhywbeth sy'n perthyn i'r oes o'r blaen:

> Rwy'n credu ei bod yn anorfod bod pobl yn gweld llai a llai ar eu cymdogion. Hynny yw, rwy'n adnabod fy nghymdogion ond fyddwn i ddim yn dweud eu bod yn ffrindiau agos i mi. Ond ar y llaw arall mae tri neu bedwar o'm hamgylch y gallwn fynd atynt pe bai angen cymorth arnaf. Ond ar y llaw arall, pe bawn i yma ar fy mhen fy hun, fel sy'n digwydd yn weddol aml gan fod fy ngŵr yn teithio cryn dipyn, pe bai rhywbeth yn digwydd i mi yn ystod y nos, rwy'n amau'n fawr a fyddai unrhyw gymydog yn sylwi pe na bawn i yma yn y bore neu yn y prynhawn. Felly nid ydych mewn rhyw fath o sefyllfa, yn niffyg ymadrodd gwell, lle ceir cymdogion busneslyd, cymdogaeth ofalgar. Ond mae pawb yn gwrtais iawn. Ond nid yw'n gymuned glos, gref yn unrhyw ffordd.

Cafodd unigedd ymhlith pobl oedrannus yn Llandaf, yn bennaf gwragedd gweddw sy'n byw ar eu pennau'u hunain mewn tai mawr, ei grybwyll nifer o weithiau, oherwydd pryder yn eu cylch ac fel rhwystr i bobl ifancach sydd am gael mynediad at y farchnad dai. Yn yr achos hwn, newid o un cenhedlaeth i'r llall, cenhedlaeth yn marw, dirywiad cymdogaeth a chymuned a theuluoedd yn ymrannu (sydd weithiau'n fater trawswladol) sy'n achosi i bobl oedrannus, fregus fod yn unig.

Fodd bynnag, mae preswylwyr oedrannus eraill yn tueddu i fod yn rhan o fath gwahanol o gymuned yn Llandaf, gan symud yn arafach a chan ddal i fod ag amser i stopio a siarad neu sgwrsio dros ffensys cefn. Soniodd cyfranogwyr yn y grŵp ffocws am sgwrsio o bryd i'w gilydd dros ffensys cefn gyda'u 'cymdogion Eidalaidd oedrannus', yr oeddent yn eu hadnabod ers mwy na 30 o flynyddoedd, am groesi'r ffordd am sgwrs, am ofalu am dai ei gilydd pan eu bod yn mynd ar wyliau, am fynd i angladdau pan fo preswylwyr yn y stryd yn marw fel a wnaeth dau yn 2005, ac am alw i weld a oedd angen unrhyw beth ar gymdogion oedrannus. Ac eto roeddent i gyd yn dadlau nad oedd ganddynt gyswllt cymdeithasol agos â'u cymdogion.

Mewn cyd-destunau eraill, yr hanes o ymfudiad a'r patrymau gwaith sydd wedi eu hatal rhag dysgu Saesneg yw'r ffactorau sy'n cadw'r henoed yn eu cymunedau ac sy'n golygu eu bod yn dal yn ddibynnol arnynt er mwyn cael cymorth. Mae morwyr a menywod Somalïaidd oedrannus yn un enghraifft o hyn ac fe soniodd y cyfranogwyr Tsieineaidd am anawsterau eu pobl oedrannus, a oedd heb gael y cyfle i ddysgu

Saesneg am eu bod wedi gweithio ar hyd eu bywydau mewn ceginau Tsieineaidd. Maent o ganlyniad yn methu â chael mynediad at eu hawl i fudd-daliadau lles a gwasanaethau gwirfoddol prif-ffrwd. Mae'r siaradwyr Cantoneg o Hong Kong yn tueddu i ddibynnu ar ffrindiau a theulu i gael cymorth, felly mae darparu cymorth mewn perthynas ag iaith yn un o swyddogaethau pwysig Cymdeithas Tsieineaid Oedrannus Caerdydd. Er enghraifft, mae'n rhoi blaenoriaeth i helpu'r henoed i ddarllen llythyrau a llenwi ffurflenni i wneud cais am fudd-daliadau. Mae'r rhwystr ieithyddol, ac un diwylliannol o bosib, hefyd yn atal pobl oedrannus Somalïaidd, Caribïaidd ac Asiaidd yn STAR rhag cael mynediad at elusennau megis Age Concern, fel y tystiodd gweithiwr sy'n rhan o'r staff:

> Mae'n destun pryder gan ein bod yn gwybod bod y boblogaeth ethnig *[oedrannus]* wedi cynyddu ond nid ydynt i'w gweld yn dod atom. Arferent fod ag ofn – nad yw'n wir mwyach yn fy marn i – ond maent yn teimlo'u bod yn gallu datrys eu problemau eu hunain yn hytrach na gadael i bobl ddatrys eu problemau drostynt. Mae'n destun pryder mewn gwirionedd.

Yn yr achosion hyn mae bron â bod yn sicr bod teuluoedd estynedig a chymunedau'n darparu'r cymorth y mae pobl oedrannus fregus yn ardal ddosbarth-canol Llandaf yn aml yn brin ohono.

Menywod

Mae'n bosib bod problem unigedd ymhlith menywod hyd yn oed yn fwy difrifol mewn rhai cymunedau. Dywedodd Tai Taf wrthym am eu mentrau ar gyfer ymdrin â hyn yn Butetown, ac mae Women Connect First yn cynnig enghraifft arall. Yma fe gymerwn y menywod Yemenïaidd fel yr achos dan sylw, sy'n cynnwys ystod o grwpiau oedran. Iaith yw'r prif rwystr rhwng yr Yemenïaid a'r byd y tu allan i Butetown. Fodd bynnag, yn ôl y cyfranogwyr nid yw dosbarthiadau ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill), yn ddigonol i'w galluogi i gyfathrebu'n iawn ag eraill yn Saesneg. Mae hon yn gŵyn gyffredin ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae'r Ganolfan Yemenïaidd yn cynnal gwersi i fenywod mewn Saesneg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith megis TG. Caiff y cyfleoedd hyn eu hystyried yn bwysig ac yn ddefnyddiol gan y rheiny sydd wedi cael mynediad atynt. Fodd bynnag, roedd llai o wersi ar gael am fod y ganolfan yn ei chael yn anodd sicrhau nawdd ariannol:

> … maent yn dod ag athrawes i ddysgu Saesneg i ni a'n dysgu i ddefnyddio cyfrifiadur ... Fe roddon nhw'r gorau i'w thalu felly nid yw'n dod mor aml ... Y gwahaniaeth rhwng y ganolfan gymunedol Yemenïaidd a'r canolfannau cymunedol eraill yw nad ydynt yn rhoi tystysgrifau i ni am

> eu bod wedi gostwng cyflog yr athrawes, ac nid oes lle i gadw'r babanod. Rydym *[yn rhagweld y byddem]* wrth ein bodd yn derbyn tystysgrifau am y dysgu yr ydym yn ei wneud a allai fod o gymorth i ni yn y dyfodol.

Roedd menyw arall (25 mlwydd oed) wedi bod yng Nghaerdydd am fwy na dwy flynedd ac nid oedd erioed wedi bod ar gyfyl canol y ddinas (sydd ddeng munud i ffwrdd ar droed). Pan ofynnwyd iddi pwy sy'n prynu'r bwyd ar gyfer y tŷ, dywedodd mai ei thad-yng-nghyfraith sydd a phan ofynnwyd iddi pwy sy'n prynu unrhyw bethau personol y gall fod arni'u hangen, dywedodd mai ei gŵr sy'n eu prynu iddi. Mae hi, fel nifer o fenywod Yemenïaidd yn Butetown, yn ofni'r hyn nad yw'n ei adnabod, ond heb unrhyw sgiliau iaith mae hefyd yn ofni cael ei dieithrio a bod ar goll. Roedd y rhan fwyaf o'r menywod Yemenïaidd y cyfarfuom ni â hwy yn a'r tu allan i Butetown hefyd wedi priodi'n ifanc (rhai pan oeddent yn 14). Fodd bynnag, roedd menywod Yemenïaidd sydd wedi cyrraedd yn fwy diweddar ac sy'n byw y tu allan i Butetown yn wahanol iawn ac fe gyfarfuom â nifer o fenywod ifanc a hŷn sy'n gweithio ac sy'n rhugl ac yn uchelgeisiol ymhlith pob un o'r grwpiau y gweithiom ni gyda nhw. Roedd menywod yn y gymuned Somalïaidd yn arbennig o weithgar a radical, yn enwedig mewn perthynas â dynion ac effeithiau ysmygu Ghat ar y gymuned, mewn perthynas ag addysg, ac mewn perthynas â phlismona ac iechyd.

Pobl ifanc fel her i gydlyniant

Mae grwpiau ifanc difreintiedig eraill megis grwpiau (gwrywaidd yn bennaf) dosbarth-gweithiol gwyn y clywsom ni amdanynt yn STAR a Merthyr, yn ogystal â phobl ifanc Brydeinig, gymysg eu hil yr oedd eu cyndeidiau'n byw yn Butetown ac sy'n byw ar ystadau cyngor, hefyd i'w gweld yn aml yn byw bywydau nad ydynt yn 'integredig' nac yn 'gydlynol' o gwbl yn yr un ystyr â phan ddefnyddir y termau hyn mewn polisïau. Dywedodd un gweithiwr ieuenctid Somalïaidd am y bobl ifanc gymysg eu hil yr oedd yn gweithio gyda hwy yn y Tyllgoed:

> Maent yn bobl ifanc gymysg eu hil, o gefndir Somalïaidd, Caribïaidd, Gwyddelig cymysg ond, eto mae'n hawdd i'w ddiffinio pan fo gan rywun liw croen penodol a phan eich bod yn gofyn o ble mae dy dad yn dod a hwythau'n dweud o Somalia neu o Bacistan neu fan hyn. Mae nifer ohonynt yn perthyn i'r drydedd neu'r bedwaredd genhedlaeth o'r hil gymysg. Oni bai eich bod yn gofyn iddynt, rydych yn credu eu bod yn Gymry i'r carn.

> Nid yw rhieni nifer ohonynt yn gweithio, maent yn derbyn nawdd cymdeithasol neu'n gwneud gwaith rhan-amser yma ac acw. Mae'n nodweddiadol o ystad gyngor ... mae'n effeithio ar nifer o'r bobl ifanc – y canfyddiad am ystad gyngor, gyda chylchred yr aeth eu rhieni drwyddi ac yr aeth eu teidiau a'u neiniau drwyddi ac y maent hwy'n mynd drwyddi erbyn hyn. Ni allant gael mynediad i'r farchnad lafur. Mae nifer ohonynt yn blant i rieni sengl.
>
> Mae nifer o bobl ifanc o'r ardal hon nad ydynt i'w gweld yn cymysgu ag unrhyw un. Mae ganddynt broblemau gyda Threlái, problemau gyda phobl ifanc eraill o rannau eraill o Gaerdydd. Maent yn hapus ble maent a dyna ni. Nid ydynt yn dymuno cymysgu gydag eraill.

Plant ysgol Asiaidd sydd leiaf tebygol o ddefnyddio Canolfan Gymunedol Cathays, er bod gan yr ysgol gyfagos, y mae'i disgyblion gwyn yn defnyddio'r ganolfan, nifer o ddisgyblion Asiaidd a duon hefyd. Dywed rheolwyr y ganolfan y byddent yn hoffi estyn allan at y disgyblion hyn ond 'y canfyddiad amdanom, ac un cywir o ran hynny, oedd ein bod yn weddol wyn'.

Mae rhai pobl ifanc Somalïaidd yn hoffi gweithio gyda gweithwyr ieuenctid sydd hefyd yn Somalïaidd, gan gredu bod patrwm ymddygiad ethnig yn bwysig i ddatblygu'u hunanhyder eu hunain. Mae Somalïaid ifanc eraill, fodd bynnag, wedi colli ffydd mewn system lle mae'r mwyafrif o bobl yn wyn ac maent yn teimlo wedi'u dadrithio ac yn negyddol iawn mewn perthynas â'u rhagolygon gwaith, yn enwedig y rheiny a aned yma ac sy'n gwybod bod ganddynt hawl i driniaeth gyfartal yn ôl y gyfraith, ond sydd o'r farn nad ydynt yn ei derbyn oherwydd hiliaeth. Y dynion ifanc hyn yw'r anoddaf i'w cyrraedd, ond bu i nifer o aelodau o'r gymuned, ac eraill sy'n gweithio gyda'r gymuned, fynegi pryderon ynghylch eu dadrithiad a'r cyd-destun cynyddol anodd ers ymosodiadau terfysgaidd 9/11 yn yr UDA a 7/7 yn Llundain, ac fe sonion nhw am yr angen i weithio i newid eu sefyllfa:

> … a byddent [dynion ifanc] yn teimlo'n rhwystredig a byddent yn defnyddio'r geiriau, yn dweud: 'beth yw'r pwynt?' Ac mae hynny'n destun cryn bryder pan ei bod wedi dod i hynny. Does gennych chi ddim byd i'w golli. 'Beth yw'r pwynt?'

Ond yn y mosg Somalïaidd yn Butetown, dywedodd yr imam wrthym eu bod yn gweithio gyda'r dynion ifanc yn y gymuned: 'mae'n rhaid i ni roi anogaeth iddynt, dweud wrthynt am weithio a pheidio â cholli gobaith – bod yn oddefgar'. Soniodd cyswllt yng Nghymdeithas y Bobl Ifanc Somalïaidd am y gwaith yr oeddent yn ei wneud:

> Oherwydd y diffyg mudiad ieuenctid a diffyg cyflogaeth, mae llawer o broblemau gyda chyffuriau. Fe ddechreuom ni'r rhaglen i gael pobl oddi ar y strydoedd, ac rydym yn eu helpu i gyrraedd eu nodau, felly dydyn ni ddim wedi cyrraedd pen y daith eto, ond rydym yn ceisio gwneud hynny trwy gyrsiau hyfforddi a chyrsiau grymuso.

Mae dynion Somalïaidd ifanc hefyd yn flin am stereoteipiau yn y cyfryngau o bobl ifanc fel 'hwdis', y maent hwy'n ystyried eu bod yn helpu i'w gwneud yn dargedau ar gyfer cael sylw gan yr heddlu. Dywedodd Somalïaid ifanc mewn grwpiau ffocws mewn clybiau ieuenctid wrthym:

> Mae pobl yn stereoteipio pobl dduon, yn enwedig pobl Somalïaidd, fel pobl ymosodol, ddiog, troseddwyr, pobl sy'n cymryd cyffuriau, pobl ddi-waith. Dydyn nhw ddim yn rhoi siawns i ni i ddechrau, dim cyfleoedd.

Maent yn teimlo bod polisïau megis Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs) yn cael eu targedu atynt mewn ffordd afresymol – 'mae'r heddweision yn ein poenydio ni' – ac maent yn credu bod yr heddlu'n ffafrio pobl wyn ymhob sefyllfa bron iawn. Ond iddynt hwy nid oes diben cwyno. Roedd y grŵp ffocws hwn gyda chwech o ddynion Somalïaidd ifanc a ddaeth i Gaerdydd rhwng 1988 a 1994 yn cytuno:

> Rwyf wedi cwrdd ag un heddwas nad oedd yn hiliol ac nid Prydeiniwr oedd hwnnw. Beth mae hynny'n ei ddweud wrthych am yr heddlu? ... Weithiau roedd pobl yn ymladd yn y dref, ac er ei bod yn ymladdfa deg, byddent yn eich rhoi chi dan glo ac nid y bobl wyn. Fe roddon nhw gyfweliad i ni ar unwaith ac i'r bobl wyn bythefnos yn ddiweddarach. Allwch chi ddim cwyno. Rydych yn cwyno wrth y rhai nad ydych yn fodlon arnynt. Cefais fy arestio a'm cyhuddo.
>
> Cefais innau'r un problemau gyda'r heddlu. Roeddwn i'n rhan o griw a oedd yn ymladd ac fe arestion nhw ni ac nid y bobl wyn a mynd â ni i lys y goron. Gallwch gwyno wrth yr heddwas/heddferch neu'i ffrind ond wnawn nhw mo'ch helpu chi.

Dywedodd un Somaliad a oedd wedi cael addysg brifysgol wrthym am faterion tebyg mewn perthynas â phobl ifanc wyn a oedd wedi lladrata o'i siop:

> Mae yma broblem gyffuriau – chawsom ni erioed y broblem o'r blaen – mae'n ddiweddar iawn – mae gwerthwyr cyffuriau'n gweithio yn y gymuned. Ac maent yn defnyddio bechgyn ifanc sy'n ddi-waith ... Rwy'n

> credu bod hiliaeth yn chwarae rhan hefyd. Does dim ots gan neb. Er enghraifft, ddau ddiwrnod yn ôl, tua 2pm, daeth dau fachgen gwyn i mewn i'r siop a dwyn arian o'r til. Cafwyd ras – fe ddalion nhw'r bechgyn – ond dywedodd yr heddlu na allent eu cyhuddo – doedd dim tystiolaeth – am eu bod wedi mynd i brynu cyffuriau. Dychmygwch petai'r dyn yn y siop yn wyn a'r ddau fachgen yn ddu – meddwn i wrthynt – mae gennych gamera yn y fan yna – mi allwch chi eu gweld! Fe ddywedon nhw bod y camera'n wynebu'r ffordd arall.

Hwn yw'r un gŵr ag a ddywedodd wrthym fod yr awdurdod yn credu bod Somalïaid 'yn fwy tueddol o fod yn gysylltiedig â therfysgaeth' na grwpiau eraill.

Er bod yr holl gyfranogwyr Somalïaidd hyn yn credu mai hiliaeth oedd y prif ffactor a oedd yn cyfrannu at eu teimlad eu bod yn cael eu stereoteipio a'u gwylio, yn ogystal â bod heb fynediad at unrhyw gyfiawnder gwirioneddol eu hunain, dywedodd merch ysgol Somalïaidd 14 mlwydd oed o Dremorfa, sy'n ystad gyngor â phobl wyn yn byw arni'n bennaf, pan ofynnwyd iddi am yr heddlu yn yr ardal honno, eu bod o gwmpas drwy'r amser yn ymdrin â throseddau gan bobl ifanc wyn.

Roedd y cysylltiad rhwng cyffuriau a throseddu hefyd yn amlwg ar ystadau cyngor ym Merthyr. Yma roedd pobl a oedd yn byw ar ystadau hefyd yn poeni am y defnydd eang o gyffuriau a pha mor rwydd ydoedd i'w cael. Roeddent yn dweud mai'r diwylliant cyffuriau a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau oedd yn bennaf gyfrifol am ddifetha'u hystadau. Roeddent hefyd yn poeni am y lleiafrif o 'bethau ifanc' a oedd yn yr achos hwn 'allan o reolaeth'. Roeddent yn gefnogol i ddychwelyd at gosb gorfforol mewn ysgolion ac yn gresynu at y ffaith bod plant a phobl ifanc wedi colli parch at rai hŷn:

> Wel, mae fy mam yn 84 mlwydd oed ac yn mynd i'r dref bob dydd ar y bws. Pa ddiwrnod roedd yn disgwyl am y bws wrth y siopau ac roedd plant – 9 a 10 mlwydd oed – yn ei phledu â cherrig! Ni chododd neb o'r bobl o gwmpas fys i'w helpu. Bu bron i rywun gael ei ladd wythnos diwethaf – daeth car a oedd allan o reolaeth a sgidio i mewn i'r safle bysiau ac roedd plant yn aros am y bws ysgol – fe neidion nhw allan a rhedeg i ffwrdd.

Siaradai'r bobl oedrannus yn bennaf am y dirywiad mewn moesau a'r diffyg parch at awdurdod ac roeddent i'w gweld yn hapus i aros o fewn terfynau'u llety gwarchodol lle'r oedd pethau'n mynd rhagddynt yn llyfn a phobl yn gwrtais:

> Pan fyddai un o'm rhai i'n gwneud rhywbeth a rhiant yn dod i ddweud wrthyf, byddwn yn gwneud rhywbeth yn ei gylch. Ceisiwch chi gnocio ar ddrws rhywun y dyddiau hyn. Fe gewch rywun yn bod yn gwbl haerllug gyda chi, dim byd ond geiriau surion. Mae wedi mynd yn ofnadwy, allwn ni byth fod wedi dychmygu y byddai'n dod i fod fel hyn. Mae'n siŵr bod yr heddlu'n ceisio'u gorau, ond mae'u dwylo wedi'u clymu. Beth allan nhw ei wneud pan fo'r rhieni'n gadael iddynt *[eu plant]* redeg yn wyllt?

Cydlyniant ac arwahanrwydd cymunedol mewn ardaloedd dosbarth-canol yng Nghymru

Daethom ar draws sawl gwahanol fath o 'gymuned' a mathau o 'unigedd' neu 'arwahanrwydd' y byddai angen i agenda cydlyniant cymunedol fynd i'r afael â hwy. Rydym wedi cynnwys Llandaf fel astudiaeth achos am ei bod yn benodol yn ail-leoli'r materion hyn mewn ardal ddosbarth-canol yng Nghaerdydd nad yw fel arfer yn cael ei chysylltu â chwestiynau sy'n ymwneud ag ymfudiad neu gydlyniant cymunedol.

Astudiaeth achos: Llandaf

Caiff Llandaf ei nodweddu gan fewnlifiadau cyson o ymfudwyr newydd sy'n anweladwy am eu bod yn perthyn i'r dosbarth canol. Er bod Cymdeithas Llandaf yn adrodd bod llawer o symud i mewn a symud o gwmpas yn Llandaf ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oes unrhyw sôn am y term 'mewnfudo' nac am y ffaith bod nifer o'r rheiny a adeiladodd Llandaf fel y mae heddiw'n dod o Loegr, nac am natur Gymraeg ddosbarth-canol rhan o'r gymuned.

Ymddengys fod materion tiriogaethol ac ymdeimlad o hunaniaeth ddaearyddol yn gysylltiedig â byw yn Llandaf. Er enghraifft, roedd rhai ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai peryglus i fynd iddynt – yn bennaf yr ystadau cyngor cyfagos, lle ceir 'carfannau o bobl ifanc' – ac roedd taerineb sicr nad yw Danescourt, ystad dai ddiweddar iawn (a adeiladwyd yn y 1960au), na Gogledd Llandaf, rhan ddiwydiannol hŷn o blwyf gwreiddiol Llandaf (Cymdeithas Llandaf, 1996, t. 55), yn rhan o Landaf yn awr. Ochr arall yr hunaniaeth ddaearyddol hon yw ei natur ddethol. Dywedwyd wrthym mewn sawl ardal yng Nghaerdydd nad oedd y Somalïaid wedi integreiddio am eu bod 'yn cadw ar wahân i bawb arall'. Yn yr un ffordd, dywedwyd nad oedd preswylwyr Pacistanaidd yn Cathays wedi integreiddio am 'nad ydynt yn cymysgu'. Gellid dweud fod preswylwyr Llandaf yn

(Parhad)

dangos tueddiad tebyg i beidio â chymysgu, i gadw ar wahân i bawb arall, o leiaf cyn belled ag y mae'u trefniadau cartref yn y cwestiwn, ac am yr un rhesymau â grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n ceisio osgoi rhysedd yr ystad gyngor a mathau o ymddygiad ac arferion penodol sy'n gysylltiedig â'r dosbarth canol.

Mae union strwythur y systemau ffyrdd a rheilffyrdd sy'n ffinio â ac yn rhannu'r ardal yn gweithio'n erbyn ffurfio mathau hŷn o gymuned, tra bod newidiadau cymdeithasol megis y car, yr archfarchnad a chyflogi menywod yn gwneud y gweddill:

> Yn fy marn i, os oes gennych aelwyd lle mae dau ohonoch o bosib yn gweithio, a chithau'n mynd i rywle arall i weithio fel y rhan fwyaf o bobl, i'r dref neu ble bynnag y maent yn mynd – yna mae gennych lai o amser i'w dreulio yn eich cymuned leol, onid oes? O safbwynt bod yn rhan o grwpiau cymunedol – arferwn fynd â'm plant i grŵp plant bach pan oeddent yn ifanc iawn. Ond dydyn ni ddim, rydym yn mynd i'r gadeirlan ac maent yn aelodau o'r ysgol Sul yno. Ac – wel, rwy'n byw ar briffordd, felly nid yw mor hawdd dod i adnabod eich cymdogion wedyn, ac rydych yn tueddu i fynd i mewn i'ch car, gyrru i waelod y dreif ac i ffwrdd â chi.

Yn ddiddorol, roedd y traffig sy'n atal cymunedau clos rhag ffurfio hefyd i'w weld fel petai'n creu cymunedau gweithredu a buddiant. Soniodd ymatebwyr o ysgol leol wrthym eu bod wedi bod yn cydweithio gyda'r cyngor lleol a Llywodraeth y Cynulliad ar gynllunio traffig:

> Sustrans *[cludiant cynaliadwy]* – llwybrau diogelach i'r ysgol, felly mae gennym lawer iawn, gydag ysgolion eraill yn yr ardal, a'r gymuned leol ... rydym wedi gallu cydweithio ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi swm enfawr o arian, rydym yn disgwyl i glywed a ydym wedi cael trydedd gyfran o arian yn awr – ar gyfer llwybrau diogelach i'r ysgol. Mae'n golygu bod gennym lwybrau beiciau sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd, ac sydd wedyn yn fwy diogel i'w defnyddio. Rydym wedi trefnu bod croesfannau i gerddwyr yn cael eu gosod ar rai ffyrdd allweddol felly mae hynny'n enghraifft dda iawn ohonom yn cydweithio gyda'r gymuned leol mewn ffordd dra gwahanol ... Ac mae o fudd i'r bobl leol.

Wrth siarad am y diffyg cymuned glos yn ei stryd, mae un dyn yn dadlau nad oes ganddynt unrhyw beth i'w ddweud wrth ei gilydd heblaw pan fo problem ynghylch caniatâd cynllunio. Yn yr un modd roedd cyfranogwyr mewn grŵp

(Parhad)

ffocws yn cofio rhai blynyddoedd yn ôl, pan gynigiwyd lleoli cartref i droseddwyr ifanc yn y stryd, cafwyd deisebau a phrotestiadau, ond cytunodd y preswylwyr yn y pen draw â'r syniad o'i leoli yno ar yr amod bod y lleoedd parcio'n cael eu rheoli a'u bod oddi ar y stryd. Mae i'w weld yn glir yn ardal Llandaf bod gan bobl y cyfalaf cymdeithasol i ymgasglu yn wyneb materion sydd o bwys iddynt a'u bod yn rhannu diddordeb cyffredinol mewn cynnal natur (a gwerth eiddo yn) eu ward a'u hardal leol.

Pwyntiau i grynhoi

- Mae realiti bywydau pobl fel arfer ymhell y tu ôl i wirioneddau polisïau, ac mae iaith polisïau, sydd ar led yn y cyfryngau ac mewn trafodaethau pob dydd, yn magu ystyron synnwyr-cyffredin sy'n anodd iawn i'w newid.

- Oni bai fod pobl yn gysylltiedig â llunio polisïau, yn gyfrifol am eu gweithredu, neu fod arnynt angen defnyddio ieithoedd polisïau i wneud cais am arian, mae grwpiau sefydlog a newydd-ddyfodiaid yn dal i dueddu i ddeall integreiddio fel term sy'n golygu cymhathu, a chydlyniant fel term sy'n golygu diffyg tensiynau rhwng grwpiau o bobl.

- Mae ystyron a gwirioneddau cymuned a theulu wedi newid yn y rhan fwyaf o ardaloedd a gafodd sylw yn yr ymchwil hon. Mae hyn yn effeithio ar y ffordd y bydd pobl yn integreiddio ac ar y mathau o gydlyniant sy'n bodoli.

- Mae tensiynau o wahanol fathau rhwng y cenedlaethau'n bodoli ar draws yr holl grwpiau ac ardaloedd daearyddol a astudiwyd gennym. Gall hyn ddeillio o ganlyniad i fathau newydd o deuluoedd a chymuned sy'n arwain at wneud yr henoed yn unig, neu ddeillio o fynediad gwahanol at, a lefelau gwahanol o integreiddio: e.e. wyrion nad ydynt yn siarad iaith eu teidiau a'u neiniau mwyach; menywod a phobl oedrannus nad oes ganddynt yr iaith i gael mynediad at wasanaethau a chymorth hanfodol. Gall hefyd fod ar ffurf ymdeimlad o ofn neu bryder oherwydd y ffyrdd y mae pobl ifanc yn ymddwyn.

- Gall ymddangosiad integreiddio a chydlyniant mewn cymunedau sydd i'w gweld yn llwyddiannus guddio grwpiau sy'n unig, y camfanteisir arnynt neu sy'n agored i niwed.

3 Dosbarth cymdeithasol, mewnfudo a chynhwysiant

Mewn nifer o ffyrdd cymhleth, mae dosbarth cymdeithasol wedi parhau i ddod i'r amlwg fel ffactor allweddol yn ein canfyddiadau am ymfudiad a chydlyniant cymunedol. Fe ddewisom ni'r 'cymunedau' y mae'r ymchwil hon yn canolbwyntio arnynt yn rhannol am resymau a oedd yn ymwneud â dosbarth cymdeithasol a lleoliad daearyddol felly nid yw hyn yn fawr o syndod. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn ymwybodol o'r cychwyn cyntaf fod y tueddiad i adnabod 'cymunedau' ar sail cyfuniad o ethnigrwydd a gwlad wreiddiol (Vertovec, 2006, t. 1) yn peri problem gyda'r rhan fwyaf o'r grwpiau hyn a bod llawer mwy o newidynnau nag ethnigrwydd yn unig dan sylw yma (e.e. ymhlith y grwpiau Somalïaidd, Tsieineaidd ac Arabaidd amrywiol iawn). Yr hun a ganfuom oedd bod rhyw, crefydd (e.e. Islam, Cristnogaeth), iaith (e.e. Arabeg a Tsieinëeg ond hefyd tafodieithoedd Saesneg a Chymraeg) ac addysg yn ogystal â thlodi neu gyfoeth yn haenu grwpiau sengl ac yn uno grwpiau sydd i'w gweld yn wahanol. Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng dosbarthiadau hefyd yn bodoli oddi mewn i ac ar draws grwpiadau mewn ffyrdd nad yw polisïau cyfredol yn mynd i'r afael â hwy o gwbl.

Felly yn yr adran hon o'r adroddiad rydym am ganolbwyntio ar y ffordd y mae dosbarth cymdeithasol a gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau'n torri ar draws priodweddau ymfudwyr newydd a phriodweddau presennol poblogaethau 'lletyol' i weithredu gwahanol fathau o integreiddio a gwahanol fersiynau o gydlyniant.

Tlodi, ymfudiad a dosbarth cymdeithasol

Mae Kyambi (2005) yn dadlau bod polisi ar ymfudiad yn y DU yn gyson wedi cynnwys mathau o hiliaeth a gwahaniaethu-ar-sail-dosbarth elitaidd sy'n breinio'r gallu i siarad Saesneg, bod yn wyn, addysg a chyfalaf economaidd. Mae hyn o bosib hyd yn oed yn fwy amlwg yn awr yn 2008 yn dilyn cyflwyno'r system bwyntiau ar gyfer ymfudiad newydd ar lefel y DU. Yn ein hymchwil fe ganfuom wahaniaethau amlwg yn y ffordd y mae poblogaethau 'lletyol' yn derbyn gwahanol fathau o ymfudwyr newydd yng nghyd-destun De Cymru. Yn hyn o beth mae ymfudwyr gwyn dosbarth-canol (Seisnig yn aml) sy'n dod i Gaerdydd yn symud i mewn i 'getoau' (maestrefi dosbarth-canol) ble mae pobl fel hwy eu hunain yn tueddu i fyw (e.e. Llandaf/Pontcanna, Cathays neu STAR), fel y gwna grwpiau a myfyrwyr rhyngwladol addysgedig (yn Cathays/Y Rhath). Ni chafodd y grwpiau hyn fyth mo'u trafod hyd yn oed fel 'ymfudwyr' yn ein data ni (ac eithrio o bryd i'w gilydd ymysg siaradwyr

Cymraeg a chenedlaetholwyr Cymreig). Caiff 'cydlyniant cymdeithasol' ei gymryd yn ganiataol a thybir fod y gymuned 'letyol' yn hapus. Pan ein bod yn defnyddio'r term 'ymfudwr' isod, felly, mae'n cyfeirio at yr 'ymfudwyr' eraill hynny sy'n ymddangos, yn ôl canfyddiadau'r cyhoedd, fel pe baent yn 'broblem': yn enwedig ceiswyr lloches, amryw fathau o ffoaduriaid a gweithwyr mudol a'r rheiny sy'n ddu neu'n wahanol yn weladwy, neu sy'n swnio'n wahanol. Er gwaethaf yr enw da sydd gan Gymru am 'oddefgarwch' a'r tueddiad ymhlith rhai Cymry Cymraeg i'w hystyried eu hunain yn 'lleiafrif' ac i ystyried eu bod felly'n cydymdeimlo'n fwy â lleiafrifoedd eraill, mae ein hymchwil ni'n dangos bod y goddefgarwch hwn hefyd yn seiliedig ar ddosbarth. Mae'n gysylltiedig ag addysg a phrofiad o ddiwylliannau eraill.

Felly yn ein gwaith ar ystadau cyngor gyda gweithwyr mudol Portiwgeaidd yn y diwydiant cig ym Merthyr Tudful, ychydig o ddealltwriaeth am, neu gydymdeimlad â, gwahaniaeth a ganfuwyd gennym, oni bai, neu hyd oni, fod dod wyneb yn wyneb â gwahaniaeth yn newid meddyliau pobl. Y teimlad mwyaf amlwg ym Merthyr tuag at weithwyr mudol oedd eu bod yn 'cymryd drosodd' nifer o fannau cymdeithasol yn ogystal ag yn 'mynd â'n swyddi'.

> Rwy'n mynd *[i'r dafarn]* ac arferai fod yn wych, ond mae'n ymddangos yn awr fel pe bai'r Portiwgeaid yn cymryd y lle drosodd – ac maent yn cadw gyda'i gilydd, nid ydynt yn siarad gyda chi – mae'r troellwr hyd yn oed yn rhoi eu cerddoriaeth hwy ymlaen erbyn hyn.
>
> Maent yn cymryd drosodd – y gerddoriaeth a chwbl!
>
> Mae'n gas gen i fynd i Tesco yn awr! Mae'r lle'n llawn ohonynt – maen nhw ymhobman!
>
> Mae'n gas gan fy mrawd y lle bellach *[y ffatri gig]* ac mae wedi bod yno am dros bum mlynedd. Mae'n llawn Portiwgeaid yn awr ac maent hyd yn oed wedi penodi un i fod yn gyfrifol amdano. Mae'n methu'n lân â gweithio gyda nhw.

Roedd teimlad cryf hefyd 'nad ydynt yn dymuno ffitio i mewn gyda ni', ond pan ofynasom ni pa brofiad personol oedd gan bobl o gwrdd a siarad ag ymfudwyr, ychydig iawn oedd ag unrhyw brofiad o gwbl. Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth yn llwyr seiliedig ar achlust. Dim ond un cyfranogwr oedd wedi dod i adnabod ymfudwr Portiwgeaidd, ac fe ddywedodd bethau da amdano. Dim ond wyth o bobl ar y cyfan oedd erioed wedi siarad gyda'r Portiwgeaid ac roedd chwech o'r rheiny o grŵp o ddynion digartref y siaradom ni gyda hwy. Mae'r hostel ar gyfer y digartref wedi'i leoli ar bwys tai amlbreswyliaeth, fflatiau a fflatiau un-ystafell sydd â nifer o'r Portiwgeaid

sengl yn byw ynddynt. Maent hefyd yn cymysgu gyda nhw yng nghanol y dref mewn tafarndai a chlybiau. Yn ddiddorol, pan ddywedwyd wrth bobl leol, ar ddiwedd y grwpiau ffocws, pa bethau (cadarnhaol yn bennaf) yr oedd y Portiwgeaid wedi'u dweud amdanynt, dechreuodd nifer ohonynt ddweud pethau mwy cadarnhaol am y Portiwgeaid:

> Wel, pe bai mwy o deuluoedd byddai'n well, fyddai dim ots gennym wedyn.
>
> Mae'n rhaid iddynt fyw yn rhywle, am wn i, ac rwy'n clywed ei bod yn ddrwg draw yno.
>
> Maent yn gweithio dan amodau ofnadwy, cofiwch. Maent yn gorfod goddef llawer. Ac mae'r tai y maent yn eu rhoi iddynt yn fudr. Mae'n rhaid ei fod yn erbyn y gyfraith – does bosib bod hawl ganddynt wneud hynny.

Ymfudwyr newydd, gwaith a dosbarth cymdeithasol

Ar draws yr holl grwpiau y gweithion ni gyda nhw, roedd parodrwydd i dderbyn newydd-ddyfodiaid a oedd yn astudio neu'n gweithio ac yn ennill bywoliaeth. Mewn rhai achosion (e.e STAR) roedd tensiynau cymunedol yn cael eu datrys yn rhwydd unwaith yr oedd pobl yn deall nad oedd y grŵp yr oeddent hwy wedi cymryd yn eu herbyn yn geiswyr lloches a oedd yn 'byw ar gefn eraill' neu'n 'cymryd adnoddau prin' ond yn hytrach eu bod yn weithwyr mudol a oedd, fel hwythau, yn ennill bywoliaeth. Ym Merthyr roedd y dybiaeth ei bod yn rhaid bod unrhyw un sy'n newydd yn anghyfreithlon ac yn geisiwr lloches i'w gweld yn anos i'w newid, felly nid oedd y gydnabyddiaeth bod pobl yn gweithio'n newid agweddau. Roedd rhai'n gwybod bod y Portiwgeaid yn ymfudwyr a oedd yn gweithio yn y ffatri gig ac roedd gan un neu ddau o'r gweithwyr cymunedol ddealltwriaeth weddol gywir am y rheswm eu bod ym Merthyr Tudful a'u hamodau gwaith. Roedd pobl nad oeddent yn gwybod unrhyw beth amdanynt yn cymryd yn ganiataol eu bod yn geiswyr lloches neu'n 'fewnfudwyr anghyfreithlon' ac yn defnyddio'r termau'n gyfnewidiol. Bu i'r rhan fwyaf o bobl grybwyll anghyfreithlondeb ar ryw adeg wrth siarad amdanynt. Roeddent yn tybio'u bod wedi cyrraedd yn anghyfreithlon, eu bod yn gweithio'n anghyfreithlon, neu eu bod yn hawlio budd-daliadau mewn modd twyllodrus.

Roedd hyd yn oed mynediad at dai trwy'r system bwyntiau ddadleuol yn achosi llai o ddrwgdeimlad mewn cymunedau lleol os oedd y newydd-ddyfodiaid yn gweithio, ac roedd hyn yn wir hyd yn oed pan oedd ein hymatebwyr yn derbyn budd-daliadau

lles ac yn amharod i wneud y gwaith yr oedd y newydd-ddyfodiaid yn ei wneud. Yn Butetown, ystyrir fod y gwahaniaeth rhwng yr hen gytgord amlddiwylliannol y mae pobl yn hiraethu amdano a'r sefyllfa gyfredol lle'r oedd cymaint o'n cyfweleion yn digio wrth fathau arbennig o fewnfudwyr (yn enwedig mamau sengl Somalïaidd) yn seiliedig ar y ffaith nad yw'r newydd-ddyfodiaid yn gweithio yn awr a'u bod felly'n mynd ag adnoddau y mae gan eraill hawl iddynt: 'Yn yr hen ddyddiau byddai pawb a ddeuai yma'n gweithio ac yn talu am ei gadw'. Ymddengys fod hyn hefyd yn ffactor yn y modd y caiff newydd-ddyfodiaid eu derbyn yn ddidrafferth yn ardal ddosbarth-canol Llandaf lle mae pawb yn gweithio ac yn talu'u trethi ac yn Cathays/Y Rhath lle deallir fod poblogaethau'r myfyrwyr dros dro yn perthyn i'r dosbarth canol mewn un ystyr, yn boblogaeth sydd 'ar daith' ac felly heb fod yn fygythiad, er y gallant fod yn dlawd am gyfnod ac yn niwsans (yn swnllyd, yn feddw, neu'n anniben/yn flêr). Ymddengys yn arwyddocaol hefyd fod grwpiau sy'n cyflogi'u hymfudwyr eu hunain, fel y Tsieineaid, mewn crefftau sy'n perthyn yn benodol i'r grŵp ethnig megis arlwyo, yn syml yn anweladwy i weddill y boblogaeth. Dywedodd un ffoadur a chanddo gymwysterau proffesiynol, ac a oedd o bosib yn fwy sylwgar wrth ystyried y cyd-destun derbyn yn y DU na rhai polisïau gan y Llywodraeth, wrthym mai 'gwaith yw diddordeb pobl yn y DU. Os na allwch gyfranogi ni allwch byth fod yn integredig'. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â mathau arbennig o bolisïau gan Lywodraeth y DU yng nghyswllt ceisio lloches sy'n gwrthod yr hawl i geiswyr lloches weithio.

Symudoledd cymdeithasol a dosbarth cymdeithasol

Mae ymchwil ddiweddar wedi dadwneud myth o ran symudoledd cymdeithasol sydd wedi'i fwriadu i wneud i ni gredu ein bod i gyd bellach, neu y gallwn ddyheu am fod, yn rhan o'r dosbarth canol (Mathieu, 2007; Root, 2007). Ymddengys fod symud o gyd-destun ethnig lleiafrifol i'r dosbarth canol yng Nghaerdydd o leiaf gyn anodded â symud o ystad ddosbarth-gweithiol i'r dosbarth canol (Williamson, 2004), ac mae hyn i'w weld fel pa bai'n gysylltiedig nid yn unig â hil neu ethnigrwydd, ond â thlodi, lle yn y ddinas a'i gysylltiadau â dosbarth mewn ffyrdd nad oes llawer o ddealltwriaeth amdanynt nac ymchwil wedi'i gwneud iddynt. Unwaith y mae pobl wedi'u lleoli mewn ardal 'amddifadus' yn y ddinas, cânt eu hadnabod yn ôl y cod post, mae ganddynt fynediad at fathau penodol o ysgolion yn unig, maent yn dysgu siarad (yn gyflym iawn yn achos plant sy'n ceisio lloches) ag acenion dosbarth-gweithiol Caerdydd, ac maent yn mabwysiadu'r anianawd, ffordd ymgorfforedig o fod a gwneud a meddwl, a ganfyddir gan eraill fel ymddygiad sy'n nodweddiadol o'r 'dosbarth gweithiol'. Maent wedyn yn ymddangos i eraill fel eu bod yn perthyn i'r dosbarth gweithiol hyd yn oed os yw eu meddyliau eu hunain yn rhywle arall. Ar yr adeg hon mae'r un mor anodd iddynt symud allan o neu'r tu hwnt i'r lle hwnnw ag ydyw ac a fu erioed i'r dosbarth gweithiol gwyn ym Mhrydain symud allan o ystadau cyngor.

Mae cryn dipyn o dystiolaeth yn ein data bod athrawon yn gwahaniaethu yn erbyn plant ethnig lleiafrifol ar sail hil a dosbarth, gan ystyried nad oes ganddynt ond y gallu i fod ag uchelgeisiau dosbarth-gweithiol, a chan eu hargymell i beidio â bod â dyheadau rhy uchel. Meddai menyw Somalïaidd ifanc wrthym:

> Ac mae pobl yn cymryd yn ganiataol, wyddoch chi, nad oes diddordeb gan y rhieni mewn addysg, nad yw'r plant yn dymuno dysgu, ac mae llawer o agweddau felly, sy'n deillio o'r ysgolion, wyddoch chi.

Dywedodd rhai wrthym am y ffordd yr oedd athrawon wedi darbwyllo plant ethnig lleiafrifol pan oeddent am astudio pynciau anodd megis meddygaeth ac fe sonion nhw am athrawon yn gwrthod gadael i fyfyrwyr galluog geisio gwireddu'u huchelgeisiau, neu'n peidio â'u hannog i geisio. Meddai un arall wrthym:

> … ac mae wir yn fy mrifo pan af i – pan fy mod yn eistedd gyda fy chwaer yno ac yn gwrando ar yr athro hwn yn dweud: 'Mae'n well i *ti [beidio â gwneud gwyddoniaeth]'*.

Mae nifer o rieni Somalïaidd wedi mynegi'u dicter am hyn. Hyd yn oed pan fo gan bobl raddau prifysgol, mae'r symudiad hwnnw o'r dosbarth gweithiol i'r dosbarth canol yn anodd. Mae diffyg cyflogaeth yn dal i fodoli ar gyfer ymfudwyr ail-genhedlaeth a thrydedd-genhedlaeth a chanddynt gymwysterau trydyddol, yn enwedig o'r gymuned Somalïaidd yn ein sampl ac mae'n tystiolaeth ni'n awgrymu bod hyn yn cael effaith negyddol ar y genhedlaeth nesaf nad ydynt wedyn yn gweld unrhyw ddiben mewn ymdrechu i fynd i'r brifysgol 'os yw pawb yn gyrru tacsis yn y pen draw'. Rydym ni'n amau bod cysylltiad agos iawn mewn gwirionedd rhwng yr hyn a elwir yn hiliaeth gan y rhai â graddau sydd wedi methu â chael swyddi a gwahaniaethau seiliedig-ar-ddosbarth yn ogystal â gwahaniaethau diwylliannol o ran y disgwyliadau. Dywedwyd wrthym fod cyflogwyr yn dal i fod ag angen addysg am wahaniaeth diwylliannol a bod y gymuned ac arweinwyr cymunedol weithiau'n gweithredu fel rhwystr rhwng aelodau o'r gymuned a chyflogaeth. Mae arweinwyr yn dadlau, pan fo swyddi'n cael eu cynnig, bod aelodau'n cael eu gwthio i mewn i alwedigaethau â chyflogau isel. Cyfeiriodd y cyfweleion at enghreifftiau pan fod cynlluniau penodol ar gyfer 'gwahaniaethu cadarnhaol' wedi cael eu crybwyll a chwmnïau clodwiw wedi bod yn barod i fod yn rhan o'r cynllun, ond y bydd 'rhai o gynrychiolwyr y gymuned yn troi'u trwynau ar y syniad, ac yn ei atal rhag cael ei weithredu'. Ceir diffyg dealltwriaeth ar y ddwy ochr am yr hyn sy'n gyfystyr â 'chyflogadwyedd' ac ymddengys fod hyn yr un mor wir am gymunedau dosbarth-gwyn fel Merthyr ag ydyw am grwpiau ethnig lleiafrifol yn Butetown.

Ar y llaw arall, mae mentrau mwy diweddar i'w cael gan, er enghraifft, y Gymdeithas Integreiddio Somalïaid a Women Connect First, i enwi dwy fenter yn unig, sy'n cynnwys gweithwyr cymunedol dosbarth-gweithiol yn trafod cynlluniau mentora a phrofiad gwaith gyda chyflogwyr mawr er mwyn pontio'r bylchau hyn o ran diwylliant, dosbarth a phrofiad ac i ddarparu'r cyfalaf 'diwylliannol' a 'chymdeithasol' a fyddai'n gwneud i gyflogwyr dosbarth-canol gydnabod pobl fel rhai sy'n 'barod ar gyfer cyflogaeth' ac yn gallu dyheu am swyddi dosbarth-canol.

Mae'n beth addysgiadol canfod nad yw Tsieineaid hyddysg, sy'n byw mewn maestrefi dosbarth-canol ac yn mynd i ysgolion da, yn profi'r anhawster hwn. Mae Tsieineaid heb addysg, o gefndiroedd gwerin, sy'n gweithio yn y diwydiant arlwyo Tsieineaidd, yn ei chael bron yn amhosib symud yn unrhyw gyfeiriad. Nid yw grwpiau llai a sefydlwyd yn ddiweddar iawn, megis y Swdaneaid neu'r Iraciaid yng Nghaerdydd, os ydynt wedi cael addysg dda ac yn siarad Saesneg yn rhugl, yn cael eu hystyried yn dlawd nac yn rhan o'r dosbarth gweithiol, ac nid ydynt hwy'n eu hystyried eu hunain felly, hyd yn oed pan fyddai amgylchiadau'n dynodi bod y ddau ddiffiniad yn berthnasol iddynt. Ymddengys fod cefndir o ran dosbarth yn ogystal â hunan-hyder a chyfalaf cymdeithasol yn cyfrif mwy yn yr achosion hyn na thlodi neu hil/ethnigrwydd.

Ar y llaw arall, mae gan gymunedau dosbarth-gweithiol ar ystadau tai ym Merthyr agweddau ac anawsterau (gan gynnwys agweddau o ran yr hyn sydd 'y tu allan' i'r gymuned) tebyg i rai Somalïaid neu i'r Yemenïaid yng Nghaerdydd. Mae'r unig gymunedau clos o'r math traddodiadol â ffiniau daearyddol, yn y sampl hwn, i'w cael ar ystadau tai dosbarth-gweithiol ym Merthyr Tudful. Maent hefyd gyda'r grwpiau mwyaf gwahanedig yr ydym wedi gweithio gyda hwy o ran eu bod wedi byw yno trwy gydol eu bywydau, nad ydynt yn gallu dychmygu symud, a'u bod yn ystyried Caerdydd bron fel lle 'tramor'. Maent yn teimlo'n ddi-rym yn wleidyddol ac yn nhermau dangosyddion integreiddio eraill, maent yn ddi-waith, heb gymwysterau ac i'w gweld fel pe baent yn dal dig yn erbyn mewnfudwyr. Bu i bobl ifanc yn enwedig fynegi agweddau a oedd yn ymosodol hiliol.

Y grŵp o bobl ifanc 11–15 mlwydd oed a fynegodd y safbwyntiau mwyaf eithafol ynghylch gweithwyr mudol Portiwgeaidd. Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn ei ddrwghoffi ynglŷn â Merthyr, fe waeddon nhw 'Portiwgeaid'. Pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddent yn eu hoffi, dywedasant eu bod yn drewi. Efallai eu bod yn cyfleu agweddau'r boblogaeth ehangach ym Merthyr heb yr hunansensoriaeth a ddefnyddir gan oedolion. Neu efallai fod derbyniad gan y grŵp yn bwysicach iddynt hwy nag oedolion. Cynigiodd eraill y sylwadau canlynol:

Rwy'n eu casáu. Maent wastad yn aros o gwmpas y lle gyda chyllyll ac mae hynny'n hala'r crud arna i.

Cyfwelydd: A oes rhai yn eich ysgol o gwbl?

Ymatebwr: Nac oes! Diolch i Dduw!

Cyfwelydd: Beth sy'n eich poeni gymaint amdanynt?

Ymatebwr: Maent yn cymryd ein tref drosodd! Mae mwy a mwy ohonynt drwy'r amser. Cyn bo hir bydd mwy ohonynt hwy nag ohonom ni.

Cyfwelydd: Beth sydd o'i le ar hynny?

Ymatebwr: Mi fyddant yn dweud wrthym ni beth i'w wneud a chanddynt hwy fydd y swyddi i gyd ... byddwn ni'n weision iddynt!

Roedd lefel isel o fodlonrwydd ym Merthyr ar yr holl wasanaethau ym mhob grŵp. Y bobl oedd yn byw ar ystadau oedd fwyaf croch o ran eu cwynion am y cyngor, y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu:

> Mae'r adran tai'n ei defnyddio *[yr ystad]* fel tomen ar gyfer ysbwriel *[teuluoedd sy'n peri problem]* ac mae'r gwasanaethau cymdeithasol yma wedyn yn gwneud pob math o bethau drostynt. Fe symudodd teulu newydd i mewn pa ddiwrnod – rhiant sengl, pump o blant – does neb yn ei hadnabod, mae o rywle arall – ac o fewn oriau roedd y gwasanaethau cymdeithasol yno a'r adran tai, yn gosod ffens newydd, yn clirio'r gerddi ... fe gafodd bopeth y gallech chi ei enwi!

Mae'r mathau hyn o adroddiadau'n cynrychioli ochr arall yr hanesion a glywsom yng Nghaerdydd gan deuluoedd ethnig lleiafrifol y cynigiwyd tai iddynt ar ystadau fel y rhain ac a oedd yn deall sut beth oedd cael eu hystyried yn 'ysbwriel'. Ymddengys yn glir iawn yn ein tystiolaeth bod yn rhaid i bobl fod â hunan-hyder yn eu sicrwydd economaidd eu hunain a chryn dipyn o gyfalaf cymdeithasol er mwyn sicrhau goddefgarwch.

Gwahaniaeth rhwng dosbarthiadau mewn amgylcheddau dosbarth-gweithiol

Mae byw mewn amgylcheddau dosbarth-gweithiol amddifadus yng Nghaerdydd yn dwyn canlyniadau eraill o ran integreiddio a chydlyniant cymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn mae'r ymfudwyr newydd y siaradom ni gyda hwy'n dirnad bod rhyw gyfuniad i'w gael o droseddu, cyffuriau a chamddefnyddio alcohol ymhlith pobl ifanc, plant yn eu harddegau'n cael gormod o ryddid cymdeithasol a rhyddid o ran rhyw, achosion o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, a diffyg parch cyffredinol tuag at eini a'r henoed (gweler hefyd yr adran 'Ofnau rhieni ynghylch hiliaeth a diwylliant Prydain' ym Mhennod 4). Mae hyn yn gyson â'r hyn a gaiff ei ddirnad yn anwybodaeth am ddiwylliannau eraill a hiliaeth mewn ysgolion yn yr ardaloedd amrywiol iawn hyn (gyda rhai eithriadau nodedig sy'n ymwneud ag arfer da). Nid yw'n syndod felly os yw ymfudwyr newydd, pa un a ydynt yn famau Somalïaidd sengl sy'n ceisio lloches ac yn byw mewn tlodi, yn deuluoedd Mwslimaidd trydedd-genhedlaeth o ba bynnag gefndir ynteu'n grwpiau sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar iawn o Swdan, Irac neu Yemen, neu'n breswylwyr Tsieineaidd neu Somalïaidd Prydeinig, yn gweld yr angen i ddiogelu'u plant rhag y dylanwadau hyn (fel yn wir y mae rhieni dosbarth-canol yn Llandaf a rhieni dosbarth-gweithiol ym Merthyr). Mae hyn yn arwain at bersbectif tra gwahanol ar 'fywyadau cyfochrog' (yn STAR ac ymhlith rhieni Somalïaidd ac Arabaidd).

Mae alcoholiaeth a chamddefnyddio alcohol yn fater difrifol yng Nghymru (Coles, 2006), ac mae'r pryder a geir trwy'r ymchwil ynghylch y diwylliant tafarndai a goryfed yng Nghymru'n fwy nag yn fater crefyddol ymhlith Mwslimiaid. Mae a wnelo â dymuniad i osgoi'r rhysedd a'r dylanwadau gwaethaf yn yr amgylchedd newydd a chynnal yr elfennau gorau o'r diwylliannau y daw'r bobl ohonynt ac y maent yn dal i fod â chysylltiad agos â hwy. Dim ond y Tsieineaid ymhlith ein hymatebwyr sydd weithiau'n ceisio ymuno â'r diwylliant tafarndai a chymdeithasu yma, ond dim ond y rheiny sy'n perthyn i'r dosbarth canol mewn ardal ddosbarth-canol (Llandaf), ac maent yn hapusach mewn casino ymhlith Tsieineaid eraill. Ar ben hynny, ychydig o dystiolaeth sydd yn ein hymchwil o dafarndai yng Nghaerdydd yn croesawu unrhyw fath o wahaniaeth gweladwy. Mae hyn yn achosi canlyniad cyfochrog gan arwain, ymhlith grwpiau lleiafrifol, at stereoteipio diwylliant Prydain fel un sydd wastad yn gysylltiedig â thafarndai ac alcohol, ac weithiau'n cynnwys carfannau o bobl ifanc hiliol a throseddol. Dyma'r hyn y mae pobl yn ei brofi ac yn ei weld, neu'n clywed amdano, yn yr ardaloedd amddifadus y maent yn byw ynddynt, ac yn fwy diweddar yn y cyfryngau. Nid yw'r canfyddiadau hyn o gymorth i integreiddio na chydlyniant na chynhwysiant. Ac maent yn gysylltiedig â'r gwahaniaeth rhwng dosbarthiadau a disgwyliadau yn gymaint ag y maent yn gysylltiedig â gwahaniaeth crefyddol a diwylliannol rhwng y poblogaethau y gweithiom ni gyda hwy. Mae gweithwyr

proffesiynol addysgedig a Mwslimiaid ymrwymedig, yn ogystal â theuluoedd dosbarth-gweithiol ar ystadau tai, i gyd yn hoff o warchod eu plant neu'u hwyrion rhag y rhysedd canfyddedig sy'n gysylltiedig ag agweddau ar ddiwylliant dosbarth-gweithiol yng Nghymru.

Addysg a chynhwysiant

Y Swdaneaid yw'r prif grŵp sy'n dioddef dau fath o wahaniaethu fel y mae'r Somalïaid, sef Islamoffobia a hiliaeth. Mae'r grŵp yn wahanol iawn i'r gymuned Somalïaidd, fodd bynnag, ac yn cael profiadau gwahanol o Gaerdydd. Mae'r mwyafrif yn rhai a gyrhaeddodd yn ddiweddar iawn, a hwythau wedi dianc o Swdan ar ôl 1989 fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Eto mae'r Swdaneaid yn anarferol o ran y ffaith mai ychydig iawn o broblemau gyda gwahaniaethu a nodir ganddynt. Maent hefyd yn grŵp anarferol o ran lefel yr addysg y maent wedi'i derbyn: mae '99%' wedi derbyn addysg, yn ôl un arweinydd cymunedol, a hynny'n aml i lefel drydyddol, mewn prifysgolion sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Daeth y rhan fwyaf o gefndir dosbarth-canol. Roedd yr holl Swdaneaid a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn siarad Saesneg yn ardderchog, gan fod yn hawdd i'w deall i siaradwr Saesneg brodorol, ac mae hyn yn amlwg wedi cael effaith fawr ar eu gallu i ryngweithio â'r Prydeinwyr a'r ymdeimlad o gysur y maent yn ei gael yng Nghymru o ganlyniad. A dweud y gwir, mae rhai'n mynnu nad oes hiliaeth i'w chael yng Nghymru:

> Yng Nghaerdydd mae'u triniaeth yn esmwyth iawn, dim problemau o gwbl ac ar y cyfan nid yw'r Cymry'n hiliol nac yn drahaus. Efallai fod y broblem yn bodoli mewn ardaloedd eraill ym Mhrydain ond nid yng Nghymru.
>
> Mae'r rhagdybiaeth negyddol mewn perthynas â'r ffoadur neu'r tramorwr a grybwyllwyd gan rai o'r bechgyn yn fach iawn. Ar y cyfan yng Nghaerdydd maent yn arbennig iawn. Rwy'n byw erbyn hyn mewn ardal o'r enw Y Tyllgoed, a chyn hynny roeddwn yn byw mewn ardal arall a doeddwn i ddim yn teimlo fel dieithryn yn yr ardal wrth ymwneud â'i phobl.

Eto mae Swdaneaid eraill wedi cael profiad gwahanol, yn enwedig ar ôl 7/7. Mae grwpiau ffocws gwrywaidd a benywaidd yn siarad am ddigwyddiadau hiliol y bu iddynt eu dioddef, ond yn siarad amdanynt fel digwyddiadau unigol yn hytrach nag fel problem gyda'r gymdeithas ym Mhrydain neu yng Nghymru. Mae un gŵr sy'n byw yn Grangetown yn siarad am ei 'gymydog hiliol' a arferai alw'r heddlu a chwyno amdano'n rheolaidd am resymau 'gwirion' (gan dybio hefyd mai Somaliad ydoedd):

> O'r diwrnod cyntaf dechreuodd yr achosion o gael fy mhoenydio gan fy nghymydog a ddaeth allan o'i dŷ â golwg ddirmygus ar ei wyneb. Er mwyn tawelu pethau dechreuais trwy ddweud helo ond ni atebodd, yn wahanol i'm cymydog arall a oedd yn barod iawn i helpu ac yn gyfeillgar. Ar fy ail ymweliad â'r tŷ gyda fy allweddi fe'i gwelais eto ac meddai: 'Beth wyt ti'n ei wneud yma?' Atebais: 'Rwyf yn fy nghartref.' Ac meddai yntau: 'Nac wyt, rwyt ti yn y DU.' Felly dywedais: 'Beth bynnag yr ydwyf yn ei wneud, rwy'n gymydog i ti.' Ac meddai yntau: 'Cer yn ôl i Somalia.' Ac fe atebais: 'Dydw i ddim yn dod o Somalia, a phe bait yn ymdawelu byddet yn dod o hyd i gymydog da iawn.' Gwaeddodd: 'Na, dydw i ddim am ymdawelu, rwyf am i ti fynd yn ôl i Somalia.' Ac fe barhaodd ei boenydio bob dydd, er enghraifft pe bawn yn parcio fy nghar 10cm yn agosach at ei le parcio ef, byddai'n ffonio'r heddlu ac fe wnaeth hynny bedair gwaith. Cofnododd yr heddlu'r digwyddiadau ac fe hysbyswyd y Cyngor.

Yn wahanol i grwpiau a chanddynt lefelau addysg isel a sgiliau Saesneg gwael, megis yr Yemenïaid, mae'r Swdaneaid wedi gallu sicrhau arian ar gyfer ysgol ar benwythnosau i addysgu astudiaethau Arabeg ac Islamaidd, ac maent i'w gweld yn fodlon ar lefel y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn ar y cyfan gan awdurdodau statudol. Pan eu bod yn derbyn gwasanaeth gwael (er enghraifft, yn aros am hir i gael llawdriniaeth), maent yn credu mai felly y mae hi i bawb, yn hytrach na'u bod yn dioddef gwahaniaethu fel yr oedd y Congoliaid yn STAR, er enghraifft, yn ei gredu. Fodd bynnag, er gwaethaf eu gallu i ryngweithio trwy siarad Saesneg, mae Caerdydd yn dal yn ddiwylliant gwahanol iddynt:

> Ydy, mae'n galed iawn hyd yn oed pan eich bod yn siarad yr iaith ... Ond mae'r anhawster o ran integreiddio i'r system yn dal i fod. Fyddech chi ddim yn gwybod ble i ddechrau na sut i fynd i mewn i'r gymdeithas wahanol hon.

Eithrio cymdeithasol, tlodi a dosbarth

> Er ei bod yn draddodiadol yn ardal ddosbarth-gweithiol â phobl wyn yn byw ynddi, mae Merthyr Tudful yn enghreifftio nifer o'r achosion o gael eu heithrio ar sail dosbarth cymdeithasol a brofir gan ymfudwyr newydd.

Astudiaeth achos: Merthyr Tudful

Roedd y rhan fwyaf o bobl y cyfwelwyd â hwy wedi cael eu 'geni a'u magu' ym Merthyr Tudful ac wedi byw yno trwy gydol eu bywydau. Roedd ambell un wedi byw yn rhywle arall (yn anaml y tu allan i Gymru), a hwythau wedi symud i gael gwaith, ond roeddent wedi dychwelyd o fewn pum mlynedd, llai gan amlaf. Roedd nifer fechan o'r cyfranogwyr yn Saeson neu'n Wyddelod ac wedi symud i Ferthyr o ganlyniad i briodi.

Ar y cyfan, roedd hi'n ymddangos bod anfodlonrwydd cryf ar lefel y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu a'r modd yr oeddent yn cael eu darparu.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn siarad am ddiogelwch. Roedd y bobl a oedd yn byw ar ystadau'n poeni ynghylch y defnydd eang o gyffuriau a pha mor hawdd ydoedd cael gafael arnynt. Roeddent o'r farn mai'r diwylliant cyffuriau a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau oedd yn bennaf gyfrifol am ddifetha'u hystadau. Roeddent hefyd yn pryderu ynghylch y lleiafrif o 'bethau ifanc' a oedd yn achosi fandaliaeth ddisynnwyr. Roeddent yn gefnogol i ddychwelyd at gosb gorfforol mewn ysgolion ac yn gresynu at y ffaith bod plant a phobl ifanc wedi colli parch at rai hŷn. Siaradai'r bobl oedrannus yn bennaf am y dirywiad mewn moesau a'r diffyg parch at awdurdod ac roeddent i'w gweld yn hapus i aros o fewn terfynau'u llety gwarchodol lle'r oedd pethau'n mynd rhagddynt yn llyfn a lle'r oedd pobl yn gwrtais:

> Fydda i ddim yn mynd allan oni bai fod rhaid i mi. Mae arnaf ofn. Fydda i byth yn mynd allan ar fy mhen fy hun, yn ystod y dydd nac yn ystod y nos. Mae popeth y mae arnaf ei angen gennyf yma, ac mae fy nheulu'n dod i'm gweld – rydw i'n iawn ... Mae'n hyfryd yma. Mae pawb yn neis, yn gwrtais iawn, beth bynnag. Mae popeth fel y dylai fod.

Roedd y bobl a oedd yn byw mewn hostel yn grŵp diddorol iawn a oedd yn cynnwys deg o ddynion a chanddynt gefndir o ddefnyddio cyffuriau, troseddu a bod yn y carchar. Siaradent am yr anawsterau sy'n gysylltiedig â throi dalen newydd pan eu bod yn byw mor agos at y bobl a arferai werthu cyffuriau iddynt a'u cyn-elynion, a chyda'r heddlu'n eu stopio byth a beunydd:

> Allwch chi ddim mynd i lawr i'r dref heb helynt .. maen nhw *[gwerthwyr cyffuriau]* yn dod atoch drwy'r amser, yn ceisio'ch torri ... bastardiaid ydynt.

(Parhad)

> Mae'n ofnadwy; maen nhw'n eich stopio am ddim rheswm o gwbl. Y cwbl yr oeddem yn ei wneud oedd sefyll ar bwys car pa ddiwrnod, yn siarad – doeddwn i ddim hyd yn oed wedi sylwi ar y car – ac fe stopion nhw *[yr heddlu]*. 'Ewch oddi yma,' meddai, 'a dydw i ddim am eich gweld ym mhen uchaf y dref, peidiwch ag anghofio hynny.' Rwy'n byw ym mhen uchaf y dref! Ac felly y mae hi, drwy'r amser.

Yn hyn o beth, mae eu hadroddiadau'n debyg iawn i'r hanesion a glywsom gan ddynion duon ifanc yng Nghaerdydd. Mae'n rhaid i ni gymryd yn ganiataol yn hyn i gyd nad y cyfweleion yw'r 'rhieni' sy'n cael eu beio am y bobl ifanc afreolus ond bod y rhieni hynny'n perthyn i'r genhedlaeth sydd â phlant o'r oedran cywir i fod yn achosi'r mathau o broblemau a ddisgrifir. Mae'n werth nodi bod sôn wedi bod am ddigwyddiadau yn STAR sy'n debyg i'r achos o daflu cerrig at fenyw oedrannus a bod y cerrig yn cael eu taflu at yr ymfudwyr newydd Tsiecaidd a Somalïaidd. Sonnir am fandaliaeth a throseddau sy'n ymwneud â cheir yn yr holl ystadau tai yng Nghaerdydd, a'r rheiny'n cael eu priodoli'n bennaf i bobl ifanc wyn ond weithiau i grwpiau ethnig eraill. Roedd rhieni Somalïaidd a Tsiecaidd hefyd yn beio rhieni'r plant a'r bobl ifanc. Yr unig wahaniaeth yw bod y bobl ddosbarth-gweithiol hyn ym Merthyr am i'r heddlu allu ymdrin â'r broblem.

Roedd bron pawb yn nodi bod Merthyr Tudful yn ffynnu ac yn nodi nifer o ddatblygiadau a gwelliannau diweddar yn y dref. Roedd ymdeimlad y byddai'r mentrau newydd hyn yn dod â phobl i Ferthyr Tudful a fyddai'n ailfywiogi'r dref ond roedd ymdeimlad hefyd y byddai rhywun arall yn elwa o'r mentrau hyn yn hytrach na'r bobl yr oeddem yn siarad gyda hwy. Roedd ymdeimlad y byddent hwy eu hunain yn cael eu heithrio am eu bod yn rhy hen neu'n rhy dlawd i gyfranogi. Mae tebygrwydd rhwng y sylwadau hyn a'r ymdeimlad a gewch yn Butetown eich bod wedi'ch amgylchynu gan ddatblygiadau newydd na allwch mo'u rhannu.

> O, mae'n wych *[y datblygiad manwerthu newydd]* ... ond mae'n rhaid bod gennych arian onid oes? Fyddwn ni ddim yn mynd yno! Aiff yr hen giro ddim yn bell yn y fan honno!

Gofynasom i bobl leol am Gaerdydd – pa mor aml yr oeddent yn ymweld, pa un a ydynt yn hoff o'r lle a.y.b. – er mwyn canfod i ba raddau y byddent yn gadael Merthyr ac i ba raddau y maent yn diffinio'u hunaniaeth mewn cyferbyniad â Chaerdydd. Bu i bron pob un o'r cyfranogwyr fynegi anhoffter eithafol o fynd i Gaerdydd oherwydd eu safbwyntiau negyddol am bobl Caerdydd. Yr unig grŵp

(Parhad)

a ddywedodd eu bod yn hoffi Caerdydd ac y byddent yn hapus iawn i fyw yno oedd y grŵp o'r hostel. Cyfeiriodd pob un ohonynt at y lefel uwch o gyfleusterau ar gyfer pobl ddigartref yng Nghaerdydd. Gallai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr gyfrif ar un llaw faint o weithiau yr oeddent wedi ymweld â Chaerdydd. Nid oedd cwpl o'r bechgyn digartref ifancach erioed wedi bod. Doedd y bechgyn eraill ddim wedi bod fwy na dwywaith. Nid oedd menyw 34 mlwydd oed o ystad Gurnos erioed wedi bod. Roedd un o'r menywod hŷn a oedd yn byw mewn llety gwarchodol wedi gyrru tacsi yng Nghaerdydd am flynyddoedd ac roedd wrth ei bodd yn gwneud hynny:

> Rwy'n gweithio i lawr yno gryn dipyn a dim ond hanner awr i ffwrdd ydyw ond mae'n hollol wahanol. Mae'r bobl yn wahanol. Eu holl agwedd tuag at fywyd ... Maen nhw'n faterol iawn.
>
> Mae Caerdydd yn rhy fawr ac yn rhy gyflym ac mae'r bobl yn anghyfeillgar. Dydyn nhw ddim fel ni. Mae'n gas gen fod i lawr yno.
>
> Cymry Seisnig ydynt onide? Roeddwn i yn yr ysbyty i lawr yno am chwe mis gyda phobl a staff nyrsio Caerdydd – roeddent yn oeraidd, yn oeraidd iawn. Roeddwn yn arfer beichio crïo.

Pwyntiau i grynhoi

- Mae dosbarth cymdeithasol yn ffactor allweddol ac un nad yw'n cael ei gydnabod yn ddigonol sy'n cyfrannu at y ffordd y mae ymfudwyr newydd yn ymdrin ag ymfudiad a'r ffordd y mae cymunedau sefydlog ac ymfudwyr newydd yn rhyngweithio.

- Er bod ymfudiad dosbarth-canol (gan bobl wyn yn enwedig ond nid ganddynt hwy yn unig) yn bennaf yn anweladwy, nid felly y mae hi gydag ymfudiad (yn enwedig pan ei fod yn cynnwys gwahaniaeth gweladwy neu ieithyddol) i mewn i gymunedau dosbarth-gweithiol amddifadus.

- Mae tystiolaeth sylweddol bod gallu ymfudwyr newydd i weithio'n cael ei ystyried yn ffafriol gan boblogaethau sefydlog a'i fod o gymorth i'r broses integreiddio; ond nid yw'r profiad o'r gweithle'n gadarnhaol nac yn gydlynol bob amser.

- Cyfyngir ar symudiad rhwng dosbarthiadau cymdeithasol gan yr amodau amddifadus a'r tlodi y mae ymfudwyr newydd yn eu cael eu hunain ynddynt, fel sy'n digwydd yn achos cymunedau dosbarth-gweithiol sefydlog mewn ardaloedd sy'n debyg o ran lefel yr amddifadedd.

- Mae ymfudwyr newydd a chymunedau dosbarth-gweithiol sefydlog yn cyflwyno tystiolaeth o wahaniaethu a rhagfarn yn eu disgrifiadau o'r modd y cyflenwir gwasanaethau, gan gynnwys addysg, cyflogaeth, plismona, gofal iechyd a thai.

- Gall ymfudwyr newydd ei chael yn anodd integreiddio i mewn i amgylcheddau dosbarth-gweithiol y maent yn eu cael yn fygythiad i'w gwerthoedd diwylliannol a'u ffyrdd o fyw, tra bod ardaloedd dosbarth-canol hefyd yn dod ynghyd i gau amddifadedd allan o'u lleoedd eu hunain.

- Mae'r gwahaniaeth rhwng dosbarthiadau'n fater yr un mor bwysig o fewn cymunedau ag ydyw ar draws cymunedau, yn enwedig mewn grwpiau cymhleth mawr megis y Somaliaid a'r Tsieineaid. Yr hyn sy'n glir yw bod cefndir o ran dosbarth (gan gynnwys addysg dda a Saesneg rhugl) yn gwneud gwahaniaethau mawr i'r ffordd y mae pobl yn ymateb i'r profiad gydag ymfudiad, i dlodi a hyd yn oed i hiliaeth, yn ogystal ag i'r ffyrdd y mae cymunedau sefydlog yn derbyn ymfudwyr newydd. Mae profiad y gymuned Swdaneaidd fechan yn enghraifft o hyn.

4 Rhwystrau i gynhwysiant a chydlyniant cymunedol

Rydym eisoes wedi archwilio'r rôl y gall tlodi a dosbarth cymdeithasol ei chwarae o ran galluogi neu atal cynhwysiant mewn perthynas ag ymfudwyr newydd a grwpiau dosbarth-gweithiol sefydlog. Fodd bynnag, roedd amodau eraill a oedd yn ei gwneud yn anodd i ymfudwyr gael eu cynnwys, neu deimlo bod ganddynt fynediad cyfartal at adnoddau a chyfleoedd; roedd rhai o'r ffactorau hyn yn allanol, yn cael eu gorfodi gan yr amgylchiadau yr oedd ymfudwyr yn eu cael eu hunain ynddynt, ac roedd y rhain ar y cyfan yn cael eu tanategu gan hiliaeth a gwahaniaethu. Roedd rhwystrau eraill yn ymwneud yn fwy ag ofnau a phryderon cymunedau a grwpiau eu hunain.

Hiliaeth a gwahaniaethu

Ym mhob un o'r cymunedau a'r grwpiau lleiafrifol y daethpwyd ar eu traws yn y prosiect hwn, dengys canfyddiadau ein hymchwil fod hiliaeth, hiliaeth sefydliadol a gwahaniaethu'n ffactorau arwyddocaol o ran achosi eithrio cymdeithasol, ac atal integreiddio economaidd a chydlyniant cymunedol. Mae gwahaniaethu ar sail hil ac ar sail dosbarth yn atal pobl rhag mwynhau eu hawliau sifil llawn a chyfranogi'n llawn yn y gymdeithas, yn arwain at gyflenwi gwasanaethau mewn ffordd wael ac yn cadw pobl rhag teimlo'u bod yn perthyn. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod hyn yn creu isddiwylliannau wedi'u hymleiddio lle daw pobl i deimlo, ar y gorau, rhwystredigaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd iddynt ac, ar y gwaethaf, anobaith, a lle maent yn mynegi ofn gwirioneddol ynghylch gadael eu cymunedau i fynd i amgylchedd lle mae'r mwyafrif o'r bobl yn wyn.

Pan ofynnwyd i un grŵp ffocws Somalïaidd a oedd yn gymysg o ran rhyw a oeddent yn teimlo'n ddiogel yng Nghymru, dywedasant yn gyntaf eu bod ac wedyn aethant ati i fyfyrio ar y lleoedd nad ydynt yn teimlo'n ddiogel ynddynt:

Ymatebydd 1 (gwryw): Rwyf wedi bod yng ngorsaf drenau Abertawe ar nos Wener – doedd hynny ddim yn braf. Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel yn mynd ar fy mhen fy hun er enghraifft i dref fechan yng Ngogledd Cymru.

Ymatebydd 2 (benyw): Nid yn y cymoedd. Mae pobl yn syllu arnoch.

Ymatebydd 3 (gwryw): Mewn ardal sy'n cynnwys pobl wyn yn bennaf efallai na fyddwch yn teimlo'n ddiogel.

Ymatebydd 1 (gwryw): Yn amlwg mae adegau megis Gorffennaf 7 – fe gododd fraw ar bawb – a doedd neb yn teimlo'n gyfforddus.

Ymatebydd 2 (benyw): Hyd yn oed wrth fynd i ganol y dref, byddem yn mynd mewn parau, a ninnau'n weladwy, roedd eich hunaniaeth fel Mwslim mor amlwg *[ar ôl 7/7]*.

Gofynasom i bobl am eu profiadau mewn perthynas â dangosyddion integreiddio economaidd a chymdeithasol allweddol, megis Saesneg, cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, tai, addysg, cyflogaeth, gofal iechyd, plismona a diogelwch cymunedol. Soniwyd am hiliaeth a gwahaniaethu ac/neu fynediad a darpariaeth annigonol ym mhob grŵp lleiafrifol ym mhob un o'r cyd-destunau hyn. Mae'n werth cofio (gweler Pennod 3 uchod) bod gan gymunedau sefydlog sy'n byw ar ystadau tai ym Merthyr gwynion tebyg. Yn eu hachos hwy, ystyrid mai tlodi, amddifadedd a dosbarth cymdeithasol, nid hil, oedd yr achosion.

Er gwaethaf hyn, roedd nifer o bobl y siaradom ni gyda hwy mewn gwirionedd yn hynod dawedog o ran galw pethau'n 'hiliol', yn enwedig ar ôl 7/7, gan geisio gwneud esgusodion bob amser a chan ddewis credu bod yr hyn a oedd wedi digwydd iddynt yn ddigwyddiad 'unigol'. Nid yw'r Yemenïaid, yn enwedig y rheiny sy'n byw yn Butetown, yn siarad am wahaniaethu na hiliaeth yn eu herbyn hwy eu hunain. Fodd bynnag, digwyddodd y digwyddiadau y maent hwy'n eu hystyried yn 'amhwysig' ar ôl y bomio ar 7/7 yn Llundain, fel yr eglura un fenyw:

> Pan ddigwyddodd y ffrwydrad yn Llundain roeddwn yn sâl yn yr ysbyty ac roedd cleifion a oedd gyda mi yn yr ystafell yn gwylio'r teledu. Ar ôl iddynt wylio'r newyddion, fe ddechreuon nhw edrych arnaf fel pe bawn i'n euog. Roedd ofn edrychiadau o'r fath arnaf. Felly gofynnais i'r meddyg am gael gadael yr ysbyty cyn gynted â phosib. Yr hyn nad oedd y cleifion hynny a'r bobl Brydeinig yn ei wybod oedd ein bod ni i gyd yn gofidio ac nid y bobl Brydeinig yn unig.

Dywedodd menywod a oedd yn gwisgo'r pensgarff fod pobl yn edrych yn ddrwgdybus arnynt pan oeddent yn cerdded ar y strydoedd ar ôl 7/7, ond eto dywedasant nad oedd hyn wedi effeithio ar eu perthynas â'u cymdogion. Siaradai rhai am ddigwyddiadau hiliol yr oedd eu plant wedi dod ar eu traws yn yr ysgol yn

yr un cyfnod. Fodd bynnag, ymddengys i ni fod yr union ffaith bod pobl wedi achub ar y cyfle ym mhob grŵp lleiafrifol y gweithion ni gyda nhw i ddweud wrthym am y digwyddiadau hyn yn awgrymu arwyddocâd digwyddiadau o'r fath i bobl sy'n ceisio ymaddasu ac ymgartrefu yn y lle newydd.

Wrth gwrs, mae materion hefyd oddi mewn i grwpiau sy'n gwneud cymunedau'n gaeedig ac yn fewnblyg. Yn yr adran sy'n dilyn byddwn yn trafod effeithiau'r materion hyn yn y gwahanol gymunedau y bu i ni ymchwilio iddynt.

Hiliaeth a chymunedau sefydlog traddodiadol Caerdydd

Mae aelodau (wedi ymddeol) o'r dosbarth gweithiol gwyn traddodiadol yn Cathays/Y Rhath yn fwy dig wrth eu cymdogion hirdymor sy'n bennaf yn Asiaidd nag ydynt wrth y myfyrwyr gwyn a'r gweithwyr mudol gwyn o Ddwyrain Ewrop sydd hefyd yn byw yn eu plith. Yn arbennig, nid ydynt yn hoffi gweld lleoedd y maent hwy'n eu hystyried fel eu 'rhai hwy eu hunain' yn cael eu 'cymryd drosodd' gan bobl o hil neu grefydd arall. Felly fe arweiniodd y penderfyniad i droi Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn Ysgol Gynradd Fwslimaidd Caerdydd, at y sylw canlynol:

> Mae'n drueni i'r rhai ohonom sydd wedi bod i'r ysgol pan ein bod yn ei gweld yn cael ei rhoi yn nwylo eraill fel yna ... Mae'n anodd gweld eich ysgol yn cael ei chymryd drosodd, ydy, mae'n fy mrifo bron.

Caiff hyn ei adleisio gan aelod o'r genhedlaeth ifancach, cyn-fyfyriwr a arhosodd yn yr ardal ar ôl graddio, mewn swydd ar lefel mynediad a allai arwain at yrfa ddosbarth-canol, mewn sylwadau am siop Asiaidd yn yr ardal:

> … mae'n debyg ei bod fel – siop i bobl Asiaidd yn unig. Hynny yw, dydw i ddim wedi clywed, dydyn nhw ddim wedi dweud hynny wrthyf – ac rwy'n gwneud ati i fynd i mewn bob hyn a hyn, er mwyn cael gwasanaeth ... ac mae'r bobl yn edrych yn hurt arnoch yno. Rydych yn teimlo nad oes croeso i chi.

Mae pobl Asiaidd (Pacistaniaid ac Asiaid) yn amlwg iawn yn yr ardal, ond nid oeddent yn rhan o'r astudiaeth hon.

Mynediad at waith a gwasanaethau

Dywedodd ceiswyr lloches a ffoaduriaid duon wrthym am wahaniaethu yn y farchnad waith a chan ddarparwyr gwasanaethau megis y GIG a'r heddlu. Disgrifiodd ffoadur Congolaidd gwrywaidd hierarchaeth 'cyflogadwyedd' fel yr oedd ef yn ei gweld hi yn dilyn sawl ymgais ganddo i wneud ceisiadau am swyddi:

> Pwy all gyflawni'r swydd? *[Rhywun o waed]* Cymreig, os nad oes un Cymreig, nawr te – rydym yn dilyn y lefel, neu'r raddfa, sef un Cymreig i ddechrau, os na allant ddod o hyd i un Cymreig, maent yn dweud nawr te, Undeb Ewropeaidd, os na allant ddod o hyd i un o'r rheiny, maent yn dweud iawn, y bobl wyn hynny, ar ôl pobl wyn maent yn dweud y rheiny sy'n edrych yn wyn, os na allant ddod o hyd i un felly, maent yn chwilio wedyn am bobl dduon neu bobl o gefndir ethnig lleiafrifol a chanddynt ddinasyddiaeth, os na allant ddod o hyd i un felly, maent yn troi at y rheiny sydd wedi priodi rhywun Cymreig neu rywun gwyn, ac os na allant ddod o hyd i un felly maent yn dweud, iawn yn awr gallwn gymryd ffoadur [du] .

Dywedodd eraill wrthym am wahaniaethu yn y gwasanaeth iechyd:

> Dywedasant, am ei bod yn geisiwr lloches, ac am ei bod yn llawdriniaeth ddrud, na fyddent yn ei rhoi iddi ... dywedodd ei bod yn colli pwysau drwy'r amser ac yn cael poenau bob dydd. (Cyfieithydd ar ran menyw a oedd yn geisiwr lloches o Somalia)

Ac fe ddywedodd ffoadur Congolaidd gwrywaidd yn STAR am hiliaeth gan yr heddlu mewn tafarndai:

> Fe ddigwyddodd mewn tafarn, tafarn fawr, felly roedd a wnelo ag yfed, llawer o ddynion duon, llawer o ddynion gwyn hefyd ... dywedodd yr heddlu – 'allan â'r holl bobl dduon'. Beth yw'r rheswm, 'dim rheswm, allan'.

Eto, yn y Sblot a'r Rhath mae cymuned broffesiynol a chelfyddydol wyn ifanc i'w chael hefyd sy'n dathlu'i hamrywiaeth trwy'i bywyd gwaith. Mae enghreifftiau da'n cynnwys pennaeth ysgol leol sy'n rhan o'r Eglwys yng Nghymru (y mae tua 60 y cant o'r plant yn 'blant o leiafrifoedd ethnig') a ddywedodd bod plant sy'n ceisio lloches 'yn dod â blas newydd i'r ysgol'. Yn ôl y pennaeth hwn, mae'r plant i gyd yn cyd-dynnu ac mae'r ysgol yn un gydlynol yn gymdeithasol, ac mae'r brwdfrydedd dros ddysgu ymhlith plant sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid yn gwella naws yr ystafell ddosbarth i bawb. Cadarnhaodd rheolwr gorsaf radio gymunedol (a chanddi drwydded radio fyrdymor ar FM) y diddordeb dosbarth-canol hwn mewn

amrywiaeth ond hefyd yr anhawster sy'n gysylltiedig â chael pobl i gymryd rhan. Roedd yn awyddus i sefydlu gorsaf radio gymunedol yn yr ardal, er mwyn adfer hanes ac er mwyn 'cynrychioli'r rhwydweithiau sy'n bodoli', ond roedd yn ei chael yn anodd annog pobl i gymryd rhan am eu bod i gyd wedi'u gorlethu gan eu prosiectau cymorth cymunedol eu hunain:

> Fe gwrddais â'r holl grwpiau lleol ... Cefais gefnogaeth, ar ffurf pobl yn ysgrifennu llythyrau i ddweud y byddant yn cefnogi'r fenter o ran cael nawdd ariannol. Ond a dweud y gwir, a ninnau yma bellach, maent i gyd wedi diflannu ... maent wedi'u gorlethu o fewn eu mudiadau eu hunain.

Y grwpiau lleol y cafodd anhawster wrth geisio'u cynnwys yn ei phrosiect radio oedd grwpiau Mwslimaidd a lleiafrifol. Er enghraifft:

> Do. Fe gysylltais â'r grŵp Menywod Somalïaidd ac fe es i mor bell â chwrdd â nhw. Fe es i'w cyfarfod ac fe ddywedon nhw: 'O do, fe gawsom ni eich llythyr. Byddem ni'n awyddus iawn i wneud rhywbeth.' Ac wedyn meddwn i: 'Y cwbl y mae angen i chi ei wneud yw fy ffonio ac fe ddof i lawr i wneud rhywbeth gyda chi. A wnaethon nhw byth gysylltu â mi.'

A'r bobl a wnaeth ddod i mewn, heblaw am rai o'r grwpiau amrywiol a grybwyllwyd uchod, oedd pobl fel hi ei hun, a oedd wir am greu cymuned:

> Ac wedyn mae'r bobl eraill sydd wedi dod i mewn ac wedi chwarae rhan wedi bod, rwy'n credu, yn bobl fel fi fy hun a oedd wedi symud i'r ardal i ddod i'r brifysgol efallai.
>
> Felly – rwyf wedi cael llawer o bobl yn dod i mewn, sef yn amlwg y bobl nad ydynt yn draddodiadol o'r ardal ac sydd wedi symud yma, y mae pethau fel cymuned yn wirioneddol bwysig iddynt ac maent yn dod ac yn dweud: 'O, rwyf am wneud rhywbeth dros y gymuned leol.'

Roedd y rhain ar y cyfan yn weithwyr proffesiynol ifanc neu'n fyfyrwyr:

> Mae'r rhain yn bobl sy'n teimlo bod angen i ni wneud newidiadau yn y gymdeithas am ein bod mewn ffordd yn anelu tuag at ryw fath o sefyllfa ryfedd. Oes, mae pobl o amgylch sydd wir yn poeni. Ond wedyn, o'r hyn welaf fi, o fewn un ardal ddaearyddol mae gennych yr holl wahanol bethau yma'n digwydd a dydyn nhw byth yn cwrdd, er bod ewyllys da i'w gael.

Ymddengys mai diffyg cyfathrebu rhwng grwpiau gwahanol iawn yw un o'r ffactorau sy'n cadw pobl ar wahân. Ond weithiau mae achosion o ryngweithio'n fwy trafferthus.

Un ffactor mwy diweddar sy'n achosi newid ac yna densiynau cymunedol, yn ôl un eglwyswr yn STAR, yw cartrefu ceiswyr lloches yn yr ardal. Mae'n cydnabod ei bod 'yn ddrwg calon gan ddyn dros yr ymfudwyr newydd' ond ei fod yn teimlo, ynghyd â'r masnachwyr lleol, bod y cyngor wedi bod yn 'annheg' o ran nifer yr hostelau y mae wedi'u sefydlu yn yr ardal:

> … mae gennym *[h.y. mae gan STAR]* lwyth o hostelau, a dyna pam y dylent eu codi yn Llysfaen neu yng Nghyncoed *[maestrefi dosbarth-canol mwy goludog]*, ond na, maen nhw'n eu sodro i gyd yn un lle, ac yn creu geto yma, hynny yw mae'n annheg â'r gymuned leol oherwydd os ydych yn boddi unrhyw ardal ... nid fy mod yn erbyn, wyddoch chi – rwy'n credu y dylai fod gennym hostelau yma.

Ac mae'n crybwyll gwahaniaethau tebyg gyda gweithwyr mudol:

> … ac yna fe gawsom lawer o broblemau i fyny'r ffordd gyda'r gweithwyr mudol, a oedd, rhai ohonynt, yn creu anhrefn. Ac fe gawsom ni gyfarfod gyda'r heddlu a'r bobl leol, sydd wedi datrys popeth, rwy'n credu.
>
> … roedd hynny ym mhen draw'r stryd yma, fe gymeron nhw dŷ drosodd yno, rwy'n credu bod ganddynt 30 yn byw ynddo, cyfanswm hurt.
>
> … *[gweithwyr mudol o]* Slofacia oeddent yn bennaf. Hynny yw, pobl neis, os ydynt yn fodlon gweithio ... nid ydynt yn byw oddi ar eraill na dim byd felly, ac fe wnânt y math o waith na fyddai ein pobl ni'n breuddwydio am ei wneud, maent yn barod i weithio mewn hostel – fe es i Westy Dewi Sant, ac roedd yr holl weinyddion yno o dramor, am nad yw ein pobl ni'n dymuno gwneud y mathau hyn o swyddi ac maen nhw'n barod i'w gwneud, maent yn gweithio'n galed ... ond roedd y sŵn a'r anhrefn a grëwyd ganddynt *[yn y tŷ yr oeddent yn byw ynddo]* yn ddychrynllyd. Doedd hynny ddim wrth fodd y sawl a oedd yn byw drws nesaf gan ei fod yn dymuno gwerthu, ond yn amlwg doedd e ddim yn gallu gwerthu.

Yma mae'n cyfeirio at y materion dilys sy'n ymwneud â rhai o'r agweddau ar drafodaethau yn y cyfryngau am *orlethu* a *boddi* mewn perthynas ag ymfudiad a cheiswyr lloches a gaiff eu beirniadu'n aml, at niwed y gall mewnfudo heb ei gynllunio ei wneud i economïau a bywoliaethau lleol, ac at y tueddiad i leoli beichiau mewnfudo mewn ardaloedd sydd eisoes yn amddifadus:

> Yr hyn yr wyf fi'n ei wrthwynebu yw pan eu bod yn boddi ardal benodol ag un garfan o fewn y gymdeithas, gallwch ei lladd, sef yr hyn sydd mewn perygl o ddigwydd yma.

Mae'n werth nodi bod ei gŵyn yr un fath â chŵyn 'gweinyddwyr' eraill sydd hefyd yn nodi gallu a grym preswylwyr mewn ardaloedd dosbarth-canol, fel y rhai y mae ef yn eu henwi, i lobïo yn erbyn cartrefu ceiswyr lloches yn eu hardaloedd. Mae'n amlwg bod lobïo'n digwydd yn Adamsdown (yr ardal y mae'n siarad ohoni) hefyd ond ymddengys fod hyn wedi bod yn llai pwerus hyd yn hyn. Mae tystiolaeth hefyd yn yr achos hwn o'r heddlu a'r gymuned yn dod ynghyd i ddatrys y mater. Roedd y bobl leol yn fodlon unwaith yr oeddent yn gwybod nad ceiswyr lloches oedd y gweithwyr mudol a'u bod mewn gwirionedd yno i weithio. Fel pobl ym Merthyr, roeddent hefyd yn tybio bod unrhyw newydd-ddyfodiaid yn anghyfreithlon ac yn geiswyr lloches: dyma dystiolaeth o effeithiau sylw yn y cyfryngau i'r materion hyn dros gyfnod hir. O ran cydlyniant cymunedol, mae'n nodi bod pobl yn derbyn newydd-ddyfodiaid 'am ein bod wastad wedi bod yn ardal â chymuned gymysg' ond bod ceiswyr lloches yn cael eu hystyried yn bobl nad ydynt yn gallu ffitio i mewn: 'y peth yw nad yw'r mewnfudwyr lleol wir yn cymryd cymaint o ran â hynny yn y gymuned, hynny yw nid oes llawer y *gallant* gymryd rhan ynddo am wn i'.

Astudiaeth achos: y Somalïaid

I'r Somalïaid, y mathau pwysicaf o wahaniaethu y maent yn eu dioddef yw'r rheiny sy'n eu cau mewn tlodi. Mae diweithdra a gwahaniaethu canfyddedig mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau'n argyhoeddi rhai na allant wneud unrhyw beth i wella'u sefyllfa eu hunain. Mae absenoldeb unrhyw gyflogeion Somalïaidd yn Neuadd y Sir, sydd ychydig i lawr y ffordd o Butetown, yn cael ei ystyried yn eiconig o'r hyn sy'n digwydd iddynt. Mae gwahaniaethu ar sail hil yn atal Somalïaid rhag cael swyddi – mae hon yn broblem y mae arweinwyr cymunedol yn dadlau yn ei chylch a chaiff ei chydnabod hefyd fel y prif rwystr gan Canolfan Byd Gwaith:

> Rwyf am fod yn ofalus sut yr wyf yn geirio'r broblem gyntaf yma, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig ac rwyf am dynnu sylw ati a'i chael allan o'r ffordd yn awr, a'r G yw honno, sef gwahaniaethu ... pan eich bod yn dweud cod post neu'n dweud ble mae cwsmer yn byw, neu pan eich bod yn dweud enw, ac mae wedi cael ymateb negyddol ar adegau gan rai cyflogwyr.

(Parhad)

Dywedodd pobl wrthym am nifer diddiwedd o geisiadau aflwyddiannus am swyddi ac fe roddon nhw enghreifftiau o bobl wyn yr oeddent wedi graddio gyda hwy, ac wedi gwneud yn well na hwy, a oedd wedi cael swyddi yr oeddent hwy wedi ymgeisio amdanynt. Mae hyn yn arwain at lefelau anferth o dangyflogaeth. Yr hyn nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn ei wybod am y Somalïaid sy'n perthyn i'r ail a'r drydedd genhedlaeth ac a aned ym Mhrydain yw:

> … fe aeth y mwyafrif ohonom i'r brifysgol. Wyddoch chi, mae'r rhan fwyaf o'r bechgyn yn awr sy'n yrwyr tacsi – mae gan bob un ohonynt radd.
>
> Mae gan rai ohonynt radd mewn peirianneg ac rydych yn gofyn iddynt: 'Rwyt ti'n gwneud y swydd hon?' Ac meddent hwythau: 'O, dyma'r unig beth y gallaf ddod o hyd iddo.' Mae'n wastraff potensial dynol.

Siaradodd cyfranogwyr am ddigwyddiadau oedd yn ymwneud â hiliaeth 'ddiniwed' yn y gweithle yr oeddent yn ei hesgusodi ar sail anwybodaeth. Roedd eraill yn teimlo bod anwybodaeth am ddiwylliannau a chrefyddau eraill yn y gweithle'n anfaddeuol, ac roeddent yn ddig am y ffordd yr oeddent yn cael eu trin. Caiff y dicter hwn ei ychwanegu at yr hanes teuluol cronnus o hiliaeth y maent wedi'i etifeddu. Mae ceiswyr lloches Somalïaidd mwy diweddar neu ymfudwyr sydd wedi dod er mwyn cael aduniad teuluol yn wynebu rhwystrau pellach i gyflogaeth megis gorfod cael cydnabyddiaeth i'w cymwysterau tramor. Ar ben hynny gall cyd-destunau goruchwyliaeth a diwylliant swyddogol o beidio â chredu'r amgylchiadau trawmatig sy'n achosi i bobl geisio lloches neu hyd yn oed hunaniaeth pobl (Baynham a de Fina, 2005) fod yn niweidiol i'r enaid ac i hunaniaeth pobl:

> Fe ddaeth yn 2001, does ganddi ddim statws o hyd, dim, maent yn dweud wrthi nad Somaliad yw hi, nad yw hi'n edrych fel Somaliad.

Bydd y newydd-ddyfodiaid hyn yn aml yn wynebu rhwystr ieithyddol. I'r rhan fwyaf, bydd dysgu'r iaith yn flaenoriaeth, ond gall y cyfle fod yn anodd cael mynediad ato i bobl sydd eisoes yn dlawd, sydd heb ofal plant, ac arnynt angen gweithio, neu sydd mor isel eu hysbryd ynglŷn â'u sefyllfa nes ei fod yn ymddangos yn ddibwrpas. Mae'r rheiny sy'n mynd i wersi'n dadlau mai ychydig o amrywiaeth sydd ar gael i bobl ar wahanol lefelau o ran galluedd, ac mai ychydig o athrawon Somalieg eu hiaith sydd i'w cael. Mae dysgwyr yn sylwi ar gyndynrwydd ar ran pobl wyn y tu allan i ddosbarthiadau i gynnal sgwrs â'r rheiny a chanddynt acen, neu sy'n ei chael yn anodd mynegi'u hunain. Mae angen cyfieithu gwybodaeth swyddogol a chymunedol i Somalieg, ond

(Parhad)

mae problem ddifrifol o ran adnoddau pan fo cymaint o arian yng Nghymru'n cael ei neilltuo ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg. Roedd Somalïaid a fagwyd yng Nghaerdydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol ond nid oedd unrhyw un o'r cyfranogwyr yn y grŵp ffocws yn defnyddio'r iaith. Mae nifer o Somalïaid sy'n oedolion yn awyddus i ddysgu'u hiaith ysgrifenedig, a gafodd ei chodeiddio yn y diwedd ym 1972. Mae un corff, Cymdeithas Tai Taf, wedi canfod ffyrdd o ddefnyddio diwylliant llafar Somalieg i hysbysu cleientiaid hŷn, gan ddefnyddio tapiau sain yn lle llythyrau. Mae Somalïaid yn profi anwybodaeth ddiwylliannol a haerllugrwydd ar ran darparwyr gwasanaethau sy'n bobl wyn:

> … pan eu bod *[gweithwyr gwyn]* yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer pobl eraill o grwpiau eraill ... byddant yn dweud pethau difrïol – rwyf byth a beunydd yn gorfod dweud rhywbeth, mae llawer ohonynt heb gael hyfforddiant digonol i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae dynion a menywod yn siarad yn wahanol am eu rhyngweithiadau â'r heddlu, er bod y naill a'r llall o'r farn eu bod yn cael eu drwgdybio. Mae'r naill a'r llall o'r farn eu bod dan oruchwyliaeth mewn mannau cyhoeddus, ond mae nifer o ymatebwyr gwrywaidd wedi cael mwy o drafferth gyda'r gyfraith mewn achosion lle cafodd pobl Somalïaidd a phobl wyn eu trin yn wahanol:

> Cefais innau'r un problemau gyda'r heddlu. Roeddwn i'n rhan o griw a oedd yn ymladd ac fe arestion nhw ni ac nid y bobl wyn a mynd â ni i lys y goron. Gallwch gwyno wrth yr heddwas/heddferch neu'i ffrind ond wnawn nhw mo'ch helpu chi.

Ymddengys fod problemau gyda'r gwasanaethau iechyd yn dod i'r fei yn sgîl diffyg gwybodaeth yn y gwasanaeth iechyd am y Somalïaid. Mae iaith yn broblem yma hefyd, a dywedwyd wrthym gan nifer o gyfranogwyr am feddygon teulu ac ysbytai'n methu â defnyddio Language Line (y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd), ac am blant yn gorfod cyfieithu ar y pryd ar ran eu mamau a chymryd amser o'r ysgol i wneud hynny. Dywedodd eraill eu bod wedi cael eu troi i ffwrdd pan nad oedd cyfieithydd ar gael, neu fod pobl wedi gofyn iddynt aros nes deuai Somaliad arall i mewn; fel y dywedodd y fenyw hon: 'Dydw i ddim am drafod problem iechyd gyda dieithryn llwyr sydd wedi camu oddi ar y stryd'.

Yr achosion gwaethaf ym maes iechyd yw'r rheiny sy'n ymwneud â mamau sengl sy'n ceisio lloches a'u plant, oherwydd yn eu plith fe ganfuom salwch a achoswyd gan y llety gwael yr oeddent yn byw ynddo, diet y cyfyngir arno gan dlodi, a straen wedi trawma a wnaed yn waeth gan eu hanallu i gael mynediad at

(Parhad)

gymorth oherwydd problemau ieithyddol ac eithrio cymdeithasol. Maent yn siarad am ddillad gwely a phlancedi tamp, brwnt, mewn tai gorlawn, drafftiog tamp:

> Maen nhw *[y plant]* wedi dal ecsema oherwydd y lleithder yn y tŷ, nid yw'n dŷ sydd mewn cyflwr da a dweud y gwir i'w phlant fod yno, mae hi wedi dweud wrthynt ond does dim wedi cael ei wneud.

Mae trawma-wedi-gwrthdaro'n aml yn gyflwr nad yw'n cael ei gydnabod, ond gall achosi llesgedd difrifol. Mae'n aml yn cael yr effaith waethaf un ar y rheiny â'r lleiaf o gymorth, megis mamau sengl, ond mae diffyg ymwybyddiaeth yn y proffesiwn iechyd am faint y straen, a diffyg arian difrifol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i geiswyr lloches a arteithiwyd ac sy'n dioddef trawma.

> Pan aeth at y meddyg fe ddywedon nhw wrthi: 'Yn feddyliol – dwyt ti ddim yno – felly beth wyt ti wedi bod drwyddo, beth sydd wedi digwydd?' Ac fe eglurodd bopeth ac, wyddoch chi, fe gawsant gryn syndod eu hunain i weld ei bod wedi bod drwy gymaint.

Roedd un gweithiwr cymunedol, a oedd yn ymwneud â phobl ifanc, diweithdra a thlodi yn Butetown, yn teimlo bod y rhan hon o'r gymuned, boed yn geiswyr lloches neu'n bobl a aned yma, yn 'dioddef iselder' yn union fel y mae unigolion. Caiff y broblem iechyd lle mae dynion yn cnoi Ghat ei hystyried gan rai yn un o symptomau'r iselder hwn, er ei bod, yn ôl y menywod, yn cyfrannu at ddirwasgiad economaidd yn y gymuned. Mae dau dŷ cnoi yn Butetown y gellir dweud eu bod yn cyfateb i dafarndai (hysbysydd Somalïaidd). Maent yn dai lle bydd dynion yn ymgasglu i gnoi dail gwyrdd naill ai o Ethiopia neu o Kenya, a elwir yn Ghat (Kat, khat, Jaad). 'Mae Ghat yn debyg i amffetamin. Yn y traddodiad Somalïaidd caiff popeth ei drafod yn ystod y cyfnod cnoi. Os ydych yn dymuno priodi, mae'n rhaid i chi ddarparu'r Ghat ar gyfer eich holl westeion yn y briodas'. Mae Ghat yn gyfreithlon yn y DU ond mewn nifer o wledydd Ewropeaidd ac yn America a Chanada mae'n anghyfreithlon. Mae cnoi Ghat felly'n arfer sydd wedi gwreiddio'n ddwfn yn y diwylliant ac mae cyfreithlondeb yr arfer yn bwnc dadleuol ymhlith Somalïaid. Er gwaethaf hynny, yn ôl yr hyn a ddywedodd hynafgwyr Somalïaidd wrthym, ac a gaiff ei gadarnhau gan ein hymchwil, mae oddeutu traean o'r gymuned bellach wedi integreiddio'n dda ac yn byw mewn cymunedau cymysg, cydlynol y tu allan i Butetown. Iddynt hwy, roedd 'integreiddio' yn aml yn golygu bod â gradd brifysgol a gyrru tacsi, oherwydd bod hynny o leiaf yn golygu annibyniaeth economaidd a'r gallu i brynu tŷ, er enghraifft. Mae cefnogaeth gref yn y gymuned hefyd, ymhlith dynion a menywod, i'r ddadl o blaid gwneud Ghat yn anghyfreithlon.

Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod newidiadau cyson mewn polisïau, yn aml mewn ymateb i ddychryn yn y cyfryngau, yn gallu arwain at ddryswch ac aneffeithlonrwydd wrth gyflenwi gwasanaethau ar lefelau lleol. Mae ein hymatebwyr yn cynnwys menywod a dynion ethnig lleiafrifol sy'n gweithio yn y cyd-destunau hyn gan geisio ymdrin â'r materion yma. Mae cyfarfyddiadau â gwasanaethau darparu tai, gofal iechyd, plismona, addysg a lles yn fannau allweddol ar gyfer integreiddio a chydlyniant cymdeithasol. Maent hefyd yn un o'r ffyrdd, fel y disgrifiodd Cohen *et al.* (2002) y sefyllfa, y gall y rheiny a roddir yng ngofal gweinyddu amryw fathau o reolaethau gan y llywodraeth, y cyngor a rheolaethau eraill, gan gynnwys rheolaethau lles, fynd mor bell a gweithredu, yn feunyddiol, fethiannau sylfaenol o ran integreiddio a chydlyniant cymunedol. Mae'r cyfarfyddiadau hyn yn gyrru pobl yn ôl i'w cymunedau'u hunain i gael cymorth. Bu i un o'n hysbyswyr, a oedd yn gweithio fel gweithiwr cymdeithasol, ddweud wrthym am ei hargraffiadau hi o newidiadau cyson mewn polisïau a methiannau o safbwynt hyfforddi staff mewn perthynas ag un digwyddiad a oedd yn cynnwys menyw a oedd yn ceisio lloches a'i merch. Roedd y fam wedi cael ei gwrthod pan wnaeth gais am ganiatâd i aros ond roedd ei merch 12 mlwydd oed wedi cael ei derbyn, felly roedd y NASS (y Gwasanaeth Cenedlaethol er Rhoi Cymorth i Geiswyr Lloches) yn talu'r rhent a'r biliau ar gyfer y llety ond nid oedd arian ar gyfer bwyd:

> … mae rhai pobl ar lefel reoli benodol nad ydynt yn wybodus eu hunain, neu nad ydynt yn mynychu'r sesiynau hyfforddi ar y gwahanol bolisïau, mae'r polisi wastad yn newid ac mae'n achosi llawer o ddryswch … prin bod digon o amser i fynychu'r sesiwn hyfforddi hefyd – ac yna mae gennych staff yn mynd i mewn ac allan ac yn gadael – staff newydd – gyda phlant mae rhai pethau penodol y mae'n rhaid i ni eu gwneud – mewn rhai meysydd penodol lle mae'r polisi'n newid drwy'r amser mae pobl yn cael eu drysu. Gwrthodwyd caniatâd dan Adran 17 i'r fenyw hon ar ddau achlysur ac rwy'n credu bod a wnelo hynny â'r gweithiwr unigol a'r rheolwr. Pan fo'r plentyn dan oed mae'n rhaid rhoi cymorth iddi. Roedd y fam yn hapus fy mod i'n ddu ac roedd yn gallu gweld fy mod i'n gallu gwrando a gwneud yr asesiad – a dweud bod angen i ni fod yn rhoi cymorth i'r teulu hwn. Roeddent yn dibynnu ar barseli bwyd o'r eglwys. Ac roeddent wedi dweud y byddent yn rhoi'r plentyn mewn gofal – ac mae hynny'n hurt. Fe lwyddon ni i gael £45 yr wythnos iddynt.

Roedd ein hymatebwyr hefyd yn cynnwys ymfudwyr newydd o ystod eang o gymunedau a grwpiau a oedd wedi dioddef yr hyn a oedd yn ymddangos iddynt hwy'n hiliaeth a gwahaniaethu yn y cyd-destunau hyn. Mae'r hinsawdd gyfredol o

bryder ynghylch ymfudiad a cheisio lloches i'w gweld fel petai'n hybu diwylliant o anghred a gwrthodiad lle mae ymfudwyr mewn angen yn y cwestiwn. Felly y mae hi pa un a ydynt yn geiswyr lloches, yn ffoaduriaid, yn bobl eraill â math o ganiatâd dros dro i aros, yn ymfudwyr nad yw eu Saesneg yn berffaith, yn ymfudwyr sy'n siarad ag acen, ynteu'n ymfudwyr sy'n wahanol yn weladwy. Felly pan oeddent yn siarad am fywyd pob dydd a rhyngweithio â'r gymuned wyn 'letyol', yng nghyd-destun pob gwasanaeth bron roedd y frwydr ddyddiol i ymdrin ag agweddau negyddol yn fyrdwn cyson mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau. Tra'r oedd yn siarad am ryngweithio â'r gwasanaeth iechyd, dywedodd un fenyw Fwslimaidd addysgedig:

> Cyn belled â, wyddoch chi a dydw i ddim yn hoffi defnyddio hil yn sail i ddadl, ond mewn cymuned leiafrifol, maent i'w gweld fel pe baent heb ddiddordeb ac yn hamddenol iawn – wn i ddim ai 'hamddenol' yw'r gair cywir i'w ddefnyddio, ond does ganddynt ddim llawer o ddiddordeb. Cyn gynted ag y maent yn eich gweld, mae rhywbeth yn digwydd, 'Does gen i ddim diddordeb.' Pa un ai'r gwasanaeth iechyd ydyw, ynteu'r gwasanaeth tai, ble bynnag yr ewch, ydych chi'n gweld beth rwy'n ei feddwl?

Pan ofynnwyd iddynt am hiliaeth yng Nghaerdydd, aeth y menywod hyn ymlaen i siarad am y ffordd y maent hwy'n ei phrofi:

> Maen nhw *[pobl wyn]* yn gwybod na allant ddweud unrhyw beth uniongyrchol, wyddoch chi beth rwy'n ei feddwl? – Felly mae pobl yn ymwybodol ... o ran y ffordd y maent yn edrych arnoch, y ffordd y maent yn siarad gyda chi, eu hymddygiad a'u hagwedd. Eu hagwedd yn fwy na dim. – Ac mae'u hagwedd yn gwbl anghywir.

Ânt ymlaen i roi enghreifftiau. Maent yn siarad am ryngweithiadau â'r heddlu:

> Rydych yn gwisgo'ch pensgarff, yn awtomatig mae hynny'n golygu eich bod yn ... Maent yn cymryd yn ganiataol nad ydych yn siarad Saesneg o gwbl ... ie, yn anllythrennog, wyddoch chi yn y ddwy ... iaith. A phan fo'r geiriau'n dod allan o'ch genau, maent yn edrych yn wahanol arnoch.

Mae ymdeimlad cyffredinol yn bodoli na fydd Cymry neu Saeson gwyn yn trafferthu ceisio deall acen dramor:

> Rwy'n credu pan fo Cymro, neu Sais neu bwy bynnag, y tu ôl i'r ddesg, ni fyddant yn deall yr acen – ni fyddant hwy *[rhai nad ydynt yn siarad Saesneg]* yn gallu siarad yr iaith yn rhugl ac nid yw *[pethau]* yn llifo mor rhwydd ag y maent yn ei ddymuno, mae'n hollol ...

Bu i ddau ddyn y cyfwelsom ni â hwy ac sydd ill dau wedi byw yng Nghaerdydd am amser hir iawn ac sy'n ddynion llwyddiannus siarad am yr un mathau di-ildio o hiliaeth a gwahaniaethu mewn perthynas â'u gyrfaoedd a'u hanes eu hunain yng Nghaerdydd. Roedd un yn teimlo, er gwaethaf y bobl dda, nad oes 'perthyn' i fod i 'eraill' yng Nghaerdydd:

> Mae rhywbeth yma yn y system na allwch chi gyffwrdd ag ef ac rwy'n credu ei fod yn anodd iawn byw gydag ef ... Mae pobl yn gwrtais, ond mae pethau'n cael eu gwneud mewn ffordd arall.

Mae'n werth cofio yma am y ffordd yr oedd pobl ar ystadau cyngor ym Merthyr yn tybio'u bod yn cael eu gweld, a'u trin, gan y dosbarthiadau gweinyddol yn y cyd-destun hwnnw:

> Dydyn nhw *[y cyngor]* ddim yn dod ar gyfyl y lle *[yr ystad]*; allwn ni ddim cael unrhyw beth allan ohonynt. Mae fy mam wedi bod yn ei thŷ am 50 mlynedd ac mae hi'n cael ei baddon newydd cyntaf yfory, ac mae wedi gorfod ymladd i gael hwnnw. Mae'r Gurnos *[ystad arall]* yn cael y cwbl, gwydriad dwbl, popeth; ond does ganddynt byth arian pan ddaw hi atom ni. Gwych ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb! Nid oes unrhyw un yn yr adeilad hwnnw *[y ganolfan ddinesig]* sy'n fodlon cymryd cyfrifoldeb am unrhyw beth. Allwch chi ddim cael unrhyw synnwyr ganddynt.

Mae'r astudiaeth achos o Ferthyr a gynhwyswyd hefyd yn dangos bod preswylwyr yn teimlo'u bod yn derbyn gwasanaethau gwael, ac fe soniodd pobl sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau (y bobl sy'n byw mewn hostel a'r di-waith) ym Merthyr am driniaeth debyg iawn i'r driniaeth y soniwyd amdani gan grwpiau lleiafrifol mewn mannau eraill:

> Maen nhw'n jôc *[y gwasanaethau lles]*; wir Dduw i chi. Allan nhw wneud dim byd yn iawn. Mae ef, draw fan honno, yn byw ar £20 yr wythnos am eu bod wedi atal ei arian, yn anghywir, ond dydyn nhw ddim yn fodlon ailddechrau talu'r arian iddo!
>
> Dydyn nhw *[y Ganolfan Waith]* ddim yn gwneud unrhyw beth i'ch helpu. Dydw i erioed wedi cael unrhyw gyngor ynghylch swyddi ac ati. Dydyn nhw ddim am wybod. Y cwbl y maent yn gallu ei wneud yw dosbarthu ffurflenni ac atal eich arian ar y cyfle cyntaf.

Mae gweinyddwyr ym Merthyr, ar y llaw arall, yn siarad yn fach am bobl o'r fath, gan nodi'n glir iawn y bwlch o ran cyfathrebu y mae angen ei bontio yma:

> Felly efallai pe baent yn sylweddoli pam fod y bobl hynny *[y Portiwgeaid]* yma, ac eto, pe bai rhai o'n pobl a chanddynt afiechyd hirdymor cyfyngol yn codi oddi ar eu tinau ac yn mynd allan i gael gwaith, mae'n debygol na fyddai angen i hynny ddigwydd.

Yn Cathays/Y Rhath mae myfyrwyr nad ydynt ond yn dlawd dros dro am y cyfnod y maent yn astudio yn sôn am driniaeth debyg gan landlordiaid, y cyngor a chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau. Ymddengys mai tlodi yw'r ffactor cyffredin yma.

Gweithwyr cyngor, parch a hunaniaeth

Ar lefel arall ceir y gweithwyr hynny yn y cyngor sy'n cynnal a chadw neu'n atgyweirio tai, y rheiny sy'n gweithredu fel dynion diogelwch, neu swyddogion mewnfudo. Yn un grŵp ffocws gyda merched i famau Somalïaidd sengl sy'n ceisio lloches, siaradodd ein hymatebwyr am fod yn Fwslimiaid ac yn gaeth i'r gyfundrefn feunyddiol ar gyfer darparu gwasanaethau fel ceiswyr lloches yng Nghaerdydd. Y diffyg parch tuag at arferion Mwslimaidd a syniadau Mwslimaidd am lendid a phreifatrwydd yw'r broblem a nodir yn fwyaf blaenllaw. Daw dynion i mewn i'w tai'n ddirybudd heb dynnu'u hesgidiau ac maent yn haerllug pan ofynnir iddynt wneud hynny. Soniwyd mewn nifer o'n grwpiau ffocws am y ffaith bod y rheiny sy'n gweithio i'r cyngor yn aml yn euog o'r math hwn o ddiffyg parch tuag at bobl sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar. Maent yn adrodd nifer o straeon ar y pwynt yma am ddiffyg preifatrwydd yn eu llety cyngor, am ganfod dynion yn y tŷ pan nad oeddent yn gwisgo'u hijab, neu am gael eu poenydio gan swyddogion mewnfudo. Mae'r bygythiad beunyddiol o gael pobl yn gwrthod eu credu a chael eu hanfon o'r wlad os bydd cais am loches yn methu hefyd yn elfen o straeon y merched ifanc iawn hyn sy'n dod i fod yn ffordd o fyw i deuluoedd cyfan:

> Hyd yn oed ar ôl hynny i gyd *[bygythiadau o gael eu hanfon o'r wlad]*, mae'r rhieni'n *[peidio â]* dangos i'r plant eu bod yn profi'r problemau hyn. Efallai fy mod yn ddigon hen, mae fy mam yn gallu dweud wrthyf, oherwydd pan oeddwn yn ifancach doeddwn i ddim yn gwybod am hyn i gyd. Ond yn awr mae hi ... pan ei bod yn cael y swm o arian y mae'n ei gael trwy'r ... cymhorthdal incwm ... nid yw'n ddigon, felly mae'n rhaid i mi ddal yn ôl o ran y llyfrau y mae arnaf eu hangen ac yr wyf yn eu hoffi, gan fy mod yn gwybod am yr hyn y mae hi'n mynd drwyddo ... fel merch mae'n rhaid i mi fod yno i'm mam, ond, wyddoch chi, fel person hefyd, mae'n rhaid i mi fod yno i mi fy hun, hynny yw er mwyn f'addysgu fy hun.

Ac mae'r plant hyn yn tyfu'n gyflym iawn, gan ddysgu Saesneg yn gynt na'u rhieni a dod yn rhywun a all gyfieithu ar y pryd ar ran y teulu. Daw effaith hyn oll ar addysg ysgol i fod yn eglur iawn yn yr esboniad canlynol:

> Fe gollais i wersi a doeddwn i ddim yn arfer gwneud yn dda yn fy mlwyddyn o'r blaen am fy mod yn gorfod colli llawer o wersi i fynd gyda hi i'r ysbyty a mynd gyda hi ... Roedd fy mam yno drwy'r amser gyda ni. Roedd hi'n ein tywys, ond doedd hi ddim yn gallu gwneud unrhyw beth ar ei phen ei hun.

Mae plant i bobl sydd newydd gyrraedd yn y DU yn cael cymorth sylweddol i integreiddio gan y system ysgolion, ac felly'n cael llai o anhawster dysgu Saesneg na'u rhieni. Yn wir mae plant yn dweud mai dysgu siarad Saesneg yw'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r bwlian a all ddigwydd. Fodd bynnag, mae bwlian hiliol gan blant eraill yn digwydd. Siaradodd merched Mwslimaidd, er enghraifft, am y gwahaniaethu a'r bwlian yn sgîl y gorchuddion y maent yn eu gwisgo ar eu pennau. Disgrifiodd y ferch Iracaidd 9 oed hon ei theimladau cryf ar y mater:

> Dydw i ddim yn mynd i dynnu'r sgarff ni waeth beth y maent yn mynd i'w wneud i mi – dydyn nhw ddim yn mynd i wneud i mi dynnu'r sgarff hon. Dydw i ddim yn mynd i wneud hynny. Hyd yn oed os byddant yn rhoi cynnig arni, pe baent yn rhoi unrhyw beth i mi wna i ddim tynnu'r sgarff hwn. Byth. Rwy'n gwneud hyn er mwyn Duw ac nid er mwyn i'r bobl feddwl fy mod yn dwp.

Mae'r gwahaniaethu gan athrawon sy'n aml yn llawn bwriadau da hefyd yn rhwystr i gynhwysiant, fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol.

Ofnau rhieni ynghylch hiliaeth a diwylliant Prydain

Gall plant i ymfudwyr a ffoaduriaid, sy'n byw mewn ardaloedd amddifadus yng Nghaerdydd, ganfod bod cyfyngiadau ar ddisgwyliadau'r rhieni ar eu cyfer yn sgîl ofn hiliaeth a phryderon ynghylch eu diogelwch yn y cyd-destunau dosbarth-gweithiol y maent yn byw ynddynt yng Nghymru (gweler hefyd yr adran 'Gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau mewn amgylcheddau dosbarth-gweithiol' ym Mhennod 3). Cânt eu cadw yn y tŷ gymaint â phosib, yn enwedig y merched, ac maent yn mynd i ysgolion sydd gyn agosed â phosib i'w cartrefi; gall hyn hefyd eu hatal rhag mynd i'r brifysgol. Dywedwyd wrthym, er enghraifft, am fam sengl Somalïaidd a oedd yn disgwyl i gael ei haduno â'i gŵr:

> Yn yr ysgol maent yn chwarae gyda phlant o wahanol genhedloedd, ond gartref, does neb yn ymweld â hwy gartref ... am ei bod yn sengl ac am nad yw dad yma nid yw'n gadael iddynt fynd allan a bellach maent yn hapus yn aros gartref oherwydd pe baent yn mynd i drybini o gwbl ni fyddai hi'n gallu datrys y peth.

Gall plant hefyd gael eu hatal rhag cymysgu â phlant Prydeinig, oherwydd nad yw'r rhieni am iddynt fabwysiadu'r diwylliant Prydeinig yn gyfan gwbl a dod yn wahanol iddynt hwy eu hunain. Canfuom y tueddiad hwn yn y gymuned Yemenïaidd yn enwedig ac mewn perthynas â merched yn arbennig:

> Wyddoch chi pam nad ydym yn cymysgu gyda'r Prydeinwyr, oherwydd bod ofn arnom y gallai ein plant ymddwyn fel nhw. Rydym yn dod o gefndir diwylliannol gwahanol ac nid oes cyfyngiadau ar yr hyn y maen nhw'n gallu'i wneud. I ni mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn ein hysgolion yn ddigon.

A chan blentyn:

> Cyn gynted ag y byddaf yn dod i mewn i'n cartref does dim byd a elwir yn Saesnig, fel pe tasech wedi diosg eich côt ac wedi camu i mewn i Yemen fach.

Mae nifer o rieni yn anfon eu plant i ysgol breifat ar benwythnosau ac i deuluoedd sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar mae ysgolion o'r fath yn dal i fod yn hollbwysig o ran cael mathau cyfarwydd o gyfalaf cymdeithasol a diwylliannol a chynnal yr iaith gartref. Yng Nghaerdydd mae nifer o ysgolion preifat o'r fath gan gynnwys rhai Mandarin a Chantonaidd, Sawdïaidd, Libiaidd, Yemenïaidd, Swdaneaidd, Iracaidd ac Iorddonaidd.

Mynediad at addysg uwch

Mae rhai plant a phobl ifanc y mae eu rhieni'n ceisio lloches wedi bod yng Nghaerdydd heb gael penderfyniad am gyhyd â phum neu saith mlynedd. Mae'r plant hyn wedi dysgu Saesneg ac wedi'u hintegreiddio trwy'r ysgolion. Fodd bynnag, nid oes hawl ganddynt i fynd i'r prifysgolion fel myfyrwyr cartref ac maent yn wynebu gorfod talu ffioedd yn ôl cyfraddau tramor llawer uwch. Nid yw'n syndod bod hyn yn atal nifer rhag mynd ymlaen i addysg uwch. Mae'r adroddiadau canlynol yn drawiadol:

> Cafodd *[mab i un fam yn y grwpiau ffocws]* ei gymwysterau Safon Uwch ond oherwydd diffyg statws does dim y gall ei wneud o ran mynd i'r brifysgol, mae hynny'n rhywbeth y mae'n disgwyl amdano.
>
> *Ymatebydd 2:* Fe ddywedon nhw *[y coleg]* wrtho am beidio â breuddwydio, gan na fydd byth yn cyrraedd y brifysgol.
>
> *Ymatebydd 3:* Dywedodd yr ysgol wrtho am eu gwneud *[llenwi ffurflenni cais]* ac aros i weld beth fyddai'r brifysgol yn ei ddweud.

Mewn grŵp ffocws gyda Chyngor Academaidd Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru (CRAC), disgrifiwyd hyn yn ehangach fel mater difrifol. Mae'r niferoedd a ddyfynnir bron yn sicr yn llawer is na'r niferoedd gwirioneddol.

> … eleni roedd pum deg a rhywbeth *[o'r plant hyn yng Nghaerdydd]* ... ac rwy'n adnabod nifer o deuluoedd y mae eu plant yn ennill eu cymwysterau Safon Uwch eleni ac maent yn poeni, dydyn nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud.

Rôl y cyfryngau

Roedd y ffordd y mae'r cyfryngau prif-ffrwd yn dylanwadu ar ddealltwriaeth y cyhoedd am ymfudiad a chydlyniant cymdeithasol, a'r profiad y mae pobl yn eu cael o'r pethau hyn yn eu bywydau, yn thema gyson yn ein hymchwil. Y bobl a oedd yn ymddangos fel pe baent yn deall yn well na neb y modd y mae'r cyfryngau'n cyfleu'r materion hyn oedd y rheiny a oedd yn teimlo bod eu bywydau a'u bod hwy eu hunain yn cael eu camddarlunio yn, a chan, y cyfryngau yn y DU. Bu i gyfweleion a chyfranogwyr yn y grwpiau ffocws o grwpiau ethnig lleiafrifol godi'r mater hyd yn oed pan nad oeddem ni wedi holi yn ei gylch. Roedd arweinwyr cymunedau ac aelodau cyffredin o gymunedau'n gallu ailadrodd y termau sy'n gysylltiedig â'r darlun nodweddiadol o ymfudwyr a newydd-ddyfodiaid yn y cyfryngau. Roeddent yn gwybod eu bod yn cael eu hadnabod gan y 'farn gyhoeddus' (y gymuned 'letyol') fel 'lloffwyr', fel 'ffugwyr' ac fel pobl sy'n dreth ar adnoddau prin, eu bod yn ddigroeso, a'u bod yn tueddu i gael eu cysylltu â chyflawnwyr gweithredoedd troseddol a therfysgaidd:

> Dydyn nhw ddim yn eich hoffi oherwydd y cyfryngau ... Felly pan eu bod yn gweld rhywun du maent yn meddwl bod yr un yma'n ffoadur, yn awtomatig, felly'r cwestiwn cyntaf: un o ble wyt ti, pam ddest ti i'r wlad

> yma, a phryd wyt ti'n mynd yn ôl? Welwch chi, rydych chi'n teimlo nad oes croeso i chi.

Roedd Mwslimiaid yn enwedig yn teimlo'u bod yn agored i gael eu camddarlunio gan y cyfryngau a gwleidyddion yn dilyn 7/7 a bygythiadau terfysgaidd haf 2006. Roeddent hefyd yn amlwg yn agored i boenydio ac ymosodiadau gwirioneddol yn y cyd-destunau hyn ac yn credu mai ar y cyfryngau yr oedd y bai. Nid yw'r sefyllfa hon yn gwbl newydd (Buchanan *et al.*, 2003) ond mae'n dwyn goblygiadau difrifol o safbwynt polisïau ym maes integreiddio/cynhwysiant neu gydlyniant cymunedol. Cafodd effeithiau negyddol y sylw yn y cyfryngau ar gysylltiadau cymunedol eu cydnabod yn ein hymchwil gan uwch reolwyr ym maes gofal iechyd ac yn y cyngor yn ogystal â gweinyddwyr eraill. Y cyfryngau cenedlaethol yn bennaf sy'n cael eu nodi fel rhai sy'n hiliol ac yn erbyn ceiswyr lloches gan ein hymatebwyr, tra bo'r cyfryngau lleol yng Nghaerdydd a Merthyr yn cael eu hystyried yn fwy cyfrifol.

Caiff stereoteipiau o'r Tsieineaid eu rhoi ar led drachefn o bryd i'w gilydd ymhlith y boblogaeth ehangach gan y cyfryngau. Yn ystod y cyfnod pan dorrodd clwy'r traed a'r genau allan yn 2001 ac yn ystod yr argyfwng SARS yn 2003 bu i'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) ar y naill law, a'r cyfryngau ar y llaw arall, gysylltu'r clefydau â'r gymuned arlwyo Tsieineaidd. Yn ystod yr ymchwil hon fe ymosododd papur lleol ar siop cludfwyd Tsieineaidd, gan adrodd bod archwilwyr iechyd wedi canfod 'baw llygod mawr ... mewn bwyd tro-ffriedig Tsieineaidd'. Cyfeiriodd nifer o'n hymatebwyr Tsieineaidd at hyn, ac fe ddefnyddiodd y gweithwyr arlwyo'u gwybodaeth am y broses goginio i herio geirwiredd yr adroddiad:

> Mae angen gweithdrefnau i gwblhau'r reis wedi'i ffrio, hyd yn oed yn y reis wedi'i stemio, allwch chi ddim peidio â sylwi ar y baw llygod mawr ... Rwy'n credu bod hyn naill ai'n enghraifft o wneud cyhuddiadau am brydau Tsieineaidd ar sail sibrydion neu'n achos lle'r oedd rhai pobl am gael pryd am ddim. Mae nifer o Brydeinwyr fel hyn, maent yn rhoi cudyn o wallt yn y pryd eu hunain ac yn rhoi'r bai arnom ni.

Roedd eraill yn credu bod y cyfryngau'n wyrdueddol, ac yn dadlau bod y cyfryngau'n aml yn portreadu Tsieina a diwylliant Tsieineaidd yn anghywir ac mewn ffordd sy'n niweidiol:

> Rwy'n credu mai propaganda ydyw ... Rwy'n dadlau bod y cyfryngau gorllewinol wastad yn camliwio'r gwir am Tsieina, sy'n dallu rhai aelodau o'r cyhoedd ... daw cludfwyd Tsieineaidd i fod yn fwch dihangol ar gyfer unrhyw beth nad yw'n lân.

Fodd bynnag, yn ystod cwrs yr ymchwil hon, cafwyd arwyddion o newid cadarnhaol hefyd. Wrth i Gaerdydd ddathlu'i chanmlwyddiant fel dinas yn 2005, darlledwyd nifer o raglenni ar ei hanes a'i phobl ar BBC1 neu BBC2W. Roedd y prif ddarlledwyr yng Nghymru'n rhannu agenda â'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Caerdydd a oedd yn golygu dathlu Caerdydd, prifddinas Cymru, fel dinas lwyddiannus a chydlynol yn gymdeithasol. Bu i'r rhaglenni hyn esgor ar ddathliad o amrywiaeth a chyfleu Cymru oddefgar, gosmopolitan, a'i hanes o fewnfudo, mewn ffordd a oedd yn seiliedig ar 'ddelweddau cadarnhaol', ar ffurf rhaglenni a chyfresi dogfen. Roedd y sylw a roddwyd yn y wasg i ddyfodiad gweithwyr mudol Portiwgeaidd a Phwylaidd i Ferthyr yn canolbwyntio ar eu parodrwydd i ddysgu Saesneg, eu pwysigrwydd i'r economi yng Nghymru a'r ffaith eu bod yn gwneud swyddi nad oedd y preswylwyr yn dymuno'u gwneud (*Wales on Sunday*, 20 Chwefror 2005). Erbyn cyfnod hwyrach yn y flwyddyn, roedd y *Western Mail* yn rhoi sylw i gamfanteisio ar yr un gweithwyr, a sefydlu grŵp cymorth, y Fforwm Gweithwyr Mudol, ym Merthyr Tudful ynghyd â phryder Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd yno (20 Hydref 2005, 27 Hydref 2005).

Er gwaethaf hyn, mae digon o dystiolaeth yn ein gwaith gyda chymunedau sefydlog i ddangos bod llawer o'r hyn y mae pobl yn ei ddeall am ymfudiad ac ymfudwyr yn dal i ddibynnu ar newyddion ar y teledu, yn hytrach na rhaglenni dogfen ystyriol, neu ar anghymedroldeb gwaethaf y wasg dabloid genedlaethol yn y DU, a bod digwyddiadau mawr yn y newyddion sy'n ymwneud ag ymfudiad yn gallu lliwio canfyddiadau pobl am ddegawdau. Roedd dwy enghraifft yn dod i'r fei drosodd a throsodd yn ein hymchwil, a'r ddwy'n gysylltiedig â'r mewnfudiad gan Somalïaid a ddigwyddodd o 1988 ymlaen yng Nghaerdydd. Roedd wedi dod i fod yn rhywbeth synhwyrol ym mhob cymuned sefydlog yng Nghaerdydd erbyn cyfnod yr ymchwil hon i gredu bod Somalïaid wedi cael mynediad annheg at dai bryd hynny a bod menywod Mwslimaidd yn ceisio cael mynediad unigryw at bwll nofio yn y ddinas a oedd wedi cael ei gau a'i dywyllu. Gellir olrhain y ddau fyth yn ôl i weithgarwch mewn perthynas â'r newyddion gan y cyfryngau oddeutu 1988 ac maent yn dal i fod ar led fel sibrydion, mân-siarad a chred synhwyrol o leiaf 20 mlynedd yn ddiweddarach.

Astudiaeth achos: y Tsieineaid

Mae'r gymuned Tsieineaidd yng Nghaerdydd yn eithriadol o amrywiol, ac yn cynnwys pobl o sawl cenedl wahanol a gwahanol grwpiau ieithyddol yn ogystal â gwahaniaethau o ran dosbarth a gwleidyddiaeth. Cafwyd sawl ton o fewnfudiad dros y ganrif ddiwethaf, ac mae pob un ohonynt wedi dod o ran wahanol o Tsieina. Pan oedd busnesau'n ffynnu, deuai ffrindiau neu berthnasau i ymuno â'r rheiny a oedd eisoes yn llwyddo yma. Arweiniodd rhwydweithiau o garennydd ac o dylwythau at ymfudiad cadwynol, gan ymestyn y rhwydwaith i berthnasau pellach. Roedd y patrwm hwn yn gyffredin ar gyfer cymunedau gwasgaredig yn y DU a oedd yn dod o daleithiau Canton a Ffwji (Zhou, 1992). Caiff y boblogaeth Tsieineaidd yng Nghaerdydd ei rhannu'n ddau grŵp blaenllaw, sef siaradwyr Cantoneg o Hong Kong a siaradwyr Mandarin o dir mawr Tsieina. Daw nifer fechan o Falaysia, Singapore a Thaiwan.

Mae'n amlwg bod gan y Tsieineaid hynny sy'n addysgedig, yn broffesiynol ac yn symudol rwydweithiau teuluol a rhwydweithiau eraill agos, sy'n aml yn gysylltiedig â busnes, ond mae'r rhain yn llawer tebycach i'r rheiny sydd gan gymunedau gwyn dosbarth-canol hefyd. Mae gan yr holl grwpiau Tsieineaidd gysylltiadau gwasgaredig a thrawswladol yn union fel, er enghraifft, y Somalïaid a'r Prydeinwyr dosbarth-canol symudol. Maent yn gallu byw mewn ardaloedd dosbarth-canol yng Nghaerdydd, anfon eu plant i ysgolion a phrifysgolion dosbarth-canol, a symud i mewn i, ac allan o ardaloedd pan gyfyd y cyfle. Maent yn rhannu'r hyn y bu i Ong (1999), mewn llyfr ar 'resymeg ddiwylliannol trawswladoldeb', ei alw'n 'ddinasyddiaeth hyblyg'. Mae eu lefelau addysg uchel a'u cyfalaf economaidd yn eu gwarchod rhag cryn dipyn o'r hiliaeth a'r gwahaniaethu y daw grwpiau eraill ar eu traws. Fodd bynnag, mae nifer yn tueddu i aros o fewn eu cylch 'BBC' (Tsieineaid a Aned ym Mhrydain) eu hunain am eu bod yn dweud nad ydynt byth yn teimlo'u bod wir yn perthyn. Mae eu teuluoedd yn pwysleisio gwerthoedd Tsieineaidd traddodiadol diwydrwydd, gwyleidd-dra, cymedroldeb, gwerthoedd teuluol a pharch at yr henoed, y maent hwy'n eu cael yn brin yn eu cymheiriaid Prydeinig. Yn hyn o beth maent yn debyg i grwpiau eraill.

O'i gyferbynnu, clofan arlwyo'r Tsieineaid yw un o'r ychydig ddewisiadau sydd gan y Ffwjïaid. Mae eu gallu i siarad Saesneg yn gyfyngedig ac yn y cyd-destunau hyn nid oes angen iddynt siarad Saesneg. Ar ben hynny, roedd y busnes arlwyo ethnig am gyfnod yn un o'r ychydig leoedd y gallai ymfudwr annogfenedig, neu ymfudwr heb hawl i weithio, ddod o hyd i gyflogaeth. Fodd

(Parhad)

bynnag, gyda'r nifer cynyddol o ymfudwyr Ffwjïaidd, mae'r farchnad wedi dod yn fwyfwy cystadleuol ac mae lefel y cyflogau wedi gostwng. Yr unig ddewisiadau i ymfudwyr newydd, unwaith yr oedd swyddi yn y busnes arlwyo wedi'u llenwi, oedd swyddi megis casglu cocos neu bigo ffrwythau, a oedd yn llai deniadol am eu bod yn swyddi tymhorol, am nad oedd y cyflog gystal ac am eu bod yn beryglus (Jiang, 2006).

Felly nid yw wastad yn rhwydd sicrhau incwm cyson, ac mae rhai Tsieineaid o dir mawr Tsieina'n dioddef caledi yng Nghaerdydd, yn dod yn ddigartref ac yn dibynnu ar ffrindiau neu gydnabod Tsieineaidd i'w cynnal. Cynigiodd ymatebydd mewn un grŵp ffocws dystiolaeth bod tlodi'n achosi cystudd difrifol yn eu bywydau:

> Fe ddigwyddais gwrdd â dyn a gafodd ei smyglo yma gwpl o ddiwrnodau yn ôl. Gofynnodd am gyfarwyddiadau yn y stryd. Roedd yn byw yn Chinatown felly fe gerddom ni gyda'n gilydd a dechrau sgwrsio. Dywedodd wrthyf ei fod wedi talu 240,000 RMB i'r grŵp sy'n trefnu ymfudiadau anghyfreithlon am y daith. Gofynnais iddo pam ei fod wedi dod yma os oedd y swm mawr hwn o arian ganddo. Mae'n hanu o Ffwji ac roedd yn gweithio yma i feistr o Hong Kong. Mae'r isafswm cyflog yma'n £5 yr awr, ond £2.50 yr oedd ef yn ei gael, roedd yn gweithio 12 awr y dydd. Roedd y bwyd a ddarperid gan y meistr yn wael iawn.

Mae aelodau o Gyngor Caerdydd a rheolwyr cymunedol yn ymwybodol o fodolaeth cymuned Tsieineaidd, ond nid ydynt yn ymwybodol o'u problemau, ac maent yn eu nodweddu fel pobl hunangynhaliol, integredig, a grŵp nad yw'n achosi problem o ran cydlyniant. Mae tybiaeth nad oes ganddynt unrhyw anghenion na all y gwasanaethau cyfredol mo'u diwallu. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio problemau real iawn y mae gwahanol bobl Tsieineaidd yn eu hwynebu.

Y prif anhawster yw iaith. Mae gan fewnfudwyr sy'n siarad Mandarin anghenion o ran iaith, ond felly hefyd y siaradwyr Cantoneg oedrannus o Hong Kong, a dreuliodd ormod o oriau yng ngheginau bwytai Tsieineaidd i fod wedi dysgu Saesneg i'r safon sy'n ofynnol ar gyfer dogfennau swyddogol megis ffurflenni cais am fudd-daliadau lles. Maent yn tueddu i ddibynnu ar ffrindiau neu deulu i'w helpu, ac nid ydynt yn cael mynediad at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt gan y wladwriaeth. Mae cynnig cymorth iaith yn dal i fod yn swyddogaeth bwysig i gymunedau Tsieineaidd ledled y wlad. Mae Cymdeithas Pobl

(Parhad)

Tsieineaidd Oedrannus Caerdydd, er enghraifft, yn rhoi blaenoriaeth i helpu'r henoed i ddarllen llythyrau a llenwi ffurflenni cais am fudd-daliadau. Gall y lefel isel hon o fynediad ymhlith Tsieineaid cenehedlaeth-gyntaf arwain at achosion o dlodi eithafol:

> Dydyn nhw ddim wir yn gwybod beth yw eu hawliau gan nad oes unrhyw un yno i ddweud wrthynt oherwydd y rhwystr ieithyddol. Yn wir, mae llawer o bobl yn ddi-waith a hwythau'n gymwys i gael budd-daliadau incwm ond nid ydynt yn gwybod sut i fynd ati ... A dweud y gwir fe dystiais i fy hun i bobl yn llwgu i farwolaeth mewn tŷ, gan ei fod ef yn ddi-waith, a oedd yn golygu bod dim arian ganddynt.

Yng Nghaerdydd, y gred oedd nad oedd y cyngor yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a gwasanaethau cymdeithasol eraill digonol ar gyfer y Tsieineaid. Nid oedd y swydd wag a adawyd yn dilyn ymadawiad yr unig weithiwr cymdeithasol Tsieineaidd llawn-amser cymwys yng Nghyngor Caerdydd wedi cael ei llanw eto ar adeg ysgrifennu (Mai 2006). Roedd cymorth iaith ar gyfer apwyntiadau meddygol a cheisio gwaith a gwasanaeth gan gyfleusterau eraill yn dameidiog neu'n absennol, a hyd yn oed pan fo gwasanaethau ar gael, nid ydynt wastad yn cael eu hystyried yn llwyddiannus.

Yr hyn sydd ar goll yng Nghaerdydd ymhlith y Tsieineaid yw'r math o 'gymuned ethnig' o safbwynt gweithgarwch a saernïaeth sydd, ymhlith grwpiau eraill, yn cael ei sbarduno gan bolisïau'r Llywodraeth sy'n mynnu eu bod yn eu hadnabod eu hunain fel cymuned, gydag arweinwyr cymunedol, cyn y darperir nawdd ariannol. Mae mewnfudwyr Tsieineaidd yng Nghaerdydd, fel mewn rhannau eraill o'r DU, yn wahanol i fewnfudwyr eraill yn yr ystyr bod 'ymdrin â chyfyngiadau anodd yn y farchnad lafur wedi dod i fod yn fwy o flaenoriaeth na chyfranogiad gwleidyddol' (Parker, 1998, t. 67). Er gwaethaf yr hanes hir o bresenoldeb Tsieineaidd yng Nghaerdydd ac amlygrwydd cynyddol y Tsieineaid dros y blynyddoedd diwethaf, roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno mai ychydig iawn o weithgareddau wedi'u trefnu sydd ar gael, ac mae nifer heb fod yn ymwybodol o'r rheiny sydd ar gael neu nid ydynt yn cyfranogi oherwydd diffyg amser neu ddiddordeb. Roedd gan y preswylwyr Tsieineaidd hirdymor weledigaeth gliriach ar gyfer cymuned Tsieineaidd oherwydd yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu am gymunedau Tsieineaidd eraill yn y DU. Iddynt hwy, roedd 'cymuned' yn cynnwys canolfan galw-heibio ag amryw weithgareddau wedi'u hanelu at eu hanghenion, llety gwarchodol i'r henoed, a mwy o gymorth ar gyfer ysgolion iaith atodol.

Pwyntiau i grynhoi

- Yn yr holl wasanaethau a drafodwyd gyda chyfranogwyr yn yr ymchwil, dywedodd aelodau o grwpiau lleiafrifol am brofiadau o wahaniaethu, anwybodaeth ddiwylliannol dramgwyddus neu hiliaeth.

- Roedd mannau cyhoeddus, megis y dref neu'r trenau, hefyd yn lleoedd yr oedd lleiafrifoedd sy'n wahanol yn weladwy'n teimlo'n anghyfforddus ynddynt, yn enwedig ar ôl yr ymosodiadau ar wasanaethau cludiant Llundain ar 7/7.

- Roedd pawb o'r rheiny a oedd yn dlawd yn yr ymchwil hon yn tueddu i sôn am fathau tebyg o brofiadau gwael gyda thai, landlordiaid neu weithwyr cyngor. Roedd ymfudwyr yn dehongli hyn fel hiliaeth, eraill yn ei ddehongli fel pobl a chanddynt rym yn peidio â gofidio a'r myfyrwyr yn ei ddehongli fel sefyllfa lle mae pobl yn camfanteisio arnynt. Roedd y gwahanol ganfyddiadau hyn am brofiadau gwael yn gyffredin mewn meysydd eraill megis addysg, gofal iechyd a chyflogaeth.

- Roedd enghreifftiau o densiynau rhwng newydd-ddyfodiaid a chymunedau sefydlog yn STAR, yn Cathays ac ym Merthyr. Ym mhob achos mater o grwpiau dosbarth-gweithiol sefydlog yn ymateb yn negyddol i newydd-ddyfodiaid ydoedd, ond ym mhob achos roedd hyn am resymau gwahanol iawn:
  – Yn STAR, roedd yn gas gan bobl y sŵn, y gorboblogi, y baich ar adnoddau a'r baich annheg a oedd yn cael ei osod ar ardaloedd amddifadus gan weithwyr mudol a cheiswyr lloches pan nad oedd ardaloedd dosbarth-canol yn gwneud eu rhan.
  – Yn Cathays roedd y gymuned ddosbarth-gweithiol hŷn sefydledig yn cael y myfyrwyr yn swnllyd ac yn anniben.
  – Ym Merthyr roedd yn ymddangos fel pe bai'n gas gan bobl y gweithwyr mudol Portiwgeaidd am eu bod yn wahanol ac i'w cael ym mhobman.

- Roedd grwpiau mudol yn enwedig yn credu bod eu gallu i integreiddio a dod yn rhan o gymuned gydlynol yn cael ei niweidio'n gyson gan stereoteipiau a oedd yn cael eu hyrwyddo gan y cyfryngau.

5 Casgliadau a chyfarwyddiadau polisi

Aeth yr ymchwil hon ati i archwilio ystod o gymunedau ac ardaloedd daearyddol yng Nghaerdydd a Merthyr Tudful er mwyn canfod sut yr oedd ymfudiad newydd yn effeithio ar gymunedau sy'n derbyn a sut yr oedd cymuned, integreiddio a chydlyniant cymdeithasol a chymunedol yn cael eu dychmygu a'u cyflawni yn y cyd-destunau hyn. Mae'r hyn yr ydym wedi'i ganfod yn dynodi bod cynifer o fathau o gymuned a chydlyniant, ac yn wir gamau integreiddio a mathau o integreiddio, ag sydd o ardaloedd lleol yng Nghaerdydd a Merthyr Tudful, ei bod yn gwbl bosib i grwpiau fyw bywydau 'cyfochrog' heb unrhyw effaith ymddangosol ar gydlyniant cymunedol, y gall ymddangosiad integreiddio a chydlyniant ar y llaw arall guddio angen gwirioneddol, a bod dosbarth cymdeithasol, hil, oedran, rhyw a chyfoeth a thlodi perthynol yn ffactorau allweddol o ran penderfynu pa fath o 'integreiddio' a 'chydlyniant' fydd yn cyd-fynd â'r amrywiaeth cymhleth o ymfudiadau newydd mewn gwirionedd.

Mae ein canfyddiadau ni'n weddol debyg mewn nifer o ffyrdd i ganfyddiadau'r Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2007) ac yn cynnig yr holl heriau i bolisi a gynigir gan yr 'uwch-amrywiaeth' a ddisgrifiwyd gan Vertovec (2006) ac a dderbynnir i raddau helaeth gan y Comisiwn fel y realiti newydd o ran ymfudiad.

Polisi ar gydlyniant yng Nghymru

Yn 2006 bu i'r Swyddfa Gartref ariannu swydd sy'n ymwneud â Chydlyniant Cymunedol yn yr Uned Polisi Cydraddoldeb (EPU) yng Nghyfarwyddiaeth Gymunedau'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio gynt yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ddwyn dylanwad polisïau'r Swyddfa Gartref arni yn y cyd-destun hwn. Yn 2008 mae tîm cydlyniant cymunedol ac iddo dri aelod yn bodoli. Cyfrannodd Cymru at ymgynghoriad yr UE ar bolisi cydlyniant a ddaeth i ben yn gynnar yn 2008 ac mae'r tîm cydlyniant cymunedol yn y Cynulliad yn gweithio ar ddatblygu polisi cydlyniant i Gymru.

Yn dilyn yr etholiadau yng Nghymru yn 2007, mae'r ddwy adran newydd, sef Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol rhyngddynt wedi ymgorffori cryn dipyn o'r hyn a oedd wedi'i cynnwys yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae Cydlyniant Cymunedol bellach wedi'i gynnwys ym maes Diogelwch Cymunedol fel ag y mae yn y rhan fwyaf o'r gweinyddiaethau cyfredol yn y DU. Mae'n rhy gynnar i allu dweud ar

hyn o bryd, o ystyried yr amser y mae wedi'i gymryd i'r llywodraeth glymblaid newydd yng Nghymru gael ei thraed dani, sut yn union y bydd yr adrannau hyn yn canlyn arni â'r materion ym maes cydlyniant cymunedol.

Cynigir rhai cliwiau gan y dulliau diweddar mewn perthynas â thlodi. Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf (2008), sef prif gynllun y Llywodraeth Lafur flaenorol i fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac amddifadedd, cafodd ei hailenwi'n Cymunedau Nesaf a'i chyfarwyddo fel ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau cyraeddadwy, e.e. ym maes iechyd, swyddi a sgiliau, a chymunedau cryf a diogel. Ymddengys mai ffocws y Cynulliad yw targedu'r hyn y mae bellach yn ei alw'n 'anweithgarwch economaidd' ar draws cymunedau, ac mae gweinidogion a gweision sifil yn nodi y bydd pedwar prosiect mawr a fydd yn cwmpasu nifer o ardaloedd neu gymunedau'n disodli'r gormodedd rhanedig o brosiectau bychain a ariannwyd yn flaenorol. Yn hyn o beth, ymddengys fod LlCC yn dilyn ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant yn agos. Mae'n debygol felly, yn y cyd-destun hwn, y bydd polisi newydd ar gydlyniant cymunedol yng Nghymru'n dilyn.

Tua diwedd 2007, fe ymgymerodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal Llywodraeth y Cynulliad ag ymgynghoriad ynghylch profiad gweithwyr mudol yng Nghymru. Nid yw'r ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi eto (felly'r oedd hi ym mis Mawrth 2008). Ymddengys fod y fenter hon hefyd yn ymarfer mapio o'r math a argymhellwyd gan y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2007).

Ar y llaw arall, mae Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Cymru, a luniwyd dan y Llywodraeth Lafur flaenorol, ar hyn o bryd yn mynd trwy'r broses asesu effeithiau (Mawrth 2008) a chaiff ei chyhoeddi cyn bo hir. Yn bwysig, mae'r polisi'n cynnwys integreiddio a chydlyniant yn ei ddiffiniad o gynhwysiant ac ymddengys ei fod yn adlewyrchu dealltwriaeth am yr angen am integreiddio economaidd a diwylliannol fel mathau hanfodol o ymaddasu gan y ddwy ochr, naill ai cyn neu'r un pryd â chydlyniant.

Iaith polisïau a chreu 'synnwyr cyffredin'

Yn *Our Shared Future* (2007), gofynnodd y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant i'r Llywodraeth gyfleu'n fwy eglur y gwahaniaeth rhwng cydraddoldeb hiliol, cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar. Nid yw ymateb y Llywodraeth wedi llwyddo mewn gwirionedd ar unrhyw adeg i ddatblethu'r materion hyn sydd erbyn hyn wedi'u cysylltu'n agos. Mae'r cysylltiadau rhyngddynt wedi mynd mor bell â dod i fod yn 'synnwyr cyffredin' gwleidyddol. Felly mae'r ymateb (2008) yn dweud wrthym 'yn y

Llywodraeth ganolog ac mewn llywodraeth ranbarthol a lleol, yr un unigolyn neu grŵp o bobl sy'n aml yn gyfrifol am bob un o'r tri' a bod 'synergeddau rhyngddynt' yn dal i fodoli. Bydd cydraddoldeb hiliol yn 'hybu cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael ag eithafiaeth', tra bod 'negeseuon eithafol' yn llai tebygol o gael cefnogaeth mewn 'cymunedau cydlynol' (1.7-1.9). Felly er bod y Comisiwn wedi symud ymlaen gryn dipyn ers Cantle (2001), nid yw'r Llywodraeth wedi mewn gwirionedd. Mae datganiad Hazel Blears (Chwefror 2008) yn dal i sôn am 'reoli amrywiaeth' fel nad yw'n dod i fod yn 'broblem', gan fynegi'r union fath o 'hiliaeth elitaidd' a adnabuwyd gan Blommaert a Vershueren ym 1998. Nid yw hyn yn wahanol iawn mewn gwirionedd i'r iaith a ddefnyddid ar ôl y terfysgoedd yng ngogledd Lloegr yn 2001, pan fu i'r ffocws ar grwpiau ethnig lleiafrifol a oedd yn cael eu hystyried yn 'broblem' am eu bod yn byw 'bywydau cyfochrog' mewn 'cymdogaethau gwahanedig' arwain am y tro cyntaf at newid mewn ffocws ar 'gysylltiadau cymunedol' fel yr ateb (Cantle, 2001). Caiff y mathau hyn o negeseuon amlwg eu cyfleu, a chanfyddir eu bod yn cael eu cyfleu, trwy ddibyniaeth y cyfryngau ar lefarwyr pwerus yn y Llywodraeth fel ffynonellau.

Mae ein hymchwil, wrth archwilio dealltwriaethau synnwyr-cyffredin am y math hwn o iaith, wedi dangos pa mor anodd ydyw i newid yr hanesion grymus hyn, a pha mor bell ydynt o'r gwirionedd ym mywydau pob dydd pobl. Felly canfuom, er gwaethaf y newidiadau ym myd polisïau erbyn 2005/06 ac er gwaethaf yr hyn y byddai'r Comisiwn yn ei ddweud wedyn yn 2007, fod y mwyafrif llethol o'r bobl gyffredin yng Nghaerdydd ac ym Merthyr yn 2006 yn dal i feddwl bod a wnelo polisi mewnfudo â chymhathu, bod cymunedau mudol yn wahanedig ac yn byw 'bywydau cyfochrog', ac mai'r ffordd ddiofyn o gategoreiddio'r holl ymfudwyr mewn ardaloedd amddifadus oedd fel 'ymfudwyr anghyfreithlon' a 'cheiswyr lloches' neu 'ffoaduriaid'.

Mae iaith polisïau ac iaith y Llywodraeth yn bwerus iawn. Maent yn magu cynodiadau peryglus gydag amser, mae ganddynt y grym i atal pobl rhag gweld realiti, ac mae'n rhaid iddynt gael eu sefydlu a'u rhoi ar waith ar bob lefel mewn llywodraeth leol a rhanbarthol ac yn y drefn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau er mwyn iddynt wneud y gwaith y maent wedi'u bwriadu i'w wneud. Mae'n rhaid i'w negeseuon hefyd gael eu cyfleu'n effeithiol i boblogaethau sefydlog a newydd er mwyn i ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr a dealltwriaeth ar y ddwy ochr am hawliau a chyfrifoldebau fod yn realiti.

Cydlyniant: gwirioneddau lleol

Nid oes tystiolaeth yn ein hymchwil ei bod yn anorfod bod tensiynau cymunedol yn dilyn yn sgîl mewnfudiad newydd. Mae ein tystiolaeth yn dynodi bod natur cysylltiadau'n amrywio yn ôl: y cyd-destun economaidd-gymdeithasol lleol; cefndir mewnfudwyr newydd a chymunedau sy'n derbyn o safbwynt dosbarth cymdeithasol

a'u rhyw; hanes o anheddiad blaenorol a phroffil yr ardal o ran ethnigrwydd, oedran a dosbarth; y modd y caiff mewnfudo, ceiswyr lloches a gweithwyr mudol eu darlunio gan y cyfryngau cenedlaethol a lleol; statws cyfreithiol mewnfudwyr newydd; ac, mewn ardaloedd amddifadus a dosbarth-canol, llwyddiant asiantaethau a grwpiau lleol o ran cyfryngu rhwng, a chyfathrebu ynghylch, poblogaethau sefydlog a phoblogaethau sy'n dod i mewn.

Ymddengys fod mewnfudo gan bobl wyn, pa un a ydynt yn bobl broffesiynol sy'n perthyn i'r dosbarth canol, yn fyfyrwyr ynteu'n weithwyr mudol, yn anweladwy i boblogaethau lleol yng Nghaerdydd. Mae arwyddion cryf bod gallu ymfudwyr i weithio o gymorth i integreiddio a chydlyniant.

Nid oes tystiolaeth bod grwpiau ethnig lleiafrifol yn fwy 'gwahanedig' o gwbl na chymunedau dosbarth-canol a dosbarth-gweithiol sy'n derbyn a dim tystiolaeth eu bod yn llai integredig o gwbl na chymunedau dosbarth-gweithiol gwyn ar ystadau cyngor. Mae pobl ifanc gwyn yng Nghaerdydd a phobl ifanc a phobl ddigartref a thlawd ar yr ystadau cyngor y gweithion ni gyda hwy ym Merthyr i'w gweld fel pe baent ymhlith y grwpiau lleiaf integredig yn ein data ac ymddengys mai ymddygiad pobl ifanc sy'n achosi'r tensiynau cymunedol mwyaf ym mhob ardal bron. Mae tensiynau rhwng y cenedlaethau'n bresennol ym mhob cyd-destun ac mae newidiadau o un genhedlaeth i'r llall yn agwedd bwysig ar integreiddio a chydlyniant cymdeithasol hirdymor. Roedd rhai grwpiau oedrannus, rhai plant a rhai menywod yn grwpiau eraill a oedd, yn ansyfrdanol o bosib, yn ymddangos yn unig ac mewn angen ar draws ein data ni.

Tlodi, dosbarth cymdeithasol a chydlyniant

Mae gwahaniaethau syfrdanol rhwng dosbarthiadau'n bodoli yn ac ar draws y cymunedau a'r ardaloedd y bu i ni ymchwilio iddynt ac yn effeithio ar y ffyrdd y caiff integreiddio a chydlyniant cymdeithasol eu profi fel rhan o fywyd pob dydd. Yn yr astudiaeth hon, roedd tlodi'n un o'r amodau canolog ym mywydau nifer o'r cyfranogwyr. Y rheswm am hyn yw ei bod yn anorfod bod mathau penodol o ymfudwyr newydd yn y pen draw'n byw yn yr ardaloedd gwaethaf o safbwynt 'eithrio cymdeithasol' ac 'amddifadedd'. Fodd bynnag, roedd cefndir o ran dosbarth, a llwybrau bywyd cyfredol, yn gwneud gwahaniaethau anferth i'r ffordd yr oedd pobl yn ymateb i dlodi neu i'r profiad o ymfudo ar ei amryw ffurfiau. Mae ymfudwyr dosbarth-canol sydd wedi derbyn addysg ac sy'n siarad Saesneg yn rhugl yn tueddu i ymddangos fel pe baent wedi integreiddio'n well, hyd yn oed os ydynt yn dal yn dlawd, ac felly hefyd fyfyrwyr yn Cathays sy'n ystyried eu tlodi'n rhywbeth dros dro.

Mae'r 'arweinwyr' hyn mewn cymunedau ethnig dosbarth-canol a chanddynt rywfaint o addysg a phrofiad sy'n eu galluogi i gymysgu a thrafod â'r 'gweinyddwyr' dosbarth canol (h.y. gweision sifil, gweithwyr cyngor ac yn y blaen) yn gwneud cyfraniad anferth, sy'n bennaf heb ei gydnabod, i'r economi leol a chenedlaethol o ran rhoi cymorth i ymfudwyr newydd, yn aml trwy wirfoddoli. Ar y llaw arall, mae tystiolaeth o wahaniaethau gwirioneddol a thensiynau ym Merthyr rhwng y dosbarth gweinyddol a'r bobl sy'n byw ar ystadau tai.

Mae diwylliant y dosbarth gweithiol yng Nghymru, yn enwedig diwylliant ieuenctid, yn aml yn cael ei ystyried yn niweidiol i lawer o'r hyn y mae ymfudwyr newydd (o gefndir dosbarth-canol a dosbarth-gweithiol) yn ei werthfawrogi. Felly mae ymfudwyr newydd, pa un a ydynt yn famau Somalïaidd sengl sy'n ceisio lloches ac yn byw mewn tlodi, ynteu'n deuluoedd Mwslimaidd trydedd-genhedlaeth o ba bynnag gefndir, a hwythau'n grwpiau sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar iawn o Swdan, Irac neu Yemen, neu'n breswylwyr Tsieineaid neu Somalïaidd Prydeinig hirsefydlog, yn gweld yr angen i warchod eu plant rhag y dylanwadau hyn (fel yn wir y mae rhieni gwyn Cymreig dosbarth-canol yn Llandaf a phreswylwyr hŷn ym Merthyr Tudful). Mae hyn yn creu fersiwn o 'fywydau cyfochrog' (yn Llandaf, yn STAR ac ymhlith rhieni Somalïaidd ac Arabaidd yn ein data), ond nid yr un y mae'r polisi'n dweud wrthym amdano.

Mae plant a phobl ifanc, ar y llaw arall, weithiau'n gwrthsefyll y tueddiadau gwarcheidiol hyn, ac weithiau, fel yn y gymuned Somalïaidd, yn ystyried clybiau ieuenctid ac ymdrechion i'w 'cadw oddi ar y strydoedd' yn bwysig o ran herio stereoteipiau am y gymuned a'u gwarchod rhag cael eu gwylio gan yr heddlu. Ymddengys ar y cyfan fod mwy o gyfrifoldeb cymunedol yn cael ei gymryd am ymddygiad pobl ifanc mewn cymunedau ethnig lleiafrifol ac yn ardal ddosbarth-canol Llandaf (lle mae nifer o Tsieineaid dosbarth-canol yn anfon eu plant i'r ysgol) nag mewn ardaloedd eraill.

Rhwystrau allanol i integreiddio

Mae tystiolaeth yn ein hymchwil y gall y math o hiliaeth a gwahaniaethu a ddisgrifir gan grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghaerdydd fel ffactorau sy'n effeithio ar wasanaethau a chanddynt rôl bosib mewn perthynas ag integreiddio (gan gynnwys iaith, cymorth cyfreithiol, tai, addysg, cyflogaeth ac iechyd) fod yn gysylltiedig yn rhannol â dosbarth yn ogystal â thlodi. Caiff yr un cwynion eu cyfleu am y modd y darperir gwasanaethau ar ystadau Merthyr Tudful a chan fyfyrwyr yn Cathays.

Gall rhwystrau hefyd fod yn gymhleth ac yn amwys. Er enghraifft, mae dicter yn y gymuned Somalïaidd ynglŷn â thangyflogaeth graddedigion prifysgol, y mae nifer ohonynt yn gyrru tacsis. Ystyrir fod hyn yn deillio o hiliaeth a gwahaniaethu. Fodd bynnag, roedd aelodau hŷn o'r gymuned, er eu bod yn cydnabod hyn, hefyd yn ystyried ei fod yn cynnwys proses o integreiddio a chydlyniant araf. O leiaf mae graddedigion Somalïaidd sy'n gyrru tacsis yn gallu ennill bywoliaeth a phrynu tai, ac mae'u gwaith yn golygu eu bod yn rhyngweithio llawer â grwpiau eraill.

Mae'n rhaid i integreiddio economaidd, fodd bynnag, ddod, ac mae'n dod, cyn cydlyniant. Caiff hyn ei ddeall yn llawer gwell yn ein hymchwil gan y rheiny sy'n ei chael yn anodd perthyn yn y lle newydd na chan aelodau o gymunedau sefydlog. Felly i rai ymatebwyr Somalïaidd roedd yn amlwg yn bwysicach bod â thai da, addysg dda a swyddi na ffrindiau gwyn. Yn wir roeddent yn dadlau ei bod yn debygol bod y nifer o ffrindiau gwyn a oedd ganddynt hwy'n uwch na'r nifer o ffrindiau duon a oedd gan bobl wyn yng Nghaerdydd ond nad oedd hyn yn datrys problemau diweithdra, tai gwael, anfantais addysgol, tlodi a hiliaeth.

Hanes, integreiddio a chydlyniant

Mae hanes hefyd yn bwysig a gall effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y ffordd y mae pobl yn eu hystyried eu hunain a'r ffordd y maent yn byw eu bywydau. Gall tair cenhedlaeth o hiliaeth a gwahaniaethu gael effaith fwy difrifol ar ymdeimlad pobl o berthyn nag ychydig fisoedd o'r math hwn o brofiad. Yn hyn o beth roedd menywod Somalïaidd yn cofio hanesion eu tadau am landlordiaid yn gosod arwyddion a oedd yn nodi 'No Blacks Need Apply' ac yn dal i deimlo'u bod wedi'u heithrio gan hyn, tra bod cymunedau sefydlog yn dal i siarad am y ffaith bod ceiswyr lloches Somalïaidd ym 1988 wedi cael tai newydd mawr gan Gyngor Caerdydd, stori a oedd wedi'i chynnwys ar y dudalen-flaen yn y wasg leol ar y pryd. Roedd pobl ifancach, a oedd wedi cyrraedd yn fwy diweddar, yn dal yn gyndyn o alw pethau'n 'hiliol' ac yn dymuno rhoi mantais yr amheuaeth i'r bobl leol.

Gwersi i Gymru

Mae gwersi gwirioneddol yma o safbwynt datblygu polisïau yng Nghymru ym maes cydlyniant cymunedol. Mae'n rhaid i arweinwyr gwleidyddol dderbyn a deall y polisi a gwybod sut i'w gyfleu i'r cyfryngau er mwyn i ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd ddilyn. Ond er mwyn i'r polisi wneud unrhyw waith gwirioneddol, yna mae'n rhaid i'r rheiny ar lefel cynghorau lleol ac mewn cyd-destunau eraill o ran darparu gwasanaethau gael eu hyfforddi i ddeall cyfarwyddiadau polisi newydd a chyflawni mewn perthynas â hwy er mwyn cael y math o barch a dealltwriaeth ar y ddwy ochr y mae'r Comisiwn ar Integreiddio a Chynhwysiant (2007) yn siarad amdano. Mae nifer o enghreifftiau o arfer da y gellid eu defnyddio fel modelau, yn enwedig yng nghyd-destun ESOL ac addysg mewn ysgolion.

Bydd angen gwirioneddol hefyd i osgoi'r tueddiad synnwyr-cyffredin, sydd bellach yn sefydliadol, i gysylltu cydraddoldeb, cydlyniant cymunedol a materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol ac eithafiaeth â'i gilydd ac angen cysylltiedig i archwilio materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ar draws cymunedau, grwpiau ac ardaloedd sefydlog a newydd. Dengys ein hymchwil yn eglur iawn y bydd canolbwyntio ar y cyntaf yn unig yn golygu ein bod yn colli nifer o'r materion am lawer o'r amser. Mae rhwystrau gwirioneddol i integreiddio a chydlyniant ar draws grwpiau ac ardaloedd newydd a sefydlog, ethnig lleiafrifol a sefydlog mwyafrifol a gwyn yng Nghaerdydd a De Cymru.

Mae prinder ymchwil enfawr yn bodoli mewn perthynas â dosbarth cymdeithasol yn enwedig fel ffactor sy'n effeithio ar brosesau integreiddio a chynhwysiant. Mae tystiolaeth o hiliaeth a gwahaniaethu mewn gwasanaethau a chyd-destunau a ddylai hybu integreiddio'n gwrth-ddweud unrhyw ddatrysiad syml i 'broblemau' canfyddedig mewn perthynas ag ymfudiad newydd y gallai profion/seremonïau dinasyddiaeth neu hawliau a chyfrifoldebau cytunedig yn unig eu cynnig. Mae rhwystrau i integreiddio a chydlyniant yn bodoli o fewn cymunedau a grwpiau a rhyngddynt.

Mae tensiynau o fathau gwahanol a chymhleth rhwng y cenedlaethau'n bodoli ar draws yr holl gymunedau a grwpiau y bu i ni ymchwilio iddynt a chânt eu hamcangyfrif yn rhy isel hefyd mewn perthynas ag integreiddio a chydlyniant. Mae'r mater sy'n ymwneud â'r nifer o grwpiau o unigolion unig, agored i niwed mewn ystod o gymunedau sydd i'w gweld yn llwyddiannus ac yn llai llwyddiannus yn arwain at fethiant ym mhob un o'r tri maes a ddiffiniwyd fel rhai sy'n esgor ar gydlyniant cymunedol yn ymateb diweddar y Llywodraeth i'r Comisiwn (Blears, 2008).

Caiff cyfathrebu a gwaredu mythau eu cydnabod yn weithgareddau allweddol ac angenrheidiol ond, a dweud y gwir, ychydig o fodelau sydd gennym y dangoswyd eu bod yn gweithio mewn gwirionedd o ran newid barn sydd wedi hen ymwreiddio ymhlith y cyhoedd (Gross *et al.*, 2008). Efallai fod achosi newidiadau gwirioneddol mewn agweddau rhwng grwpiau mewn gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol yn bwysicach.

Bydd mapio maint poblogaethau a materion mewn ardaloedd lleol a newid y modelau ariannu o gymorth ond bydd yn cymryd amser. Mae angen cael o leiaf ddealltwriaeth am gymhlethdod a natur haenog yr uwch-amrywiaeth sydd bellach yn norm yng Nghymru a'r nifer o ffactorau a materion sydd mewn gwirionedd yn gyffredin rhwng cymunedau newydd a sefydlog.

Cyfeiriadau

Adroddiad Parekh (2000) *The Future of Multi-Ethnic Britain*, adroddiad gan y Comisiwn ar Ddyfodol Prydain Aml-ethnig. Llundain: Profile Books

Ahmed, Eid Ali (1998) 'Socio-economic disadvantages of the Somali community', thesis MBA, Prifysgol Morgannwg

Ahmed, Sara (2004) *The Cultural Politics of Emotion.* Caeredin: Edinburgh University Press

Ahmed, Sara (2006) 'Doing diversity work', *Policy Futures in Education* (golygwyd ar y cyd gydag Elaine Swan), Cyf. 4, Rhif 2. Ar gael yn www.wwwords.co.uk/pfie/content/pdfs/4/issue4_2.asp

Ahmed, Sara; Hunter, Shona; Killic, Sevgi; Swan, Elaine a Turner, Lewis (2006) *Race, Diversity and Leadership in the Learning and Skills Sector, wedi'i gomisiynu gan Y Ganolfan er Rhagoriaeth mewn Arwain*. Ar gael yn www.goldsmiths.ac.uk/media-communications/staff/finaldiversityreport.pdf

Amit, Vered (gol.) (2002) *Realizing Community: Concepts, Social Relationships and Sentiments*. Llundain: Routledge

Balibar, Etienne a Wallerstein, Immanuel (1991) *Race, Nation, Class: Ambiguous Identities*. Llundain ac Efrog Newydd: Verso

Ballard, Roger (gol.) (1994) *Desh Pardesh: The South Asian Presence in Britain.* Llundain: Hurst & Co.

Barbour, Rosaline a Kitzinger, Jenny (gol.) (2001) *Developing Focus Group Research: Politics, Theory, Practice.* Llundain: Sage

Barsky, Robert F. (2005) 'Stories from the Court of Appeal in literature and law', yn M. Baynham ac A. de Fina (gol.) *Dislocations/Relocations: Narratives of Displacement*. Manceinion: St Jerome Publishing

Baumann, Gerd (1998) *Contesting Culture: Discourses of Identity in Multi-Ethnic London.* Caergrawnt: Cambridge University Press

Baynham, Mike a de Fina, Anna (gol.) (2005) *Dislocations/Relocations: Narratives of Displacement*. Manceinion: St Jerome Publishing

Berkeley, Rob; Khan, Omar ac Ambikaipaker, Mohan (2006) *What's New about New Immigrants in Twenty-First Century Britain?* Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael yn www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/0086.asp

Bhachu, Parminder (1985) *East African Sikh Settlers in Britain*. Llundain: Tavistock Publications

Bhavnani, Reena; Mirza, Heidi Safia a Meetoo, Veenba (2005) *Tackling the Roots of Racism: Lessons for Success*. Bryste: The Policy Press

Blears, Hazel (2008) *The Government's Response to the Commission on Integration and Cohesion*. Ar gael yn www.communities.gov.uk/publications/communities/governmentresponsecoic

Blommaert, Jan a Verschueren, Jef (1998) *Debating Diversity: Analysing the Discourse of Tolerance*. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge

Bourdieu, Pierre (1984) *A Social Critique of the Judgment of Taste*. Cyf. Richard Nice. Caergrawnt, MA: Harvard University Press

Buchanan, Sara; Grillo, Bethan a Threadgold, Terry (2003) *What's the Story? Results from Research into Media Coverage of Refugees and Asylum Seekers in the UK*. Llundain: Erthygl 19

Cantle, Ted (2001) *Community Cohesion: A Report of the Independent Review Team.* Llundain: Y Swyddfa Gartref

Castles, Stephen (2004) 'Why migration policies fail', *Ethnic and Racial Studies*, Cyf. 27, Rhif 2, Mawrth, tt. 205–27

Castles, Stephen; Korac, Maja, Vasta, Ellie a Vertovec, Steven (2002) *Integration: Mapping the Field*, adroddiad ar brosiect a gwblhawyd gan Ganolfan Ymchwil i Ymfudiad a Pholisi a Chanolfan Astudiaethau Ffoaduriaid Prifysgol Rhydychen, ar gontract i Wasanaeth Ystadegau Mewnfudo ac Ymchwil (IRSS) y Swyddfa Gartref

Cayford, Joanne M. (1991) 'In search of "John Chinaman": press representations of the Chinese in Cardiff 1906–1911', *Llafur,* Cyf. 5, Rhif 4, tt. 37–50

Cohen, Anthony P. (1985) *The Symbolic Construction of Community*. Llundain: Tavistock Publications

Cohen, Steve; Humphries, Beth a Mynott, Ed (gol.) (2002) *From Immigration Controls to Welfare Controls*. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge

Coles, E. C. (2006) *Alcohol ac Iechyd: Mater Iechyd Cyhoeddus o Bwys.* Caerdydd: Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac EQUAL (2005) Adroddiad ar Gynhadledd Fforwm Cyflogadwyedd Caerdydd a gynhaliwyd ar 6 Medi 2005

Cymdeithas Llandaf (1996, ailargraffwyd ym 1998) *Llandaff: The Archive Photographs Series.* Swydd Gaerloyw: Tempus

Cymunedau'n Gyntaf Caerdydd (2005) *Adroddiad ar yr Ymgynghoriad â Chymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.* Ar gael yn http://archive.cardiff.gov.uk/SPNR/communities_first/BME/Reports%202005/2005%20BME%20Consultation%20Report%20English.p

Deddf (Newid) Cysylltiadau Hiliol 2001. Llundain: Llyfrfa EM

Dench, Geoff; Gavron, Kate ac Young, Michael (2006) *The New East End: Kinship, Race and Conflict*. Llundain: Profile Books

Drake, St Clair (1954) 'Value systems, social structure and race relations in the British Isles', thesis PhD, Chicago, Illinois

Durante, Lula (2006) *Deliberative Workshops: Exploring Communications on Asylum Seekers*. Llundain: IPPR

Evans, J. a Wood, F. (1999) *Living in Ely: The Experience of Service Provision and Harassment among the Black and Ethnic Minority Population*. Caerdydd: Barnardo's

Evans, Neil (1980) 'The South Wales race riots of 1919', *Llafur*, Cyf. 3, Rhif 1, tt. 5–29

Evans, Neil (1988) '"A tidal wave of impatience": the Cardiff general strike of 1911', yn G. H. Jenkins a J. B. Smith (gol.) *Politics and Society in Wales, 1840–1922*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Evans, Neil (2003a) 'New migrants and minorities in Wales, 1840–1990', yn Williams *et al*. (gol.) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Evans, Neil (2003b) 'Through the prism of ethnic violence: riots and racial attacks in Wales, 1862–2002', yn Williams *et al*. (gol) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Fairclough, Norman (2000) *New Labour, New Language?* Llundain ac Efrog Newydd: Routledge

Fortier, Anne-Marie (2000) *Migrant Belongings: Memory, Space, Identity.* Rhydychen ac Efrog Newydd: Berg

Fforwm Polisi Cymru Gyfan ar Ffoaduriaid (Is-grŵp Tai) (2005) Cynllun Gweithredu Drafft ar Dai i Ffoaduriaid

Gillespie, Marie (1995) *Television, Ethnicity and Cultural Change*. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge

Gross, Bernhard, Moore, Kerry a Threadgold, Terry (2008) *Broadcast News Coverage of Asylum April to October 2006: Caught Between Human Rights and Public Safety*. Caerdydd: Ysgol Caerdydd ar gyfer Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol ac Oxfam

Harris, Hermione (2004) *The Somali Community in the UK: What We Know and How We Know It*, comisiynwyd a chyhoeddwyd gan y Ganolfan Gwybodaeth am Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn y DU (ICAR)

Hewett, Tracy; Smalley, Nina; Dunkerley, David a Scourfield, Jonathan (2005) *Uncertain Futures: Children Seeking Asylum in Wales*. Caerdydd: Achub y Plant

Holmes, Colin (1988) *John Bull's Island: Immigration and British Society, 1871–1971*. Llundain: Macmillan

Hubbard, Anne (2005) 'Migrant workers: Wales', papur a gyflwynwyd yn y Fforwm Polisi Cymru Gyfan ar Ffoaduriaid

ICAR (2004a) *Understanding the Stranger: Final Report*, comisiynwyd a chyhoeddwyd gan y Ganolfan Gwybodaeth am Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn y DU (ICAR)

ICAR (2004b) *Media Image, Community Impact: Assessing the Impact of Media and Political Images of Refugees and Asylum Seekers on Community Relations in London: Report of a Pilot Research Study*. Y Ganolfan Gwybodaeth am Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn y DU (ICAR) ar gyfer Maer Llundain,Ebrill

Jiang, Xinyi. (2006) 'Fujianese migration on the margin: a study of migration culture through history, media representation and ethnography', thesis PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caerdydd

Jordan, Glenn H. (1991) 'On ethnography in an intertextual situation: reading narratives or deconstructing discourse', yn Faye V. Harrison (gol.) *Decolonizing Anthropology: Moving Further Toward an Anthropology of Liberation.* Washington DC: Association of Black Anthropologists

Jordan, Glenn (2003) 'Voices from below: doing people's history in Cardiff docklands', yn Stefan Berger, Heiko Feldner a Kevin Passmore (gol.) *Writing History: Theory and Practice*. Llundain: Arnold

Jordan, Glenn (2004) '"We never really noticed you were coloured": postcolonial reflections on new migrants and minorities in Wales', yn Jane Aaron a Chris Williams (gol.) *Postcolonial Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Jordan, Glenn, gyda chymorth Ahmed, Akli ac Arwo, Abdi (2004) 'Somali Elders: Portraits from Wales', ffotograffau a thestun gan Glenn Jordan

Kyambi, Sarah (2005) *Beyond Black and White: Mapping New Immigrant Communities*. Llundain: IPPR

Laclau, Ernesto a Mouffe, Chantal (1985) *Hegemony and Socialist Strategy: Towards a Radical Democratic Politics*. Llundain ac Efrog Newydd: Verso

Law, John (2004) *After Method: Mess in Social Science Research*. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge

Lewis, Miranda (2005) *Asylum: Understanding Public Attitudes.* Llundain: IPPR

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (1999) *Mapio Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru, Adroddiad Blynyddol*. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/mse1999/?lang=cy

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2000) *Mapio Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru* a *Cymunedau'n Gyntaf: Adfywio ein Cymunedau Mwyaf Difreintiedig. Dogfen Ymgynghori*

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2003) *Cymru: Gwlad Well: Yr Agenda Strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru.* Ar gael yn www.wales.gov.uk/themesbettercountry/index.htm

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2004a) *Creu'r Cysylltiadau*. Ar gael yn www.wlga.gov.uk/cymraeg/internal-publications/wag-making-the-connections-report/

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2004b) *Prif-ffrydio Cydraddoldeb: Strategaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/caec/publications/equality/mainstreaming/mainstreaminge.pdf?lang=cy

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2005a) *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth – Ein Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd ar gyfer Darparu Gwell Gwasanaethau i Gymru*. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/newsevents/publications/actionplan/?lang=cy

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2005b) *Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2005–8*. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/equality/publications/raceequalityscheme/?lang=cy

LlCC (Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2006) *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid: Dogfen Ymgynghori*. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/housandcomm/refugeeinclusion/?lang=cy

Machin, David a Niblock, Sarah (2006) *News Production: Theory and Practice*. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge

Maloutas, T. a Pantelidou Malouta, M. (2004) 'The glass menageries of urban governance and social cohesion: concepts and stakes/concepts as stakes', *International Journal of Urban and Regional Research*, Cyf. 282 (Mehefin), tt. 449–65

Mathieu, Marika (2007) 'Britain: our divided nation', *New Statesman*, 13 Awst, tt. 30–1

Nagel, C. (2002) 'Constructing difference and sameness: the politics of assimilation in London's Arab communities', *Ethnic and Racial Studies*, Cyf. 25, Rhif 2, tt. 258–87

Nicholl, Anna (2005) *Adroddiad Cwmpas y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid: Adroddiad ar Faterion sy'n Berthnasol i Ddatblygu Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/research/refugeescoping?lang=cy

Ong, Aihwa (1999) *Flexible Citizenship: The Cultural Logics of Trasnationality.* Durham a Llundain: Duke University Press

ONS (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) (2006) *Internet Access: Households and Individuals*. Ar gael yn www.statistics.gov.uk/pdfdir/inta0806.pdf

Osmond, John a Mugaseth, Jessica (2007) 'Community approaches to poverty in Wales'. Ar gael yn www.iwa.org.uk/publications/pdfs/poverty_debate.pdf (cyrchwyd ar 10 Chwefror 2007)

Owen, David (1992) *Ethnic Minorities in Great Britain: Settlement Patterns*, National Ethnic Minority Data Archive 1991 Census Statistical Paper No. 1. Coventry: Y Ganolfan er Ymchwil i Gysylltiadau Ethnig, Prifysgol Warwick

Owen, David (1993a) *Ethnic Minorities in Great Britain: Age and Gender Structure,* National Ethnic Minority Data Archive 1991 Census Statistical Paper No. 2. Coventry: Y Ganolfan er Ymchwil i Gysylltiadau Ethnig, Prifysgol Warwick

Owen, David (1993b) *Ethnic Minorities in Great Britain: Economic Characteristics*, National Ethnic Minority Data Archive 1991 Census Statistical Paper No. 3. Coventry: Y Ganolfan er Ymchwil i Gysylltiadau Ethnig, Prifysgol Warwick

Owen, David (1994) *Chinese and 'Other' Ethnic Minorities in Great Britain*, National Ethnic Minority Data Archive 1991 Census Statistical Paper No. 8. Coventry: Y Ganolfan er Ymchwil i Gysylltiadau Ethnig, Prifysgol Warwick

Parker, David (1998) 'Chinese people in Britain: histories, futures and identities', yn G. Benton a F. N. Pieke (gol.) *The Chinese in Europe*. Llundain: Macmillan

Robinson, David a Reeve, Kesia (2006) *Neighbourhood Experiences of New Immigration: Reflections from the Evidence Base*. Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael yn www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/0086.asp

Robinson, Ian a Frankenberg, Ronald (2005) *Reconsidering Ethnicity: A Study of 'Non-Ethnic' People in the Midst of Ethnicity*. Llundain: ESRC

Robinson, Vaughan (2003a) 'Exploring myths about rural racism: a Welsh case study', yn Williams *et al*. (gol.) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Robinson, Vaughan (2003b) 'Croeso i Gymru – Welcome to Wales? Refugees and asylum seekers in Wales', yn Williams *et al*. (gol.) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Robinson, Vaughan (2006) *Mapping the Field: Refugee Housing in Wales*, comisiynwyd gan HACT a Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Llundain: HACT

Robinson, Vaughan; Andersson, Roger a Musterd, Sako (2003) *Spreading the 'Burden'? A Review of Policies to Disperse Asylum Seekers and Refugees*, prosiect a ariannwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bryste: The Policy Press

Root, Amanda (2007) *Market Citizenship: Experiments in Democracy and Globalization*. Llundain: Sage

Rhwydwaith Gwrthtlodi Cymru (2006) *Walk the Talk: Communities on Communities First*. Caerdydd: Oxfam Cymru

Scottish Refugee Integration Forum (SRIF) (2003) *Action Plan.* Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban

Scourfield, Jonathon a Davies, Andrew (2005) 'Children's accounts of Wales as racialized and inclusive', *Ethnicities*, Cyf. 5, Rhif. 1, tt. 83–107

Scourfield, Jonathon; Evans, Jonathan; Shah, Wahida a Beynon, Huw (2002) 'Responding to the experiences of minority ethnic children in all-white communities', *Child and Family Social Work,* Cyf. 7, Rhif. 3, tt. 161–75

Shaw, Alison (1988) *A Pakistani Community in Britain.* Rhydychen: Basil Blackwell

Smith, Dorothy (2005) *Institutional Ethnography: A Sociology for People*. Llundain ac Efrog Newydd: Rowman & Littlefield

Speers, Tammy (2001) *Welcome or Over Reaction? Refugees and Asylum Seekers in the Welsh Media.* Caerdydd: Fforwm Cyfryngau Cymru

Sproston, K., Pitson, L., Whitfield G. a Walker, E. (1999) *Health and Lifestyles of the Chinese Population in England*. Llundain: Yr Awdurdod Addysg Iechyd

Taylor, Monica (1987) *Chinese Pupils in Britain*. Llundain: Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol

Threadgold, Terry (2005a) *Focus Groups with Refugees: Report to the Welsh Refugee Council: Findings.* Ar gael yn http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/communitycohesion/research/focusgroups/?lang=cy

Threadgold, Terry (2005b) *Refugee Inclusion: A Literature Review: Findings and Recommendations*, tt. 1–8. Ar gael yn http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/communitycohesion/research/focusgroups/?lang=cy

Threadgold, Terry (2005c) 'Performing theories of narrative: theorising narrative performance', yn Joanna Thornborrow a Jennifer Coates (gol.) *The Sociolinguistics of Narrative.* Amsterdam: John Benjamins

Threadgold, Terry a Clifford, Sadie (2005) *Focus Groups with Refugees: Report to the Welsh Refugee Council.* Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/research/?lang=cy

Threadgold, Terry a Court, Geoff (2005) *Refugee Inclusion: A Literature Review*, lluniwyd ar gyfer Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/research/refugeeliteraturereview?lang=cy

Van Dijk, Teun (1993) *Elite Discourse and Racism*. Llundain: Sage

Vertovec, Stephen (2004) 'Diaspora', yn Ellis Cashmore (ed.) *Encyclopedia of Race and Ethnic Studies*, 4ydd rhifyn. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge, tt. 106–7

Vertovec, Stephen (2005) *The Political Importance of Diasporas*, Migration Information Source. Ar gael yn www.migrationpolicy.org/pubs/Migration_Development.php (cyrchwyd ym mis Mehefin 2005)

Vertovec, Stephen (2006) *The Emergence of Super-Diversity in Britain*, Working Paper No. 25. Rhydychen: Y Ganolfan ar Ymfudiad, Polisi a Chymdeithas, Prifysgol Rhydychen

Vertovec, Stephen (2007) 'Super-diversity and its implications', *Ethnic and Racial Studies*, Cyf. 30, Rhif 6, tt. 1024–54. Ar gael yn www.compas.ox.ac.uk/about/publications/steve/vertovec%20-%20super-diversity.pdf

Werbner, Pnina (2001) 'The limits of cultural hybridity: on ritual monsters, poetic licence and contested postcolonial purification', *Journal of the Royal Anthropological Institute*, Cyf. 7, Rhif 1, tt. 133–52

Williams, C. (1997) *Ethnic Minorities in Torfaen*. Cwmbran: Cyngor Sir Torfaen

Williams, Charlotte (1999) 'Passports to Wales? Race, nation and identity', yn Ralph Fevre ac Andrew Thompson (gol) *Nation, Identity and Social Theory: Perspectives from Wales*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Williams, Charlotte (2003a) 'Social inclusion and race equality in Wales' yn Williams *et al*. (gol) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Williams, Charlotte (2003b) 'Claiming the national: nation, national identity and ethnic minorities', yn Williams *et al*. (gol) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Williams, Charlotte; Evans, Neil ac O'Leary, Paul (gol) (2003) *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Williamson, Howard (2004) *The Milltown Boys Revisited.* Rhydychen: Berg

Y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2007) *Our Shared Future*. Ar gael yn www.integrationandcohesion.org.uk/Our_final_report.aspx

Y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yng Nghymru (2006) *Cod Ymarfer Statudol ar Gydraddoldeb Hiliol ym maes Tai yng Nghymru.* Ar gael yn www.info4local.gov.uk/documents/publications/30395

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (ar fin ymddangos) *Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Weithwyr Mudol yng Nghymru*. Caerdydd: LlCC

Y Swyddfa Gartref (2004) *Working Together: Co-operation between Government and Faith Communities.* Llundain: Llyfrfa EM

Y Swyddfa Gartref (2006) *A New Model for National Refugee Integration Services in England: Consultation Paper.* Llundain: Llyfrfa EM

Y Swyddfa Gartref (2001) *Integration Matters: A National Strategy for Refugee Integration.* Llundain: Llyfrfa EM

Ymddiriedolaeth Elusennol y Cymdeithasau Tai (HACT) (2005) 'The Refugee Housing Partnership Project', *Accommodate,* Rhifyn 3, Haf

Yuval-Davis, Nira; Anthias, Floya a Kofman, Elenore; (2005) 'Secure borders and safe haven and the gendered politics of belonging: beyond social cohesion', *Ethnic and Racial Studies*, Cyf. 28, Rhif 3 (Mai), tt. 513–35

Zetter, Roger; Griffiths, David a Sigona, Nando (2006) *Immigration, Social Cohesion and Social Capital: What are the Links?* Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael yn www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/0086.asp

Zhou, Mia (1992) *Chinatown: The Socioeconomic Potential of an Urban Enclave*. Philadelphia: Temple University Press

Atodiad 1: Termau a diffiniadau

Un o nodau allweddol yr ymchwil oedd ystyried sut y mae gwahanol grwpiau'n diffinio ac yn defnyddio termau megis *cydlyniant, integreiddio, a chynhwysiant,* ac fe geisiom felly osgoi gorfodi ein diffiniadau ni ein hunain. Fodd bynnag, mae'r termau'n bwysig wrth ystyried ymfudwyr yn ymgartrefu a'r newidiadau sy'n digwydd yn a rhwng cymunedau; yn wir, mae'n anodd peidio â'u defnyddio. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, ar gyfer ein defnydd ni ein hunain, rydym wedi cyfeirio at y diffiniadau a ddefnyddir gan y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant, yr ymddengys i ni eu bod yn arbennig o glir a defnyddiol, y diffiniadau yn ymateb y Llywodraeth i'r rhain a'r diffiniadau a ddefnyddir yn Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid Cymru (2007). Mae'r rhain fel a ganlyn:

Integreiddio a chydlyniant

1. Y Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant (2006) *Our Shared Future* (www.integrationandcohesion.org.uk/Our_final_report.aspx)

   Mae cymuned integredig a chydlynol yn golygu un:

   - Lle ceir ymdeimlad pendant a chyffredinol o gyfraniad gwahanol unigolion a gwahanol gymunedau at weledigaeth i'r dyfodol ar gyfer cymdogaeth, dinas, rhanbarth neu wlad

   - Lle ceir ymdeimlad cryf o hawliau a chyfrifoldebau unigolyn pan ei fod yn byw mewn lle arbennig – mae pobl yn gwybod beth mae pawb yn ei ddisgwyl ganddynt, a'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn gyfnewid am hynny

   - Lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cael cyfleoedd bywyd tebyg, mynediad tebyg at wasanaethau a thriniaeth debyg

   - Lle mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth mewn sefydliadau lleol i weithredu'n deg wrth gyflafareddu rhwng gwahanol fuddiannau ac y bydd eu rôl a'u rhesymau dros gyfiawnhau yn agored i graffu cyhoeddus

- Lle ceir cydnabyddiaeth gref i gyfraniad y rhai sydd newydd gyrraedd a'r rheiny a chanddynt eisoes gysylltiadau dwfn â lle arbennig, gyda ffocws ar yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin

- Lle ceir cysylltiadau cryf a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yn y gweithle, mewn ysgolion a sefydliadau eraill mewn cymdogaethau. (t. 10)

2. *Ymateb y Llywodraeth i'r Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant* (2008) (www.communities.gov.uk/publications/communities/governmentresponsecoic)

   Rhwng Awst 2006 a Mehefin 2007, cychwynnodd y Comisiwn raglen sylweddol o ymweliadau rhanbarthol, trafodaethau bord gron ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, gyda'r nod o asesu cynnydd mewn arfer ym maes cydlyniant ers 'Adroddiad Cantle' yn 2001, ac adnabod cyfleoedd newydd i'r Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol wella'u gwaith yn y maes hwn. (t. 6)

   Bu i'r Comisiwn ddadlau bod arnom angen diffiniad newydd o integreiddio a chydlyniant a fyddai'n adlewyrchu cymhlethdod lleol cynyddol a phatrymau ymfudiad newidiol, ac un sy'n mynd y tu hwnt i faterion sy'n ymwneud â hil a ffydd. (Adran 1.3)

Diffiniad newydd o Gydlyniant Cymunedol

Cydlyniant Cymunedol yw'r hyn y mae'n rhaid iddo ddigwydd ym mhob cymuned er mwyn galluogi gwahanol grwpiau o bobl i gyd-dynnu'n dda. Un ffactor allweddol sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol yw integreiddio sef yr hyn y mae'n rhaid iddo ddigwydd i alluogi preswylwyr newydd a phreswylwyr presennol i ymaddasu at ei gilydd.

Mae ein gweledigaeth ni ar gyfer cymuned integredig a chydlynol yn seiliedig ar **dair egwyddor sylfaenol**:

- Pobl o wahanol gefndiroedd yn cael cyfleoedd bywyd tebyg
- Pobl yn gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau
- Pobl yn ymddiried yn ei gilydd ac yn ymddiried mewn sefydliadau lleol i weithredu'n deg

(Parhad)

A thair ffordd o gyd-fyw:

- Gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol ac ymdeimlad cyffredin o berthyn
- Ffocws ar yr hyn sydd gan gymunedau newydd a phresennol yn gyffredin, ynghyd â chydnabyddiaeth o werth amrywiaeth
- Cysylltiadau cryf a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

(t. 10)

3. Cantle (2001)

> Mae cydlyniant cymunedol wedi dod i fod yn fwyfwy poblogaidd mewn dadleuon ynghylch polisi cyhoeddus. Mae cysylltiad agos rhyngddo a chysyniadau eraill megis cynhwysiant ac eithrio, cyfalaf cymdeithasol a gwahaniaethu, cymuned a chymdogaeth. Fel hyn, mewn ffordd anuniongyrchol, mae wedi bod yn ganolbwynt i nifer o bolisïau a mentrau sydd wedi'u bwriadu'n bennaf i ostwng eithrio cymdeithasol. (Cantle, 2001, t. 14)

Cynhwysiant

> Mae cynnwys ffoaduriaid yn broses ddwyffordd ddynamig, hirdymor, sy'n gosod gofynion ar unigolion sy'n ffoaduriaid a chymunedau ffoaduriaid fel ei gilydd ac ar y gymdeithas ehangach. Yr amcan wrth gynnwys ffoaduriaid yw sefydlu perthnasau cilyddol a chyfrifol rhwng ffoaduriaid a'u cymunedau, y gymdeithas ddinesig a'r Llywodraeth. Mae cynnwys ffoaduriaid yn digwydd pan fo ffoadur yn dod i fod yn aelod cwbl weithredol o'r gymdeithas, gan gyfranogi yn a chyfrannu at fywyd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, dinesig a gwleidyddol y wlad. (LlCC, 2006, t. 4)

Cymuned

> Gelwir y cymunedau y mae ffoaduriaid yn ymgartrefu ynddynt yn gymunedau sy'n derbyn. Gall y term hwn gyfeirio at ystod o wahanol gymunedau – y gymuned leol agosaf, cymuned fuddiant neu'r gymdeithas

ehangach. Mae cynnwys ffoaduriaid yn broses ddwyffordd ac mae'n bwysig bod y gymuned sy'n derbyn, yn ogystal â chymunedau ffoaduriaid, yn chwarae rhan weithredol o safbwynt cyflawni hyn. (LICC, 2006, t. 5)

Atodiad 2: Y cymunedau

Gweinyddwyr, arweinwyr cymunedau BME a chymunedau ffoaduriaid a phobl broffesiynol

Roedd y bobl hyn yn gweithio i, neu'n gwirfoddoli ar ran Llywodraeth y Cynulliad, y cynghorau yng Nghaerdydd neu Ferthyr Tudful, y GIG, NASS, grwpiau ffydd, mudiadau sy'n cynrychioli cymunedau ffoaduriaid, cyrff anllywodraethol ac elusennau. Roedd pedwar gweithiwr proffesiynol o'r cyfryngau wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn. Ble bynnag yr oedd 'cymuned' a oedd yn ei hadnabod ei hun felly fe siaradom ni hefyd gydag arweinwyr cymunedol yr oedd eu rolau weithiau'n gorgyffwrdd â rhai 'gweinyddwyr'.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau gydag unigolion neu barau ac roeddent yn cynnwys ychydig mwy o ddynion na menywod. Roedd y rheiny y cyfwelsom ni â hwy mewn swyddi uwch yn tueddu i fod yn wyn (18), ac roedd y rheiny a oedd yn gweithio gyda ffoaduriaid neu grwpiau duon ac ethnig yn dod o ystod o gefndiroedd, gan gynnwys cefndir Congolaidd a Somalïaidd. Roedd y grwpiau ffocws gydag aelodau o Gyngor Academaidd Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru, Cymdeithas Meddygon sy'n Ffoaduriaid Cymru a Llais Ffoaduriaid Cymru. Roedd y cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o'r cyfryngau'n cynnwys newyddiadurwyr ac ymgynghorydd â chyfrifoldeb am faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.

Y gymuned Somalïaidd

Y gymuned Somalïaidd yw'r grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf yng Nghaerdydd, ac mae'n cynnwys rhwng 6,000 a 10,000 o bobl yn ôl yr amcangyfrifon. Cyrhaeddodd y Somalïaid cyntaf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i weithio yn y dociau. Fe ymgartrefodd y cenedlaethau hŷn o ddynion sengl yn bennaf yng Nghaerdydd, a phriododdd rhai â menywod lleol a magu teuluoedd yn 'Tiger Bay'. Y teuluoedd Somalïaidd cyntaf, a'r menywod Somalïaidd cyntaf i ymgartrefu yng Nghymru mewn gwirionedd oedd y rhai a ymgartrefodd yng Nghasnewydd, ac nid tan y 1960au (Jordan, 2004, t. 21). O'r 1970au tan fis Mai 1988, daeth rhai aelodau o'r gymuned â'u gwragedd a'u plant i Gaerdydd. Bu i eraill a oedd wedi ymddeol i Somalia ddychwelyd i Gaerdydd gyda'u gwragedd a'u plant. Ond o fis Mai 1988 ymlaen, gyda chychwyn y rhyfel cartref 'llwyr' yn Somalia, gwnaeth pawb a chanddynt deulu yn Somalia gais am aduniad teuluol (Ahmed, 1998, t. 13). Daeth y rhan

fwyaf o ffoaduriaid rhwng 1989 a 1993 (Ahmed, 1998, t. 14). Roeddent yn cynnwys dau grŵp gwahanol iawn o bobl: yn gyntaf, aelodau blaenaf y gymdeithas yng ngogledd Somalia – gweithwyr proffesiynol cymwys a gŵyr busnes, rhai alltudion o Wladwriaethau'r Gwlff, a gŵyr ifanc sengl a oedd yn fyfyrwyr yn Somalia; ac yn ail, yn dilyn Deddf Mewnfudo a Cheisio Lloches 1999 a chamau gan y Swyddfa Gartref i wasgaru ceiswyr lloches i Gaerdydd, Somalïaid o'r de, e.e. Mogadishu, a niferoedd cynyddol o blant dan oed heb unrhyw un yn gwmni iddynt a mamau sengl a chanddynt nifer o blant yr un (Jordan, 2004, t. 25).

Fe gyfwelsom ni â 18 o bobl mewn perthynas â'r gymuned Somalïaidd ac fe gynhaliom ni 14 o grwpiau ffocws mewn ystod o leoliadau. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys: 28 o Somalïaid gwrywaidd a 36 o rai benywaidd; 14 o blant rhwng 11 a 18 mlwydd oed; 23 o bobl rhwng 19 a 25 mlwydd oed; 17 rhwng 26 a 35 mlwydd oed; 6 rhwng 51 a 65 mlwydd oed; 1 dros 65 mlwydd oed (dim rhwng 36 a 50 mlwydd oed). Ni ddatgelodd tri faint oedd eu hoed. Roeddent yn dod o'r holl 'ddarnau' o gymuned o fewn y 'gymuned' ac roeddent yn cynnwys arweinwyr cymunedol.

Y Tsieineaid

Gellir olrhain presenoldeb y Tsieineaid ym Mhrydain yn ôl i'r morwyr a gyflogwyd gan yr East India Company ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif (Holmes, 1988). Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu i'r Rhyfeloedd Opiwm adael Tsieina'n agored i ddatblygiad masnach Brydeinig a daeth hyn yn ei dro â mwy o labrwyr Tsieineaidd i Brydain. Caerdydd oedd un o'r dinasoedd cyntaf i brofi esblygiad graddol cymuned fordwyol Tsieineaidd yn ardal Butetown, ynghyd â nifer o gymunedau mordwyol a oedd yn gysylltiedig â grwpiau ethnig lleiafrifol eraill (Holmes, 1988, t. 32). Cafwyd sawl ton o fewnfudiad dros y ganrif ddiwethaf, ac mae pob un ohonynt wedi dod o ran wahanol o Tsieina. Pan oedd busnesau'n ffynnu, deuai ffrindiau neu berthnasau i ymuno â'r rheiny a oedd eisoes yn llwyddo yma. Arweiniodd rhwydweithiau o garennydd ac o dylwythau at ymfudiad cadwynol, gan ymestyn y rhwydwaith i berthnasau pellach. Roedd y patrwm hwn yn gyffredin ar gyfer cymunedau gwasgaredig yn y DU a oedd yn dod o daleithiau Canton a Ffwji (Zhou, 1992). Caiff y boblogaeth Tsieineaidd yng Nghaerdydd ei rhannu'n ddau grŵp blaenllaw, sef siaradwyr Cantoneg o Hong Kong a siaradwyr Mandarin o dir mawr Tsieina. Daw nifer fechan o Falaysia, Singapore a Thaiwan.

Recordiwyd un ar bymtheg o gyfweliadau gyda phobl fusnes, athrawon, ac academyddion Tsieineaidd a dau gynrychiolydd o fudiadau gwirfoddol, a chynhaliwyd un ar ddeg o grwpiau ffocws. Bu i gyfanswm o 64 o bobl gymryd rhan, gan

gynnwys 37 o ddynion a 27 o fenywod. Bu i ddethol bwriadus sicrhau amrywiaeth y cyfranogwyr o safbwynt rhanbarth gwreiddiol, hyd preswyliad, statws mewnfudo, cefndir o ran addysg a chefndir economaidd-gymdeithasol. Roedd y sampl yn cynnwys Tsieineaid cenhedlaeth-gyntaf o Hong Kong, a Tsieineaid ail-genhedlaeth a aned ym Mhrydain (BBC) ac academyddion/gweithwyr proffesiynol/myfyrwyr a gweithwyr mudol o dir mawr Tsieina, Hong Kong, Taiwan a Malaysia. Roedd eu galwedigaethau'n cynnwys meysydd prif-ffrwd nad ydynt yn gysylltiedig ag ethnigrwydd yn ogystal â meysydd sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd megis arlwyo, meddyginiaeth Tsieineaidd draddodiadol (TCM), mewnforio a gwaith i asiantaethau teithio. Cynhaliwyd cyfweliadau a thrafodaethau yn Tsienëeg Mandarin ac yn Saesneg gan ymchwilydd cymunedol a oedd yn siarad Mandarin a Saesneg.

Grwpiau Arabaidd

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd morwyr Yemenïaidd ymgartrefu yn y DU mewn dinasoedd porthladd megis Caerdydd a Lerpwl (gweler Drake, 1954). Daethant yn bennaf o Dde Yemen a wladychwyd gan Brydain am dros 160 o flynyddoedd. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cafodd miloedd o Yemenïaid o Aden a rhannau eraill o Yemen eu recriwtio i weithio yn y melinau dur mewn dinasoedd diwydiannol ym Mhrydain, megis Sheffield.

Mae Nagel (2002) yn amcangyfrif bod oddeutu 2.5 y cant o'r boblogaeth Arabaidd ym Mhrydain yn byw yng Nghymru. Yemenïaid yw'r grŵp mwyaf, wedyn y Swdaneaid a'r Iraciaid. Amcangyfrifir fod 2,000 o Yemenïaid yng Nghaerdydd. Mae'r Iraciaid a'r Swdaneaid yn gymunedau newydd iawn, a hwythau heb eu sefydlu'u hunain tan y 1990au. Y tri grŵp hwn o ymfudwyr yw'r prif grwpiau Arabaidd sefydlog yn Ne Cymru. Mae nifer o gymunedau bychain iawn i'w cael hefyd nad ydynt ond yn cynnwys ychydig o deuluoedd. Ymhlith y rhain mae Libiaid, Eifftiaid, Palestiniaid, Iorddoniaid, Libaniaid, Syriaid ac Algeriaid. Mae llond llaw o deuluoedd Tiwnisaidd a Morocaidd yng Nghaerdydd. Yn olaf, mae grŵp o 'gymunedau dros dro', sy'n cynnwys myfyrwyr o Sawdi-Arabia, Oman, Kuwait, Bahrain, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Qatar yn bennaf sy'n aros am bum neu chwe blynedd yna'n dychwelyd i'w gwledydd cartref. Mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr Sawdïaidd yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r grwpiau hyn yn byw dros y ddinas i gyd, o ardal Butetown a STAR i ardaloedd mwy dosbarth-canol.

Cynhaliwyd cyfweliadau unigol gyda'r rheiny sydd â'u gwreiddiau yn Yemen, Swdan, Irac, yr Aifft, Libya a Sawdi-Arabia ynghyd â phedwar a oedd yn gymysg eu hil. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau gyda dynion (24). Roedd nifer o'r rheiny

y cyfwelwyd â hwy'n weithgar yn eu cymunedau, ac roedd rhai'n athrawon mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'u cymunedau (megis yr ysgol Shïaidd a'r ysgol Libiaidd). Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys dynion, menywod a phlant o'r gwahanol grwpiau.

Llandaf

Nid yn unig y mae gan Llandaf ddigonedd o fannau agored a mannau ar gyfer gweithgareddau hamdden a'r posibilrwydd i breswylwyr gerdded neu seiclo trwy Gaeau Llandaf i'r ddinas, ond mae tai hefyd yn tueddu i fod yn dai pâr mwy ac i fod â gerddi sy'n weddol fawr i'r DU. O amgylch Maes y Gadeirlan mae'r bensaernïaeth yn adrodd hanes hŷn yr eglwyswyr a diwydianwyr cyfoethog a adeiladodd dai mawr â gerddi anferth (sydd wedi mynd bellach), ac yn y strydoedd ochr ar bwys y maes, ac ar hyd Heol Caerdydd, saif tai teras llawer llai a oedd yn eiddo i labrwyr (Cymdeithas Llandaf, 1998, t. 55): mae gwerthoedd gwahanol yr adeiladau a'r tai o wahanol faint yn cynnal yr un amrywiaeth o ran dosbarth a galwedigaethau o fewn cyffiniau Llandaf fodern ag a geid ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Er bod Cymdeithas Llandaf yn adrodd bod llawer o symud i mewn a symud o gwmpas yn Llandaf ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oes unrhyw sôn am y term 'mewnfudo' nac am y ffaith bod nifer o'r rheiny a adeiladodd Llandaf fel y mae heddiw'n dod o Loegr. Symudodd y BBC i Landaf o Barc y Plas ym 1967 ac mae pencadlys BBC Cymru wedi bod ar Heol Caerdydd yn Llandaf byth ers hynny, gan helpu i ddod â'r math o fewnfudwyr i'r ardal sy'n bennaf yn ddisylw yma ac mewn dogfennau polisi.

Roedd ein hymchwil yn Llandaf yn llai trylwyr nag mewn ardaloedd eraill, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau amser, ac yn rhannol am fod nifer o'r rheiny yr ydym wedi'u labelu uchod yn 'weinyddwyr' neu'n weithwyr proffesiynol yn y cyfryngau ymhlith preswylwyr dosbarth-canol yr ardal hon. Mae'r ardal yn cynnwys pobl wyn yn bennaf ac mae nifer o'r rheiny sy'n byw'n Llandaf wedi dod ar draws grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghaerdydd fel rhan o'u gwaith neu'u hymchwil. Roedd hyn yn wir am y rheiny y siaradom ni gyda nhw, er mewn cyd-destunau a chymwysterau gwahanol. Tynnwyd ar un cyfweliad ac un grŵp ffocws o'r adran yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Tsieineaid hefyd oherwydd eu bod wedi'u cynnal â Tsieineaid a oedd yn gweithio yn Llandaf. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda landledi'r dafarn yn y pentref, gydag uwch gynrychiolwyr o ysgol breifat i ferched, ac (yn unigol) gyda chwpl priod a oedd wedi ymddeol, gweithiwr proffesiynol yn y cyfryngau a oedd wedi ymddeol ac athro Cymraeg. Cynhaliwyd grŵp ffocws na chafodd ei recordio hefyd gyda phreswylwyr un

heol yn Llandaf: gweithiwr cymdeithasol, actores deledu Gymraeg a oedd yn wraig weddw ac wedi ymddeol, perchennog swyddfa post a oedd wedi ymddeol (dyn, sydd bellach wedi marw), cyfreithiwr, llyfrgellydd benywaidd a darlithydd gwrywaidd.

Cathays

Mae Cathays a'r Rhath wedi'u lleoli i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd o ganol y ddinas (yn y drefn honno). Yn union i'r de o Cathays y mae Parc Cathays, lle saif Prifysgol Caerdydd, y Swyddfa Gymreig (swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru), swyddfeydd Cyngor Caerdydd, y llysoedd barn, prif orsaf yr heddlu a Neuadd y Ddinas. Y Brifysgol a'r Cynulliad, ynghyd â'r cyngor, yw'r prif gyflogwyr yn yr ardal. Mae dwy boblogaeth neu gymuned fawr yn ardal Cathays/ Y Rhath, nad ydym wedi'u cynnwys o gwbl. Y grŵp o bobl a gyflogir gan y prif gyflogwyr yn yr ardal yw'r gyntaf o'r rhain. Fe ymdrinnir â'r rhain mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn fel 'gweinyddwyr'. Y boblogaeth Asiaidd fawr sydd bellach wedi hen ennill ei phlwyf yw'r llall. Mae'r gymuned Asiaidd yn amlwg iawn yn yr ardal: mae yma dri mosg, y mae un ohonynt ar y brif heol, sef Heol Crwys, ac ysgol Fwslimaidd, ac mae cyfran sylweddol o berchenogion y siopau'n Asiaidd.

Y grwpiau yr ydym wedi ymchwilio iddynt yw cymuned y myfyrwyr, gweithwyr mudol a chymuned y bobl wyn ddosbarth-gweithiol a oedd yn byw yn yr ardal yn wreiddiol. Gwnaed y dewisiadau hyn yn wreiddiol am ein bod am weld a oedd poblogaethau'r ymfudwyr dros dro, megis myfyrwyr, ac yn enwedig y myfyrwyr rhyngwladol, yn arwain at wahanol effeithiau mewn ac ar gyfer poblogaethau lleol na'r mewnfudwyr hynny a oedd yn dod i aros. Nid oeddem wedi rhagweld y byddem yn dod o hyd i weithwyr mudol hefyd. Yn ôl amcangyfrifon un cyfwelai, mae tua 8,000 o'r 22,000 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn byw yn Cathays. Mae oddeutu 3,000 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 100 o wledydd. Mae ein data ni ein hunain, sy'n deillio o'r holiaduron demograffig a lanwyd gan y cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws, yn nodi deuddeg hunan-ddisgrifiad gwahanol o grwpiau ethnig ymhlith y 70 aelod yn y grwpiau ffocws a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn. Y tri grŵp mwyaf yw 'Gwyn' (40 y cant), 'Ewropeaidd' (17 y cant) a 'Gwyn Ewropeaidd' (17 y cant). Mae wyth cenedl wahanol i'w cael: Cymreig, Prydeinig, Seisnig, Portiwgeaidd, Pwylaidd, Sbaenaidd, Lithwanaidd a Slofacaidd.

Daw'r wybodaeth am gymuned y myfyrwyr o dri grŵp ffocws gyda myfyrwyr a chyfweliadau gyda phedwar arweinydd myfyrwyr (swyddog sabothol ymgyrchoedd a chysylltiadau cyhoeddus, golygydd papur newydd i fyfyrwyr, a dau reolwr Gwirfoddoli gan Fyfyrwyr Caerdydd), landlord, a heddwas cymunedol ('cwnstabl cymunedol i'r

myfyrwyr') sy'n ymwneud â myfyrwyr. Cynhaliwyd pum grŵp ffocws gyda gweithwyr mudol – tri grŵp cymysg gyda Phwyliaid, Portiwgeaid a Lithwaniaid, un gyda'r Slofaciaid ac un gyda menywod Sbaenaidd. Roedd y grwpiau ffocws sy'n weddill gyda phreswylwyr dosbarth-gweithiol hŷn a oedd wedi ymddeol.

STAR

Mae poblogaeth STAR (Y Sblot, Tremorfa, Adamsdown a'r Rhath) yn un amrywiol iawn gyda hanes diddorol ac mae'n un o'r ardaloedd hynaf yng Nghaerdydd sy'n profi rhywfaint o foneddigeiddio wrth i brisiau eiddo yn y brifddinas barhau i godi ac wrth i weithwyr proffesiynol ifanc brynu tai yn STAR am brisiau llawer is nag mewn mannau eraill. Yn ôl cyfweleion o ardal STAR yng Nghaerdydd, mae gweithwyr yn y diwydiannau creadigol yn symud i mewn 'am fod prisiau tai'n is' nag yn ardaloedd traddodiadol y celfyddydau/cyfryngau yn Llandaf a Threganna. Bellach mae 'amrywiaeth gwych o fwytai' a snobyddiaeth newydd yn gysylltiedig ag adfywio Bae Caerdydd. Dechreuodd yr ardal ddatblygu o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, gyda'r dociau'n cael eu hadeiladu ym 1839 a 1846 i allforio glo a gloddiwyd yn y Cymoedd.

Bu i'r diwydiannau hyn ddenu mewnfudwyr, yn bennaf o siroedd Cymru, yna o ganolbarth Lloegr, Dyfnaint, Cernyw a Gwlad yr Haf, ond daeth y nifer uchaf o bell ffordd o Iwerddon wrth i Dde Cymru fewnforio gweithwyr er mwyn cyflymu'r broses o ddiwydiannu. Arweiniodd hyn at ddylanwad Catholig Gwyddelig a Seisnig yn y Sblot. Erbyn 1861 roedd 18,000 o Wyddelod yn byw yn Ne Cymru. Ym 1891, agorodd Gweithfeydd Dur East Moor yn y Sblot a chyrhaeddodd llawer mwy o weithwyr a'u teuluoedd yng Nghymru i fyw a gweithio yn yr ardal. Yn y 1930au arweiniodd dirywiad graddol Merthyr Tudful at gau'r gweithfeydd dur yno a throsglwyddo'r busnes i East Moor. Roedd busnes ar i fyny tan ganol y 1960au pan arweiniodd gormodedd o ddur ledled y byd at gychwyn dirywiad cyson, a arweiniodd at gau'r gwaith ym 1978. Pan oedd ar ei anterth ar ddechrau'r 1960au, roedd y gwaith yn cyflogi 10,000 o ddynion. Yn wahanol i Butetown, fodd bynnag, mae ardal STAR yng Nghaerdydd wedi bod, dros y ganrif ddiwethaf, â phoblogaeth sy'n bennaf yn wyn, ac a oedd yn wreiddiol yn fewnfudwyr.

Mae'r adroddiad hwn ar STAR yn seiliedig ar un ar ddeg o gyfweliadau ac un grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda 'gweinyddwyr' a oedd yn gweithio ac yn aml yn byw yn ardal STAR a chyda phreswylwyr gwyn (dinasyddion hŷn yn bennaf). Yn ogystal â hynny, yn yr adran hon, rydym wedi defnyddio deunydd o'r grwpiau ffocws a oedd yn rhan o brosiect Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru yr oeddem yn gweithio arno ochr yn ochr â'r ymchwil hon yn 2005 (Threadgold a Clifford, 2005).

Fe lofnododd yr holl gyfranogwyr ffurflenni moeseg ar gyfer y ddau brosiect ac fe gytunon nhw i gymryd rhan yn y ddau. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda: Menywod Somalïaidd, plant Somalïaidd 11-17 mlwydd oed (a oedd yn byw yn Nhremorfa); menywod o Ddwyrain Ewrop a oedd yn geiswyr lloches cyn i'w gwledydd cartref ddod yn aelod-wladwriaethau o'r Undeb Ewropeaidd (a arweiniodd at roi caniatâd iddynt aros yn y DU yn 2005), a oedd yn byw yn y Sblot/Adamsdown a'r Sblot/Grangetown; ffoaduriaid a cheiswyr lloches Congolaidd (yn y Rhath ac yn cael ei gynnal yn y siop Affricanaidd yn y Rhath er nad oedd y bobl hyn i gyd yn byw yn ardal STAR); ceiswyr lloches Congolaidd anghenus; a chyfweliad gydag arweinydd Voice of the Congo, sy'n ffoadur ei hun. Nid ydym yn honni ein bod wedi cwblhau astudiaeth drylwyr yma, ond ein bwriad oedd cynnig cipolwg o'r mathau o faterion mewn perthynas ag ymfudiad a chydlyniant cymdeithasol sydd i'w gweld yn dod i'r amlwg o'n gwaith cyfyngedig yn yr ardal.

Merthyr Tudful

Mae Merthyr Tudful oddeutu 30 milltir i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd yng Nghymoedd De Cymru. A hithau'n gymuned sy'n cynnwys pobl wyn yn bennaf ac a oedd yn rhan o faes glo De Cymru gynt, mae wedi profi tonau o ymfudiadau newydd gan Saeson, Gwyddelod, Eidalwyr, Rwsiaid, Pwyliaid a Ffrancod, a chafwyd y mewnlifiad mwyaf rhwng 1901 a 1911. Rhwng y rhyfeloedd, ar y llaw arall, mudodd hanner miliwn o bobl o'r Cymoedd i chwilio am waith. Mae gan Ferthyr boblogaeth fechan o Bacistaniaid, mae'n safle ar gyfer diwydiant rhyngwladol, ac yn y flwyddyn cyn ein gwaith maes roedd wedi profi dyfodiad sydyn 100 Bortiwgeaid a oedd wedi dod i weithio yn y diwydiant cig i gwmni sy'n cyflenwi archfarchnadoedd. Mae Merthyr yn ardal adfywio â chryn dipyn o ddiweithdra ac anfantais ymhlith y mwyafrif o'r boblogaeth wyn ac yn un lle gellid disgwyl i faterion sy'n ymwneud â chydlyniant cymdeithasol ac ymfudiad newydd fod yn wahanol iawn i'r rheiny yn yr ardaloedd eraill a bortreadir uchod.

Cymerodd tri ar ddeg o gyfranogwyr ran yn y cyfweliadau unigol a'r cyfweliadau fesul pâr – naw o ddynion, tair o fenywod, ac un nas cofnodwyd. Roeddent i gyd yn 'weinyddwyr' gwyn. Cafodd wyth o'r grwpiau ffocws eu cynnal gyda gweithwyr mudol Portiwgeaidd a oedd yn byw ym Merthyr ar y pryd, dau gyda phreswylwyr mewn hostelau, dau gyda phreswylwyr mewn llety gwarchodol a dau gyda phobl ifanc. Roedd y gweddill gyda phreswylwyr o'r ystadau.